

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cynllun Tair Blynedd 2024 – 2027



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Rhagair	4
Cyflwyniad	5
Cyd-destun strategol	7
Fframwaith Deddfwriaethol	7
Fframwaith Cynllunio GIG Cymru	9
Blaenoriaethau Gweinidogol	10
Cymru Iachach	10
Nod Pedwarplyg GIG Cymru	11
Rheoli Ansawdd	12
Iechyd y Boblogaeth ac Annhegwch	13
Asesiad o Anghenion y Boblogaeth	13
Adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros lechyd: "Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy"	15
Gofal seiliedig ar werth	16
Perfformiad y Bwrdd Iechyd	17
Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth	17
Adfer ar ôl y Pandemig	17
Galw a Chapasiti	17
Cyflawni yn erbyn y Nod Pedwarplyg	19
'Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf' (GIRFT)	21
Y Cyd-destun Ariannol	21
Agwedd y Bwrdd Iechyd at 24-27: 5 Amcan Strategol	22
Amcan 1: Creu sefydliad effeithiol	24
Amcan 2: Datblygu strategaeth a newid hirdymor	41
Amcan 3: Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol	58
Amcan 4: Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad	64
Amcan 5: Sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol	100
Adnoddau Ariannol	110
Adnoddau'r Gweithlu	118
Cynllun cyflawni blynyddol 2024-25	121
Atodiadau	122
Y Templedi Cynllunio	122
Cynllun Blaenoriaethu Cyfalaf	122
Byrfoddau a Geirfa	123

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r Cynllun Tair Blynedd Integredig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2027.

Mae'r Cynllun Integredig hwn yn nodi pwynt pwysig i'r Bwrdd Iechyd. Dyma'r cynllun cyntaf a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iechyd dan arweiniad Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol newydd, wedi'i gefnogi gan newid sylweddol yn aelodaeth y Bwrdd, ac ynddo rydym yn dangos uchelgais glir i symud y tu hwnt i'r heriau sydd wedi arwain at uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig gan Lywodraeth Cymru tuag at sefyllfa lle gall y Bwrdd Iechyd weithredu'n gynaliadwy i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu llawer o'r camau gweithredu sydd eu hangen i wneud hyn ac yn benodol mae'n tynnu sylw at y ffaith bod llwyddiant parhaol yn gofyn i ni fynd i'r afael â'r heriau presennol gyda dealltwriaeth gref o anghenion y dyfodol.

Felly, rydym yn tynnu sylw at yr angen i sefydlu gweledigaeth strategol glir ar gyfer y Bwrdd Iechyd dros y deng mlynedd nesaf. Bydd hyn yn ein harwain i adeiladu ymhellach ar y gwasanaethau sy'n gweithio'n dda, gan gefnogi gwasanaethau y mae angen eu haddasu i ateb y galw nawr ac yn y dyfodol.

Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni ail-lunio ein perthynas â'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru a'n partneriaid, ac mae ein bwriad i wneud hyn wedi'i nodi'n glir yn y Cynllun hwn. Bydd hyn yn arwain at y datrysiadau gorau i Ogledd Cymru ac yn cydnabod bod y datrysiadau hynny'n cynnwys perthnasoedd dwfn ac ystyrlon sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a dealltwriaeth y bydd cydweithio fel 'system gyfan' yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd a'n partneriaid ac yn arwain at ganlyniadau gwell.

Y Bwrdd Iechyd yw'r cyflogwr mwyaf yng Ngogledd Cymru, gyda chyllideb flynyddol o tua £2 biliwn. Mae'r Cynllun hwn, a'n camau gweithredu ar gyfer y dyfodol, yn adlewyrchu hyn er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae hyn yn eu darparu. Mae hyn yn cynnwys sut gallwn ni greu cyfleoedd i'n gweithlu nawr ac yn y dyfodol, gan weithio'n ofalus gyda phartneriaid wrth wneud hynny. Mae hefyd yn cynnwys cyfleoedd i wella'r modd rydym yn gwario ein cyllideb i sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau i boblogaeth Gogledd Cymru ac i wneud y mwyaf o'n rôl fel 'sefydliad angori' yng Nghymru.

Yn olaf, dymunwn ddiolch i'n cyhoedd a'n partneriaid am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i rannu cyngor a syniadau. Edrychwn ymlaen at adeiladu ar hyn wrth i ni gryfhau'r cysylltiadau hyn ac edrych gyda'n gilydd ar ffyrdd o wella gwasanaethau gofal iechyd yng Ngogledd Cymru nawr ac yn y dyfodol.



Carol Shillabeer
Prif Weithredwr



Dyfed Edwards
Cadeirydd

Rhagarweiniad

Mae Cynllun Tair Blynedd Betsi Cadwaladr ar gyfer 2024-27 yn adeiladu ar gyflwyniadau blaenorol am y cynllun blynyddol ynghyd â'r cynllun uwchgyfeirio presennol i'r Mesurau Arbennig ar gyfer y Bwrdd lechyd, er mwyn llunio ymateb cydlynol i ddatblygu a gwella.

Mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth a ddewiswyd i gyfuno camau gweithredu a fydd yn sicrhau gwelliant yn ystod y flwyddyn (2024-25) ar yr un pryd â sicrhau bod safbwynt mwy hirdymor yn cael ei ystyried. Mae'r Bwrdd lechyd o'r farn bod y dull deuol hwn o gynllunio ymlaen, yn ogystal â pharhau i wella'r 'fan hyn nawr' yn arbennig o bwysig i sicrhau bod y cynnydd a wneir yn cael ei gymhwyso'n gyson a'i fod yn gynaliadwy.

Mae camau gweithredu allweddol yn y cynllun yn cael eu casglu o dan y pum amcan blaenoriaeth y mae'r Bwrdd lechyd yn eu defnyddio ar gyfer Mesurau Arbennig. Fel hyn, mae'r Bwrdd lechyd yn cysoni mwy ar ei waith cynllunio a'i ymateb i fesurau arbennig er mwyn canolbwyntio ar y meysydd sydd fwyaf tebygol o arwain at y gwelliant mwyaf.

Amcan 1: Creu sefydliad effeithiol		Amcan 4: Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad	
1A	Effeithiolrwydd y Bwrdd	4A	Profiad Cleifion
1B	Rheoli Risg	4B	Atal
1C	Model Gweithredu	4C	Gofal Sylfaenol ac Ymyrraeth Gynnar
1D	Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd	4D	Gofal Cymunedol a Chlystyrau
1E	Gwerth a Chynaliadwyedd	4E	Gofal wedi'i Gynllunio
1F	Gwelliannau Deddfwriaethol	4F	Gofal Canser
1G	Cynllunio'r Gweithlu	4G	Gofal Brys a Gofal Argyfwng
1H	System Rheoli Ansawdd	4H	Diagnosteg
1I	Y Gymraeg	4I	Iechyd Meddwl Oedolion, Anabledd Dysgu, CAMHS a Niwroamrywiaeth
1J	Datgarboneiddio	4J	'Gwasanaethau â heriau' ar hyn o bryd
Amcan 2: Datblygu strategaeth a newid hirdymor		4K	Gwasanaethau Merched
2A	Strategaeth 10 mlynedd	4L	Plant
2B	Cynllun Gwasanaethau Clinigol	4M	Gwasanaethau fferyllol
2C	Comisiynu	Amcan 5: Amgylchedd Dysgu Effeithiol	
2D	Blaenoriaethau Cyfalaf: helpu newid i ddigwydd	5A	Partneriaeth Prifysgol
2E	Digidol, Data a Thechnoleg	5B	Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
2F	Blaenoriaethu	5C	Gyrfaoedd Academaidd
2G	Cyflawni Newid Mawr yn Effeithiol	5D	Seiliedig ar Wybodaeth
2H	Cryfhau'r Gwaith Cynllunio	5E	Sefydliad sy'n Dysgu
2I	Amgylchedd Llywodraethu Cyllid		
2J	Canfod a chefnogi Gwasanaethau â heriau yn gynnar		
Amcan 3: Diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol			
3A	Arweinyddiaeth Dosturiol a Datblygu Sefydliadol		
3B	Ymgysylltu â Dinasyddion		
3C	Bod yn Bartner Da		

Tabl 1: Meysydd Blaenoriaeth Allweddol ar gyfer Cynllun 2024-27

Blaenoriaethau Allweddol a fydd yn gwella perfformiad yn ystod 2024-25

Bydd y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r blaenoriaethau yn y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yn ystod 2024-25. Mae rhai ohonynt, er enghraifft dechrau gweithio i adnewyddu cynllun deng mlynedd ar gyfer y Bwrdd Iechyd, yn canolbwyntio ar y galw a chynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol a'r rheini fydd yn cael yr effaith fwyaf yn y dyfodol. Er mwyn cael yr effaith hon, rhaid i'r gwaith ddechrau yn 2024-25.

Mae blaenoriaethau o fewn canlyniad pedwar yn arbennig o bwysig i wella'r gwaith o gyflawni perfformiad o fewn 2024-25 ac maent wedi cael eu strwythuro i gyflawni hyn.

Blaenoriaethau Strategol Allweddol

Fel yr amlinellir uchod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi edrych y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf i nodi'r gwaith sydd ei angen i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sydd wedi arwain at waith monitro wedi'i uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig gan Lywodraeth Cymru, ac i sicrhau bod camau gweithredu a datrysiadau'n addas ar gyfer anghenion y boblogaeth nawr ac yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu i wella'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei drefnu er mwyn gweithio'n fwyaf effeithiol, a datblygu meddwl strategol, gyda gwell cyfranogiad gan y cyhoedd a phartneriaid, er mwyn llywio ein penderfyniadau a'n blaenoriaethau'n well dros y blynyddoedd nesaf.

Templedi Cynllunio

Mae'r gweithgareddau newid y tynnis sylw atynt yn y cynllun hwn yn cael eu darparu ar lefel uchel. Y tu ôl i'r cynllun, mae templedi cynllunio cenedlaethol ac amcangyfrifon o lwybrau perfformiad sy'n rhoi mwy o fanylion am yr effaith ddisgwyliedig.

Cynllun Cyflawni Blynyddol

Bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni blwyddyn 2024-25 o'r cynllun hwn a'n cynlluniau clwstwr cysylltiedig drwy ddefnyddio *Cynllun Cyflawni Blynyddol*. Caiff hwn ei lansio ddechrau 2024-25, a bydd yn cynnwys camau gweithredu manwl sy'n gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS), ac yn cwmpasu'r holl flaenoriaethau sydd yn Gynllun hwn. Bydd y gwaith o gyflawni'r rhain yn cael ei raeadru drwy'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio fframweithiau cyflawni a pherfformiad y cytunwyd arnynt a thrafodaethau ynglŷn â phennu amcanion personol ac ar amcanion ar gyfer timau.

Cyd-destun strategol

Fframwaith Deddfwriaethol

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru i baratoi a chyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru. Dylai'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ddarparu map tuag at ddarparu gwelliannau i anghenion iechyd y boblogaeth, ar yr un pryd â chadarnhau cynlluniau i fantoli'r cyllidebau ariannol. Ar gyfer 2024/25, ac yn debyg i Fyrddau Iechyd eraill, nid yw BIPBC wedi gallu llunio cynllun tair blynedd sy'n bodloni'r holl ofynion sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi hysbysu Llywodraeth Cymru yn ffurfiol o'r sefyllfa, ac wedi cadarnhau ein bwriad i gyflwyno'r cynllun tair blynedd hwn, gyda ffocws penodol ar gynllun blynyddol 2024/25.

Y prif ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio integredig

Mae'r ddyletswydd statudol i gynllunio wedi'i nodi yn Neddf y GIG (Cymru) 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol baratoi cynllun sy'n nodi strategaeth ar gyfer

- Gwella iechyd pobl y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdanynt, a
- Gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd i'r bobl hynny

Rhaid adolygu'r cynllun yn rheolaidd; cynnwys partneriaid Awdurdodau Lleol wrth ei baratoi; ceisio cyfranogiad pobl, neu ymgynghori â nhw, yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion; ac ymateb i gyfarwyddiadau sy'n ymwneud â chynnwys y cynllun. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd roi sylw i'r cynllun wrth arfer ei swyddogaethau.

Roedd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn deddfu ar gyfer sicrhau bod cynllunio integredig yn sylfaen i'r system iechyd yng Nghymru, ac roedd yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i sicrhau cydbwysedd ariannol mewn perthynas â phob cyfnod o dair blynedd.

Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, a gyhoeddwyd yn unol â darpariaeth y Deddfau uchod ar gyfer gwneud cyfarwyddiadau, yn cadarnhau bod rhaid i gynlluniau wneud y canlynol


- Bodloni'r gofynion statudol i gomisiynu a/neu ddarparu gwasanaethau i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth ac i sicrhau cydbwysedd ariannol
- Nodi camau gweithredu a cherrig milltir clir sy'n dangos sut caiff y bwriadau cynllunio eu cyflawni
- Cyflawni'r cerrig milltir allweddol sydd yn y Fframwaith Cyflawni
- Triongli cyllid, gweithgarwch a'r gweithlu yn y cynlluniau

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gydweithredu â Phartneriaid i baratoi a chyhoeddi Cynllun Ardal 5 mlynedd sy'n nodi amrediad a lefel y gwasanaethau sydd i'w darparu i ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth,

gan gynnwys yr adnoddau i'w defnyddio¹. Mae'n ofynnol hefyd i Fyrddau Iechyd nodi'r camau a gynigir mewn perthynas â'r ddyletswydd i ystyried pwysigrwydd camau ataliol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ystyried effaith hirdymor penderfyniadau, a chyflawni'r saith Nod Llesiant, gan ddefnyddio'r '5 Ffordd o Weithio' i wneud hynny.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth gwneud hyn ac

mae wedi integreiddio ethos y Ddeddf yn yr amcanion a'r blaenoriaethau sydd yn y Cynllun hwn.

Cydweithio
Integreiddio
Cynnwys
Tymor hir
Atal

Tabl 2: Y 5 Ffordd o Weithio

Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 nifer o ofynion o dan y ddyletswydd llesiant. Fel corff cyhoeddus dynodedig, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd, ddatblygu'n gynaliadwy, gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio sy'n cefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'n ofynnol hefyd i'r Bwrdd Iechyd nodi amcanion llesiant a ddyluniwyd i gynyddu'r cyfraniad tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn adnewyddu'r amcanion llesiant fel rhan o flaenoriaeth strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd, a amlinellir yn nes ymlaen yn y cynllun.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd hefyd weithio mewn partneriaeth drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i baratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol, sy'n nodi amcanion llesiant lleol a'r camau y bwriedir eu cymryd i'w cyflawni. O ran Gogledd Cymru, mae'r Cynlluniau Llesiant canlynol wedi cael eu cyhoeddi:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn².
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych³.
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam⁴.

Deddf y GIG (Cymru) 2006: Ymgysylltu ac ymgynghori

Mae dyletswydd statudol o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 ar y Bwrdd Iechyd i gynnwys dinasyddion ac ymgynghori â nhw ynghylch:

¹ <https://www.northwalescollaborative.wales/north-wales-population-assessment/regional-plan/>

² <https://www.llesiantgwyneddaron.org/cy/Cynllun-Llesiant/>

³ <https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/cynllun-lles-ileol/>

⁴ <https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Policy-and-Performance/PSB/Flintshire-and-Wrexham-Public-Services-Board-Well-being-Plan-2023-2028.pdf>

- Cynllunio i ddarparu gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt;
- Datblygu ac ystyried cynigion ar gyfer newidiadau yn y ffordd y darperir y gwasanaethau hynny; a,
- Gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y modd y mae'r gwasanaethau hynny'n gweithredu

Mae'r gofyniad deddfwriaethol yn cael ei ategu gan ganllawiau a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch newidiadau i wasanaethau. Yn ystod 2023-24, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda chydweithwyr sy'n mynychu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, y Fforwm Undebau Llafur a'r Fforwm Proffesiynau Iechyd i ddatblygu'r Cynllun hwn, ochr yn ochr â chydweithwyr Partneriaeth ehangach. Bydd y blaenoriaethau a amlinellir yn nes ymlaen yn y Cynllun yn cael eu datblygu i wreiddio'r cynnydd hwn ac i aeddfedu rhagor ar y dulliau ymgysylltu a'r ymgynghori.

Deddf Cydraddoldeb (2010)

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn nodi'r ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â chydaddoldeb a hawliau dynol ar gyfer cyrff rhestredig, y mae'r Bwrdd Iechyd yn un ohonynt. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi dyletswyddau penodol ar gyfer cyrff rhestredig yng Nghymru.

Rhaid i gorff rhestredig gynnwys pobl y mae'n ystyried eu bod yn gynrychioladol o'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig gwahanol a'r rheini sydd â buddiant yn y ffordd y mae awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau. Gall y corff rhestredig hefyd ymgynghori â phobl eraill yr ystyrir eu bod yn briodol, a chynnwys y rheini.

Fframwaith Cynllunio GIG Cymru

Bob blwyddyn, mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru yn nodi'r Cyfarwyddiadau cynllunio statudol ar gyfer sefydliadau'r GIG yng Nghymru.

Mae'r Fframwaith ar gyfer 2024-2027 yn cynnwys cyfarwyddyd yn y meysydd canlynol:

- Paratoi cynllun sy'n integredig ei natur
- Paratoi cynllun sy'n nodi gwelliannau i'w gwneud i wasanaethau a'u cynaliadwyedd yn y dyfodol, lleihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau iechyd o fewn yr adnoddau sydd ar gael
- Cael golwg strategol hirdymor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Paratoi cynllun sy'n cyd-fynd â gweledigaeth Cymru Iachach
- Cyflwyno'r 5 'Rhaglen Genedlaethol': Gofal Ychwanegol yn y Gymuned, Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Gofal Brys ac Argyfwng, Gofal wedi'i Gynllunio a Chanser, ac Iechyd Meddwl gan gynnwys CAMHS.
- Ymgorffori arweiniad a chefnogaeth gan y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol

Bydd ymdrechion i adfer mynediad at ofal iechyd yn ganolog wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau y mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'u nodi yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru.

Ar ben hynny, mae bwlch rhwng y twf yn y galw am ofal iechyd a'r gallu sydd gan systemau gofal iechyd i ymateb, o ystyried y cyfyngiadau cyllidol. Mae'r sbardunau ar gyfer hyn wedi'u nodi'n fanylach ar y tudalennau canlynol, ac maent yn cynnwys:


- Newidiadau demograffig, gyda chynnydd mewn poblogaethau hŷn
- Tueddiadau yn y galw am ofal iechyd, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r pandemig
- Tystiolaeth o anghydraddoldebau iechyd yn cynyddu
- Heriau economaidd-gymdeithasol gan gynnwys cynnydd mewn costau byw – sydd hefyd yn effeithio ar yr angen am ofal iechyd, y galw amdano a'r defnydd ohono

Blaenoriaethau Gweinidogol

Yn ogystal â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, mae'r Gweinidog wedi nodi nifer o feysydd blaenoriaeth penodol, y mae'r Rhaglenni Cenedlaethol yn eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau perthnasol. Dyma'r pum maes

- **Gofal Ychwanegol yn y Gymuned**, gan ganolbwyntio ar leihau oedi mewn llwybrau gofal
- **Gofal Sylfaenol a Chymunedol**, gan ganolbwyntio ar wella mynediad a symud adnoddau i ofal sylfaenol a chymunedol
- **Gofal Brys ac Argyfwng**, gan ganolbwyntio ar gyflawni'r rhaglen '6 nod'
- **Gofal wedi'i Gynllunio a Chanser**, gan ganolbwyntio ar leihau'r amseroedd aros hiraf
- **Iechyd Meddwl, gan gynnwys CAMHS**, gan ganolbwyntio ar gyflawni'r rhaglen genedlaethol

Cymru Iachach




Mae Cymru Iachach¹ yn nodi cynllun Llywodraeth Cymru i greu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant ac ar atal salwch.

Mae hyn yn gofyn am fodelau gofal newydd sy'n adeiladu ar arloesedd lleol sydd wedi'i wreiddio mewn clystyrau o ddarparwyr gofal sylfaenol a chymunedol sy'n gweithio gyda'i gilydd. Fel hyn, byddai pobl yn defnyddio gofal Ysbyty Cyffredinol

pan fo'n hanfodol yn unig, gyda mwy o driniaeth a gofal, yn canolbwyntio ar gadw'n iach, yn cael ei ddarparu'n nes at adref.

Er y bydd gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn fwy rhwydweithiol, felly hefyd y bydd gwasanaethau ysbyty lle bydd gwasanaethau arbenigol yn cael eu darparu mewn ysbytai mawr yn cael eu rhwydweithio fel y gall canolfannau rhagoriaeth esblygu.



Ffigur 1: Cymru Iachach: Symud o ddull sy'n canolbwyntio ar ofal yn yr ysbyty i ofal sy'n canolbwyntio ar lechyd, llesiant ac atal

Mae pandemig diweddar Covid-19 wedi effeithio'n anochel ar y cynnydd o ran cyflwyno Cymru Iachach. Mae'r Bwrdd Iechyd nawr yn bwriadu adfywio cynnydd tuag at ei gyflawni yng Ngogledd Cymru; bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda chydweithwyr yn GIG Cymru i adolygu'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn Cymru Iachach, ac i sicrhau bod y themâu a'r galluo gwyr yn Cymru Iachach yn sail i'n gwaith strategaeth 10 mlynedd (y cyfeirir ato yn nes ymlaen).

Nod Pedwarplyg GIG Cymru

Mae Cymru Iachach⁵ yn atgyfnerthu'r pwysigrwydd y mae'r GIG yng Nghymru yn ei roi ar y 'Nod Pedwarplyg' sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol i fwrw ymlaen â'r gwaith o wella gwasanaethau gofal iechyd sy'n addas ac yn gynaliadwy ar gyfer y cenedlaethau presennol a'r dyfodol o drigolion yng Nghymru. Yn y cyswllt hwn, mae iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy yn parhau i fod yn her fyd-eang. Dyma bedair thema'r Nod Pedwarplyg, a ddehonglir ar gyfer ein cyd-destun yng Nghymru:

- Iechyd a llesiant gwell i'r boblogaeth;
- Gwell ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Cynyddu'r gwerth a gyflawnir gan iechyd a gofal cymdeithasol;
- Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy.

⁵ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

Rheoli Ansawdd

Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym ym mis Ebrill 2023, gyda chefnogaeth 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal 2023: Gofal Diogel, Amserol, Effeithiol, Effeithlon, Teg sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (STEEP), yn cael ei ddarparu drwy: Arweinyddiaeth, Gweithlu, Diwylliant a Gwerthfawrogi Pobl, Gwybodaeth, Dysgu, Gwella ac Ymchwil, Dull systemau cyfan.



Ffigur 2: 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal

Mae'r Safonau'n darparu fframwaith sy'n galluogi gwasanaethau iechyd i edrych ar draws eu gwasanaethau mewn ffordd integredig er mwyn sicrhau bod popeth a wnânt o'r ansawdd gorau a'u bod yn gwneud y peth cywir, yn y ffordd gywir, yn y lle cywir ar yr adeg gywir a gyda'r staff cywir.

Maent yn ffordd o roi'r Ddyletswydd Ansawdd ar waith ar draws yr holl wasanaethau a swyddogaethau, boed yn rhai clinigol neu anghlinigol. Dylai penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ansawdd wella ansawdd gwasanaethau iechyd a pharhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran gweithredu System Rheoli Ansawdd effeithiol, gan elwa ar gymorth a chynghor y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd. Mae angen rhagor o gynnydd ac mae wedi'i gynnwys yn y Cynllun hwn.



Ffigur 3: y cylch rheoli ansawdd

Iechyd y Boblogaeth a Annhegwch

Asesiad o Anghenion y Boblogaeth

Un o nodau allweddol y Bwrdd Iechyd yw mynd i'r afael ag anghenion poblogaeth Gogledd Cymru er mwyn gwella iechyd a llesiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Mae'r *Asesiad o Anghenion y Boblogaeth*⁶ a gynhelir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, ac a ddiwygiwyd yn 2022, yn amlinellu'r ddemograffeg newidiol y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynllunio ar ei chyfer.

Rhwng 2025 a 2040 bydd nifer y preswylwyr dros 65 oed yn parhau i dyfu (19%), tra bydd nifer y preswylwyr o dan 65 oed yn gostwng ar draws Gogledd Cymru.

Mae hyn yn golygu y bydd cynnydd net yn y boblogaeth yng Ngogledd Cymru rhwng 2025 a 2040, gyda chyfran uwch o breswylwyr dros 65 oed.


Amcanestyniadau Poblogaeth – 65 oed a hŷn			
	2025	2040	Newid
Ynys Môn	19,400	22,500	3,100 (16.0%) ↑
Gwynedd	29,600	34,300	4,700 (15.9%) ↑
Conwy	35,400	43,500	8,100 (22.9%) ↑
Sir Ddinbych	25,100	30,400	5,300 (21.1%) ↑
Sir y Fflint	35,500	42,400	6,900 (19.4%) ↑
Wrecsam	29,100	34,500	5,400 (18.6%) ↑
GOGLEDD CYMRU	174,100	207,600	33,500 (19.2%) ↑

Amcanestyniadau Poblogaeth – 65 oed ac iau			
	2025	2040	Newid
Ynys Môn	50,300	47,000	3,300 (6.6%) ↓
Gwynedd	96,700	97,000	300 (0.3%) ↑
Conwy	83,800	79,500	4,300 (5.2%) ↓
Sir Ddinbych	71,500	67,900	3,600 (5.0%) ↓
Sir y Fflint	122,800	118,800	4,000 (3.3%) ↓
Wrecsam	105,800	98,000	7,800 (7.4%) ↓
GOGLEDD CYMRU	530,900	508,200	22,700 (4.3%) ↓

Ffigur 4: Proffiliau poblogaeth, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

▪ Cyflyrau hirdymor

Er bod llawer o bobl yn aros yn iach yn hirach, i lawer, bydd rhai yn wynebu lefelau cynyddol o gyflyrau hirdymor ac angen gofal a chymorth o ganlyniad i hynny. Yn ôl amcangyfrif yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, bydd cynnydd sylweddol yn nifer y



Ffigur 5: Cyflyrau hirdymor

⁶ Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Mae'r Asesiad llawn o Anghenion y Boblogaeth i'w gweld yn <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/>

fffenomenon y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal mor gyffredin. Cafodd y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal ei disgrifio am y tro cyntaf ym 1971⁷, ac mae'n golygu bod llawer o'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn lleiaf tebygol o dderbyn y gofal sydd ei angen arnynt.

Mae hyn yn effeithio ar unigolion sydd â lefelau uwch o angen a hefyd ar y 78,000 o aelodau o'r teulu neu berthnasau sy'n darparu gofal di-dâl.

▪ **Atal**

	PBC	Cymru
Pwysedd gwaed uchel	16.9%	15.8%
Diabetes yn achos oedolion	7.8%	6.1%
Clefyd y galon	3.8%	3.6%
Canser	3.7%	3.1%
COPD	2.7%	2.4%
Strôc	2.2%	2.1%

Mae llawer o'r cyflyrau hirdymor hyn yn rhai y gellir eu hatal, eu lleihau neu eu trin yn fwy effeithiol drwy fabwysiadu egwyddorion iechyd y cyhoedd a dewisiadau ffordd o fyw da.

Mae llawer o'r rhain yn fwy cyffredin yng Ngogledd Cymru nag yng Nghymru gyfan.

Mae hyn yn dangos mor bwysig yw sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ymyriadau i atal afiechyd yn y dyfodol, ochr yn ochr â mynd i'r afael ag afiechydion presennol.

Ffigur 2: Amllder cyflyrau hirdymor

▪ **Penderfynyddion ehangach ar gyfer iechyd**

Mae cydnabod y penderfynyddion ehangach sy'n effeithio ar iechyd yn hollbwysig ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd cydweithio â phartneriaid nad ydynt yn rhan o'r GIG.

Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, sef mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol, wedi'i rannu'n 1,909 o ardaloedd, Gogledd Cymru sydd â'r cyntaf, yr ail a'r nawfed gymuned fwyaf difreintiedig yn y deg ardal uchaf. Mewn mannau eraill yng Ngogledd Cymru, mae heriau'n ymwneud â natur wledig a thlodi tanwydd yn cael effaith anghymesur ar gymunedau yng Ngogledd Cymru.



Ffigur 7: Penderfynyddion ehangach ar gyfer iechyd

Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd barhau i weithio gyda phartneriaid mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys datblygu rhagor ar Glystyrau o wasanaethau cymunedol sy'n gallu mynd i'r afael â'r ffactorau ehangach hyn.


⁷ <https://www.kingsfund.org.uk/publications/articles/inverse-care-law>

▪ Anghenion fferyllol

Yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Asesiad Anghenion Fferyllol (AAFF) cynhwysfawr. Mae'r AAFF presennol yn rhedeg tan 2026 ac yn rhoi sylw i ddarparu gwasanaethau fferyllol ledled Gogledd Cymru⁸.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol yn cynorthwyo'r bwrdd iechyd i benderfynu ar geisiadau gan fferyllfeydd, contractwyr cyflenwi cyfarpar a meddygon fferyllol ar gyfer mangreoedd newydd, mangreoedd ychwanegol neu fangreoedd sy'n cael eu hadleoli, newidiadau i oriau agor neu ddarparu mwy o wasanaethau fferyllol.

Adroddiad y Prif Gyngorydd Gwyddonol dros lechyd: "Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy"



Mae adroddiad y Prif Gyngorydd Gwyddonol dros lechyd, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023⁹, yn nodi'r angen i wneud penderfyniadau beiddgar ynghylch sut mae darparu gofal a dyrannu adnoddau i ymateb i boblogaeth sy'n heneiddio ac sydd â risg o gael cyflyrau cronig sydd, gan mwyaf, yn rhai y gellir eu hatal. Bydd hyn yn gofyn am newid ffocws tuag at atal, a gwelliannau o ran sut rydym yn cefnogi cleifion sydd â morbidrwydd cymhleth a lluosog.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r newidiadau mewn demograffeg poblogaeth ac anghenion gofal iechyd a ddisgwylir dros y ddeng mlynedd nesaf. Mae'r prif negeseuon yn cynnwys y canlynol

- Bydd y diagnosis o lawer o gyflyrau hirdymor yn cynyddu, yn rhannol oherwydd poblogaeth yn heneiddio yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd cyfran uwch o'r boblogaeth yn byw gydag eiddilwch, dementia, canser, clefyd y galon a chlefydau cardiofasgwlaidd eraill, diabetes, ac iechyd meddwl gwael.
- Mewn llawer o gyflyrau, mae'r cyfraddau'n cynyddu ar gyfradd uwch na'r hyn a esbonnir gan oedran a ffactorau demograffig eraill yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys diabetes; dementia; afiechydon cardiofasgwlaidd gan gynnwys ffibriliad atriaidd, methiant y galon, pwysedd gwaed uchel, a chlefyd fasgwlaidd perifferol (PVD); clefydau'r ysgyfaint gan gynnwys clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) ac asthma; osteoporosis; clefyd llid y coluddyn; ac anhwylderau gorbryder.
- Bydd mwy a mwy o bobl yng Nghymru yn byw gyda chyflyrau lluosog hirdymor, gyda chyfran y bobl sy'n byw gyda phedwar neu fwy o glefydau yn dyblu rhwng 2015 a 2035, gyda phobl sy'n byw â nifer o glefydau yn gorfod mynd i lawer mwy o apwyntiadau cleifion allanol ar hyn o bryd.
- Bydd nifer cynyddol o bobl yng Nghymru sy'n byw gydag eiddilwch ac sydd angen mwy o fynediad at wasanaethau brys ac argyfwng mewn ysbytai, ac oedi cyn eu rhyddhau ar ôl aros yn yr ysbyty.

⁸ <https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/pharmaceutical-needs-assessment-pna/>

⁹ <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-09/science-evidence-advice.pdf>

- Heriau'r gweithlu yw'r her unigol fwyaf i'r GIG a gofal cymdeithasol wrth symud ymlaen. Mae newidiadau mewn technoleg a chyfansoddiad cymysgedd sgiliau gweithlu'r GIG yn cynnig y posibilrwydd o leihau cyfradd twf gweithlu'r GIG a gofal cymdeithasol ond bydd angen cynyddu capasiti mewn rhai meysydd, gan gynnwys meddygaeth deulu, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried yr adroddiad hwn wrth nodi blaenoriaethau a dulliau gweithredu ar gyfer 2024-27 yn y cynllun hwn, gan gydnabod y bydd angen trawsnewid parhaus y tu hwnt i hyn. Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun yn canolbwyntio ar gynllunio tymor hir, mae datblygu strategaeth deng mlynedd newydd yn adlewyrchu'r angen hwn.

Iechyd a gofal seiliedig ar werth

Mae ystyried *gwerth* y gofal y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei ddarparu yn ffordd bwysig o sicrhau bod y ffocws mwyaf yn cael ei roi ar y canlyniadau sydd bwysicaf i unigolion. Pan fydd y canlyniadau sydd bwysicaf yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r costau o'u cyflawni, mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu gwneud penderfyniadau sy'n cynnig yr effaith fwyaf o'r adnoddau sydd ar gael iddo.

Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi gwneud cynnydd da o ran ystyried gwerth wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, mae'r rhaglen barhaus o ailgynllunio llwybrau gofal allweddol yn cynnwys gofyn cwestiynau gwerth ym mhob cam, gan adeiladu ar y defnydd cynyddol o offer a meincnodi canlyniadau Mesur Canlyniadau a Adroddir gan Glaf (PROM) a chostau gyda darparwyr eraill.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael cymorth gan y tîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth cenedlaethol, ac mae'n bwriadu datblygu'r gwaith hwn ymhellach i 2024-25, a'r tu hwnt. Mae hyn yn cynnwys rhaglen waith benodol a fydd yn canolbwyntio ar droi gwaith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd Cenedlaethol yn ymarfer yn y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â datblygu cyfleoedd a nodwyd ac a sbardunwyd gan y Bwrdd Iechyd i gynyddu gwerth iechyd a gofal.

Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

Cafodd y Bwrdd Iechyd ei roi yn nhrefniadau Uwchgyfeirio Lefel 5 ('Mesurau Arbennig') ar 27 Chwefror 2023^{10, 11}. Ers hynny, mae cynnydd wedi'i wneud ym mhob maes gofynnol, gan gydnabod bod cynnydd pellach yn hanfodol; mae cyflawni hyn yn un o ofynion pwysig ac angenrheidiol y Cynllun hwn.

Ers mis Chwefror 2023, mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar '**sefydlogi**' y sefydliad a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu, gan wneud y newidiadau mwyaf sylweddol ac uniongyrchol sy'n angenrheidiol ar ôl yr ymyriad er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gogledd Cymru.



Yn ystod 2024-2027, bydd y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar y sylfeini hyn i'w rhoi ar waith er mwyn sicrhau dull gweithredu mwy '**safonol**', gan wneud y newidiadau sydd eu hangen i roi'r Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar sail '**cynaliadwy**' ar gyfer y dyfodol.

Adfer ar ôl y Pandemig

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau o ran gwella mynediad at ofal yn unol â'r amserlenni safonol gofynnol yn dilyn y newidiadau a oedd yn ofynnol oherwydd pandemig Covid-19. Nid yw'r rhestrau aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio wedi lleihau mor gyflym ag y dymunid, ac mae oedi cyn cael gafael ar ofal ysbyty pan fydd angen triniaeth frys yn heriau penodol i fynd i'r afael â nhw yn y cynllun hwn.


Galw a Chapasiti

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weld galw mawr ar draws gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Eilaidd wedi'u cynllunio a gwasanaethau Brys ac Argyfwng. Mae nifer y bobl sy'n mynd i adrannau achosion brys wedi parhau i gynyddu ac mae angen gwneud rhagor o waith i wella amseroedd trosglwyddo'r ambiwlans. Mae angen gweithio gyda sefydliadau partner i wella prydlondeb prosesau rhyddhau pobl sy'n aros am wasanaethau gofal cymunedol ac nad oes angen gofal meddygol arnynt yn yr ysbyty mwyach.

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau da yn 2023-24 mewn llawer o feysydd gofal wedi'i gynllunio, mae amseroedd aros yn parhau i ragori ar ddisgwyliadau Gweinidogion mewn nifer o feysydd clinigol. Mae'r meysydd hyn yn cael blaenoriaeth ym mhob rhan o'r cynllun hwn.


¹⁰ <https://www.llyw.cymru/trefniadau-uwchgyfeirio-ac-ymyrryd-gig-cymru>

¹¹ <https://www.llyw.cymru/rhoi-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-o-dan-fesurau-arbennig-wrth-ir-bwrdd-gamu-ir-naill-ochr>




Llwybrau gofal wedi'i gynllunio sy'n aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol, Rhagfyr 2023

Ffynhonnell: Crynodeb o weithgarwch a pherfformiad y GIG, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2024 ¹²



Llwybrau cleifion sy'n aros dros yr amser targed ar gyfer gwasanaethau profion diagnostig a therapi, fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol, Rhagfyr 2023

Ffynhonnell: Crynodeb o weithgarwch a pherfformiad y GIG, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2024 ¹²




Canran y cleifion sy'n cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau achosion brys, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol, Ionawr 2024

Ffynhonnell: Crynodeb o weithgarwch a pherfformiad y GIG, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2024 ¹²

¹² <https://www.gov.wales/nhs-activity-and-performance-summary-december-2023-and-january-2024-html>

Cyflawni yn erbyn y Nod Pedwarplyg



Ffigur 8: Llywodraeth Cymru. Nod Pedwarplyg.

Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn 'Nod Pedwarplyg Cymru Iachach' yn cael ei fesur yn erbyn Fframwaith Perfformiad cenedlaethol GIG Cymru, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd am y rhain yn ystod sesiynau cyhoeddus y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r penawdau perfformiad allweddol, ar ddiwedd chwarter 3 (31 Rhagfyr 2023) yn cynnwys:

Nod Pedwarplyg 1: Mae gan bobl yng Nghymru iechyd a llesiant gwell, gyda gwell mesurau atal a hunanreolaeth

- Roedd gan y sefydliad berfformiad cymharol gryf o ran cyfraddau brechu. Mae lefelau targedau yn cael eu gosod yn uchel er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd 'imiwnedd torfol', ac roedd y Bwrdd Iechyd o fewn pum pwynt canran i'r targed ar gyfer brechu rhag y feirws Papiloma Dynol (HPV) a brechu rhag y ffliw ymysg pobl dros 65 oed. Er ei fod wyth pwynt canran o dan y targed, y Bwrdd Iechyd oedd â'r cyfraddau brechu uchaf ar gyfer brechu plant yng Nghymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ymdrechion i wella hyn ymhellach o ystyried y risgiau cynyddol o achosion o'r frech goch.
- Mae'r sefydliad yn parhau i dargedu cyfraddau brechu Covid-19, gyda pherfformiad cyfartalog o'i gymharu â gweddill Cymru.
- Mae cyfraddau'r ymdrechion i roi'r gorau i ysmegu gan ddefnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi parhau i gynyddu.
- Mae'r nifer sy'n manteisio ar raglenni sgrinio babanod newydd-anedig wedi parhau'n uchel.
- Mae'r defnydd o sgrinio colonosgopi wedi gwella'n gyson, gyda'r Bwrdd Iechyd yn cael un o'r cyfraddau uchaf, ond gyda mwy o le i wella.

Nod Pedwarplyg 2: Mae gan bobl Cymru wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell a mwy hygyrch, wedi'u hwyluso gan dechnoleg ddigidol a'u cefnogi gan ymgysylltu

- Mae'r mynediad at wasanaethau deintyddol wedi bod yn gwella, ond mae angen gwelliant sylweddol o hyd.
- Mae mwy o gyfle'n cael ei roi i'r gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol mewn Fferyllfeydd Cymunedol, gyda 12,000 o ymgynghoriadau cymwys eraill yn nhri chwarter cyntaf y flwyddyn, ac yn tyfu.
- Mae'r cyfraddau mynediad iechyd meddwl ar gyfer pob oed, a'r cyfraddau mynediad niwroamrywiaeth ar gyfer plant, yn dal yn gymysg o'u cymharu ar draws Cymru, ac yn is na'r gofynion a'r disgwyliadau.
- Mae'r sefydliad wedi cynnal ei berfformiad cymharol gryf yng Nghymru mewn pryd i ddechrau triniaeth cancer o'r adeg atgyfeirio/amheuaeth, gyda gwaith yn y Cynllun hwn i wella hyn ymhellach.
- Yn y rhan fwyaf o achosion eraill, mae mynediad at ofal wedi'i gynllunio wedi parhau i fod yn sefyllfa heriol drwy gydol y flwyddyn. Er bod amseroedd aros dros 104 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth wedi gostwng yn nhri chwarter cyntaf y flwyddyn i 2,000 o gleifion (20%), mae gormod o gleifion yn dal i orfod aros am gyfnodau hir mewn rhai arbenigeddau.
- Mae perfformiad gofal brys ac argyfwng wedi parhau i fod yn heriol iawn. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal perfformiad gwell o ran amseroedd brysbennu ar adeg ymddangos mewn Adran Achosion Brys, mae oedi o ran amser rhwng cyrraedd Adran Achosion Brys a chael eich gweld gan uwch glinigwr sy'n gwneud penderfyniadau a'r amser a dreulir mewn Adrannau Achosion Brys yn parhau i fod yn rhai o'r materion mwyaf heriol yng Nghymru.

Nod Pedwarplyg 3: Mae'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn frwdfrydig a chynaliadwy

- Yn ystod 2023-24, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu lleihau'n gyson y gyfran o'n costau cyflogau sy'n cael ei gwario ar staff asiantaeth yn hytrach na staff sydd wedi'u penodi'n barhaol. Mae hyn yn cyd-fynd â maes Blaenoriaeth Gweinidogol ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Bu gostyngiad hefyd yn y cyfraddau gadael ymysg staff nyrsio a bydwreigiaeth.
- Mae cyfraddau salwch staff wedi aros yr un fath.

Nod Pedwarplyg 4: Mae gan Gymru system iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch sydd wedi dangos gwelliant ac arloesedd yn gyflym, wedi'i hwyluso gan ddata a chanolbwyntio ar ganlyniadau

- Mae oedi wrth drosglwyddo cleifion i ambiwlansiau sy'n cyrraedd Adrannau Brys y Bwrdd Iechyd wedi parhau i fod yn heriol iawn, ac mae hyn yn gwaethygu eto, gan adlewyrchu cyd-destun system gofal brys sydd dan bwysau mawr drwy gydol y flwyddyn.
- Mae'r sefydliad wedi gwella prydlondeb ymchwilio i 'ddigwyddiadau adroddadwy', ond mae angen gwneud rhagor o gynnydd.
- Mae cyfraddau cymharol dda o MRSA ac MSSA wedi cael eu cynnal, ond mae angen gwneud rhagor o waith i wella cyfraddau heintiau Klebsiella a Pseudomonas Aeroginosa sydd, er eu bod yn debyg i rai 2022-23 yn y Bwrdd Iechyd, yn gymharol wael o'u cymharu â rhannau eraill o Gymru.

'Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf' (GIRFT)

Mae Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf (GIRFT) yn rhaglen genedlaethol sydd wedi'i chynllunio i wella gofal cleifion drwy adolygu gwasanaethau, ac yna defnyddio meincnodau a'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi newid lleol.

Mae'r adolygiadau hyn yn cael eu harwain yn glinigol ac maent yn dod â chlinigwyr y Bwrdd Iechyd a chlinigwyr o fannau eraill at ei gilydd i archwilio ffyrdd o wneud gwelliannau ar sail profiadau pobl eraill.

Yn ystod 2023, cynhaliwyd adolygiadau mewn nifer o feysydd clinigol, gan gynnwys orthopedeg, wroleg, llawfeddygaeth gyffredinol, gynaecoleg ac offthalmoleg. Mae'r adolygiadau hyn wedi nodi cyfleoedd i wella cynhyrchiant, effeithlonrwydd a chanlyniadau gwell. Er bod nifer o welliannau wedi cael eu gwneud eisoes, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo yn ystod 2024 i wreiddio'r newidiadau cychwynnol hyn yn 'fusnes fel arfer' yn ogystal â'u hybu ymhellach gan ddefnyddio methodoleg ac argymhellion GIRFT. Mae meysydd gweithredu adolygiad GIRFT yn cael eu trafod ym mlaenoriaethau ein Cynllun ar gyfer 2024-25 a ddisgrifir yn nes ymlaen.

Y Cyd-destun Ariannol

Mae dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i reoli ei gyfrifoldebau'n effeithiol o fewn yr adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r sefydliad, ers ei ffurfio yn 2009, wedi cael anhawster i adennill costau ariannol ac ar hyn o bryd mae'n gwario mwy na'r hyn a ddyrennir iddo gan y Llywodraeth. Mae'n hanfodol bod y sefydliad yn gwella ei berfformiad ariannol.

Yn ystod 2023-24, roedd y Bwrdd Iechyd wedi gosod cyllideb ddiffyg o £134 miliwn a tharged arbedion o £25 miliwn. O ystyried y pwysau chwyddiant sylweddol yn ogystal â'r galw cynyddol am wasanaethau, cydnabu'r bwrdd iechyd lefel y risg o ran cyfyngu'r diffyg i'r £134 miliwn, er ei fod yn ceisio lleihau'r lefel hon o ddiffyg wrth symud tuag at sefyllfa sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol. Mae dyraniad Llywodraeth Cymru o £101 miliwn yn ystod y flwyddyn wedi cydnabod y pwysau sylweddol hyn, ochr yn ochr â gofyniad pellach i berfformiad ariannol byrddau iechyd wella i gyfanswm rheoli o £20 miliwn. Er nad yw blwyddyn ariannol 2023/24 wedi dod i ben, disgwylir y bydd y sefyllfa alldro yn adlewyrchu gwelliant sylweddol ac er nad yw'n debygol y bydd y cyfanswm rheoli'n cael ei gyflawni, bydd tystiolaeth o gynnydd tuag ato.

Agwedd y Bwrdd Iechyd at 24-27:

5 Amcan Strategol

Yn ystod 2023-24, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i symud ymlaen drwy ei amcanion yn erbyn y fframwaith Mesurau Arbennig. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, mae hyn wedi ymgysylltu o gwmpas pum prif faes lle'r oedd angen gwella fwyaf. Gan gydnabod yr angen i flaenoriaethu gwelliannau yn y meysydd a arweiniodd at Fesurau Arbennig, mae craidd cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-27 yn adeiladu ymhellach ar y pum maes amcan hynny:

1: Creu sefydliad effeithiol

Mae Amcan 1 yn cydnabod pwysigrwydd llywodraethu a gweithdrefnau a dulliau gwneud penderfyniadau effeithiol mewn sefydliadau Gofal Iechyd sy'n gweithio'n dda. Bydd hyn yn sicrhau'n well bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn brydlon, gan ddefnyddio gwybodaeth briodol, a bod y bobl iawn wedi cael eu cynnwys i sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud y tro cyntaf.

2: Datblygu strategaeth a newid hirdymor

Mae Amcan 2 yn tynnu ar yr angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn glir ynghylch anghenion y boblogaeth yng Ngogledd Cymru a bod gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni. Fel hyn, gall y Bwrdd Iechyd ddarparu gwasanaethau sy'n ddibynadwy, yn fwy cost-effeithiol, ac sy'n gwneud y defnydd gorau o weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

3: Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol

Mae Amcan 3 yn manteisio ar y corff enfawr o dystiolaeth sy'n dangos sut mae diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu â phreswylwyr, staff, cymunedau a phartneriaid yn effeithio'n fawr ar ansawdd gwasanaethau a phrofiad cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau yn y meysydd hyn a byddai'r rheini yn eu tro yn arwain at ganlyniadau gwell.

4: Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad

Mae Amcan 4 yn cwmpasu maes thematig mawr lle mae angen gwelliannau i wella perfformiad clinigol ar draws nifer o feysydd allweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno adeiladu ymhellach ar waith da sydd wedi'i ddechrau ac sy'n defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y llwybr.

5: Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer Dysgu

Mae Amcan 5 yn rhoi cyfle i ddysgu pryd nad yw pethau'n mynd fel y cynlluniwyd, i ddysgu, ac i ddefnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i ni er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a chefnogi gwybodaeth.

▪ *Egwyddorion Cynllunio*

Bydd Egwyddorion Cynllunio Sefydliadol yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio a chysoni gweledigaeth strategol, nodau, galluedd a phrosesau'r sefydliad. Drwy ddefnyddio egwyddorion cynllunio gellir cael eglurder syml i wella effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, ansawdd ac arloesedd. Bydd y dull hwn hefyd yn symud y Bwrdd lechyd yn raddol i gyfeiriad cyffredin, yn ogystal â rhoi sicrwydd o ran y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi dechrau llunio Egwyddorion Cynllunio ond mae rhagor o waith i'w wneud i ymgysylltu, trafod a mireinio'r rhain cyn eu cwblhau'n derfynol. Bydd yr Egwyddorion yn cyfrannu fel map i helpu i ganolbwyntio a llywio gweithgarwch gwella.



Creu sefydliad effeithiol

1: Creu sefydliad effeithiol

2

3

4

5

Mae Amcan 1 yn cydnabod pwysigrwydd llywodraethu a gweithdrefnau a dulliau gwneud penderfyniadau effeithiol mewn sefydliadau Gofal Iechyd sy'n gweithio'n dda.

Yn union cyn i'r Bwrdd Iechyd gael ei uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig, cyhoeddodd Archwilio Cymru adolygiad ar Effeithiolrwydd y Bwrdd, a oedd yn amlinellu'r newidiadau sydd eu hangen i ddeall risg yn well ac i sicrhau dulliau llywodraethu gwell. Ers hynny, mae adolygiadau dilynol a gomisiynwyd i archwilio hyn yn fanylach wedi nodi argymhellion bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu dealltwriaeth y bydd hyn yn sicrhau'n well bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn brydlon, gan ddefnyddio gwybodaeth briodol, a bod y bobl iawn wedi cael eu cynnwys i sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud y tro cyntaf.

Mae gan y sefydliad gryn ffordd i fynd cyn y gellir ystyried ei fod yn effeithiol iawn. Mae'n hanfodol gosod sylfeini ar gyfer effeithiolrwydd sefydliadol, eu gwreiddio a'u gwerthuso. Mae'r rhain yn cynnwys y ffordd y mae'r Bwrdd yn arwain, yn goruchwyllo perfformiad ac yn creu diwylliant tosturiol. Mae'r Amcan Strategol hwn yn cynnwys deg elfen allweddol, a rhoddir cryn bwyslais ar alluogi dull gweithredu a disgwyliad clir mewn perthynas â phob elfen; gwaith dwys i wreiddio safonau uchel o ymarfer, a rhoi mecanweithiau gwerthuso a sicrwydd ar waith i fonitro cynnydd.

Crynodeb

Amcan 1: Creu sefydliad effeithiol		Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol	Fframwaith Mesurau Arbennig
1A	Effeithiolrwydd y Bwrdd		✓
1B	Rheoli Risg	✓	✓
1C	Model Gweithredu		✓
1D	Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd	✓	✓
1E	Gwerth a Chynaliadwyedd	✓	✓
1F	Gwelliannau Deddfwriaethol		✓
1G	Cynllunio'r Gweithlu	✓	✓
1H	System Rheoli Ansawdd	✓	✓
1I	Y Gymraeg	✓	
1J	Datgarboneiddio	✓	

1A: Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i ailsefydlu ac ailosod y Bwrdd yn dilyn newidiadau sylweddol yn yr aelodaeth ddechrau 2023. Er bod llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud, mae angen gwneud rhagor o waith i geisio cael Bwrdd sefydledig, sefydlog a hynod effeithiol ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo. Mae nifer o Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd wedi ymuno'n ddiweddar ac rydym wrthi'n recriwtio i nifer o rolau Aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Mae recriwtio Aelodau Annibynnol y Bwrdd yn llawn yn golygu bod modd ailsefydlu gweddill pwyllgorau'r Bwrdd a bydd y rhain yn parhau i esblygu yn ystod 2024-25.

Cafodd yr Adroddiad Dilynol ar Effeithiolrwydd y Bwrdd ei ryddhau ym mis Chwefror 2024. Roedd yn tynnu sylw at gynnydd sylweddol yn ystod 2023 gan nodi bod mwy i'w wneud. Roedd yr adroddiad archwilio yn darparu argymhellion pellach sydd wedi cyfrannu at y gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio yma.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod 2023 yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth o fewn fframwaith Mesurau Arbennig BIPBC.

Blaenoriaethau

Yn ystod 2024-25, bydd y Bwrdd lechyd yn gwneud y canlynol

- Cwblhau'r broses o recriwtio aelodau Gweithredol y bwrdd yn barhaol.
- Bwrw ymlaen â Rhaglen Ddatblygu'r Bwrdd, gan gefnogi Bwrdd sydd wedi'i benodi'n barhaol.
- Cwblhau'r gwaith o ailsefydlu nifer lawn o bwyllgorau'r Bwrdd.
- Adolygu'r dull o ymdrin â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Fframwaith Rheoli Risg, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a benodwyd yn ddiweddar.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Mae Bwrdd effeithiol ac effeithlon yn hanfodol er mwyn llywio'r sefydliad yn y ffordd orau drwy'r heriau o ran perfformiad a gwneud penderfyniadau sydd wedi arwain at uwchgyfeirio'r sefydliad i Fesurau Arbennig.

1B: Rheoli Risg

Mae Cofrestr Risgiau gorfforaethol y Bwrdd Iechyd yn darparu goruchwyliaeth i sicrhau bod unrhyw risg i amcanion strategol y Bwrdd Iechyd yn cael ei rheoli'n effeithiol. Mae fersiwn ddiwygiedig o 'Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd' wedi'i sefydlu erbyn hyn. Mae'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd am y rheolaethau a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer risgiau uchel sy'n ymwneud ag unrhyw bosibilrwydd o beidio â chyflawni amcanion allweddol. Cydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith i symleiddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac i'w wreiddio'n llawn.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Dros y 3 blynedd nesaf, mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno bwrw ymlaen â'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma i ddatblygu ac yna gwreiddio'n llawn fframwaith rheoli risg integredig sy'n gwella diogelwch cleifion, ansawdd gofal, a chadernid gweithredol ar draws pob lefel o'r sefydliad. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gysoni meysydd risg â'r mecanweithiau goruchwyllo mewnol sydd eisoes wedi'u sefydlu.

Bydd gwneud hyn yn golygu bod modd gweld yn gliriach i lywodraethu, gan gysylltu'r archwaeth am risg a'r mecanweithiau sicrwydd sydd gan y Bwrdd Iechyd â thimau cyflawni gweithredol ar draws y sefydliad.

Blaenoriaethau

- Cysoni Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd â'r archwaeth am risg, y cynllun tair blynedd hwn, ac amcanion strategol y Bwrdd Iechyd sy'n dod i'r amlwg.
- Datblygu dangosfwrdd rheoli risg i wella dulliau triongli gyda chynllunio a pherfformiad yn ogystal â chyfarwyddiaethau eraill.

Gan symud i flynyddoedd 2 a 3 bydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud y canlynol

- Gwreiddio dulliau triongli rheoli risg ymhellach gyda chynllunio a pherfformiad yn ogystal â chyfarwyddiaethau eraill.
- Parhau i wella'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol tuag at lefel y gellir ei goddef.
- Adolygu a diweddarau cynlluniau parhad busnes rheoli risg.
- Profi aeddfedrwydd rheoli risg yn gyson yn erbyn meincnodau sefydledig.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd proses Rheoli Risg effeithiol yn gostwng nifer y risgiau sy'n hwyr ac mewn fersiwn ddrafft i lefel y gellir ei goddef. Fel rhywbeth sy'n cyfrannu at broses sicrhau ansawdd y Bwrdd Iechyd, mae gan hyn gysylltiadau uniongyrchol â gwell gofal a phrofiad cleifion.

1C: Model Gweithredu

Dim ond yn rhannol y mae'r model gweithredu y cytunwyd arno yn 2022 wedi cael ei roi ar waith. Yn y cyfamser, daeth yn amlwg nad yw elfennau o'r model hwn yn gweithio cystal â'r hyn a ragwelwyd. Yn benodol, nid yw'r trefniant presennol yn cynnwys y gallu i ymaddasu fel sefydliad mawr er mwyn darparu gwasanaethau gwell ar gyfer yr amgylchiadau hynny lle mae lefel y gweithgarwch yn isel, a lle byddai darparu dull 'unwaith i Ogledd Cymru' neu 'ddwywaith i Ogledd Cymru' yn fwy diogel ac yn arwain at ganlyniadau gwell. Mae hon yn her ledled y DU ac yn un lle gallai'r Bwrdd Iechyd wneud gwell cyfle o'i faint. Ymysg heriau eraill gyda'r model presennol mae llywodraethu penderfyniadau a dyblygu arweinyddiaeth, sydd gyda'i gilydd yn llesteirio'r gallu i wneud penderfyniadau amserol.

Mae cysylltiad cryf rhwng y flaenoriaeth allweddol hon a gwaith datblygu sefydliadol ychwanegol a amlinellir yn 3A: *Arweinyddiaeth Dosturiol a Datblygu Sefydliadol*.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Er mwyn i'r sefydliad fod yn effeithiol, mae angen Model Gweithredu (Strwythurau) fel bod y gwaith o arwain a rheoli gwasanaethau a gwella o ddydd i ddydd yn gallu digwydd yn systematig, gan gynnwys dulliau darparu gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn galluogi cynaliadwyedd yn y tymor hir.

Ar ben hynny, mae tystiolaeth ryngwladol yn adrodd yn gyson am bwysigrwydd cael model gweithredu sydd wedi'i lunio i gyflawni strategaeth y Bwrdd Iechyd yn effeithiol a bod sefydliadau sydd heb yr eglurder hwnnw yn aml yn methu â sicrhau gwelliannau.

Bydd gwella effeithiolrwydd model gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod darpariaeth weithredol yn cyd-fynd yn well â gofynion strategol. Bydd hefyd yn gwella effeithlonrwydd gweinyddol sy'n flaenoriaeth Gweinidogol ar gyfer 2024-25.

Blaenoriaethau

Yn ystod 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud y canlynol:

- Cwblhau'r archwiliad ehangach o'r Model Gweithredu, gan ddefnyddio gwaith Archwilio Mewnol, adborth gan randdeiliaid/cydweithwyr allanol, ac adborth gan gydweithwyr yn fewnol i ddeall buddion a phroblemau.
- Asesu'r model Partneriaethau Busnes ar draws y sefydliad, gan lunio cynigion ar gyfer adolygu lle bo angen.
- Datblygu cynigion ar gyfer unrhyw adolygu i'r model gweithredu presennol, gan ystyried agwedd ofalus tuag at newid cefnogol.
- Adolygu a diwygio'r model arweinyddiaeth glinigol yn y sefydliad lle bo angen, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r Adolygiad Cyflym o Ymgysylltu (Clinigol), i feithrin dull arweinyddiaeth glinigol ac ymgysylltu cryfach.
- Canfod cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon drwy ddefnyddio offer digidol, ee Microsoft Office 365.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd penderfyniadau yn y Bwrdd Iechyd yn digwydd yn fwy ystwyth, gyda mwy o atebolrwydd, ac yn mynd ar drywydd nodau strategol y Bwrdd Iechyd (sy'n seiliedig ar ganlyniadau iechyd gwell). Felly, bydd eglurder egwyddorion y model gweithredu yn cyfrannu at sicrhau canlyniadau iechyd gwell i'r Bwrdd Iechyd.

1D: Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo Fframwaith Perfformiad Integredig yn ystod 2023-24, i ategu'r gwaith o wella dulliau monitro perfformiad ac arweinyddiaeth perfformiad. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau pwysig ymlaen yn ystod 2023-24 yn hyn o beth, cydnabyddir bod angen rhagor o ddatblygu yn ein gwaith goruchwylio perfformiad, gan wella ein rhagamcanion perfformiad ac ymyrryd yn gynnar pan na fyddant ar y trywydd er mwyn lleihau'r effaith niweidiol.

Ochr yn ochr â hynny, mae'r defnydd o fonitro perfformiad ac amcanion perfformiad clir sydd wedi'u gwreiddio yng nghynllun 2024-27 yn darparu'r sylfaen ar gyfer model atebolrwydd mwy cadarn ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno tynhau'r model atebolrwydd sy'n cael ei ddefnyddio yn y sefydliad i weld yn gliriach sut i droi'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd yn amcanion tîm ac yn amcanion unigol. Bydd hyn yn canolbwyntio perfformiad yn y meysydd hynny lle mae angen y gwelliant mwyaf, a bydd yn helpu i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn cyd-fynd â'r trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt.

Blaenoriaethau

Yn ystod 2024-25,

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu'r Fframwaith Perfformiad Integredig yn llawn, gan wella gallu'r sefydliad, ac unigolion, i reoli perfformiad.
- Bydd amcanion uwch arweinwyr, a'r Gyfarwyddiaeth/Tîm Gwasanaeth, yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 fel y nodir yng Nghynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-27.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn ailgynllunio'r dull adrodd drwy'r Tîm Gweithredol, i Bwyllgorau'r Bwrdd ac i'r Bwrdd er mwyn galluogi gonestrwydd, tryloywder, hygyrchedd, dadansoddi a chanolbwyntio ar wella.

Yn ystod 2025-27,

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn aeddfedu rhagor ar y gwaith o gysoni amcanion â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd i staff eraill yn y sefydliad drwy ddefnyddio arfarniadau'n effeithiol, a gwreiddio'r Fframwaith Perfformiad Integredig yn llawn.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro effeithiolrwydd y Fframwaith Perfformiad Integredig, gan wneud diwygiadau lle bo angen i adlewyrchu'r hyn a ddysgir a sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â strwythur llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd a newidiadau i'r Model Gweithredu.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Mae'r Fframwaith yn helpu i wella perfformiad drwy ddull partneriaeth o fod yn agored ac yn arloesol, a thrwy feithrin ymrwymiad i wella ar bob lefel o'r sefydliad.

Bydd y gwaith o gyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol allweddol, disgwyliadau mesurau arbennig ac yn erbyn metrigau ariannol a gweithgarwch yn cael ei wella.

Bydd cyflawni'n llwyddiannus yn arwain at ganlyniadau gwell i gleifion a staff y Bwrdd Iechyd, ac yn sicrhau bod pawb dan sylw yn deall eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd.

1E: Gwerth a Chynaliadwyedd

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mabwysiadu egwyddorion 'Gofal Seiliedig ar Werth' yn y blynyddoedd diwethaf, mae cydnabyddiaeth ac uchelgais lleol i fynd â hyn ymhellach.

Ochr yn ochr â'r uchelgais lleol hwn, mae gofyniad yn y canllawiau Fframwaith Cynllunio cenedlaethol i sicrhau cyfraniad llawn at waith a wneir gan y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol, ac elwa ohono.

Gofal Iechyd Parhaus a
Gofal Nyrsio a Ariennir

Amrywiad clinigol a threfnu
gwasanaethau

Rheoli meddyginaethau

Y gweithlu

Caffael

Mae'r gwaith cenedlaethol hwn yn cwmpasu pum ffrwd waith: gofal iechyd parhaus a gofal nyrsio a ariennir, amrywiad clinigol a threfnu gwasanaethau, rheoli meddyginaethau, y gweithlu a chaffael.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y cyfle a ddaw drwy gyd-fynd â hyn, a bydd yn adlewyrchu hyn yn null y sefydliad o ymdrin â Gwerth a Chynaliadwyedd er mwyn cefnogi'r effaith fwyaf bosibl.

O fewn hyn, mae disgwyliad Gweinidogol y bydd ystyriaethau Gwerth a Chynaliadwyedd yn

- lleihau'r ddibyniaeth ar asiantaethau drud,
- sicrhau bod trefniadau 'Unwaith i Gymru' ar gyfer galluogwyr y gweithlu yn cael eu cryfhau,
- manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gweithio rhanbarthol,
- bod Bwrddau Iechyd yn helpu i ailddosbarthu adnoddau tuag at ofal cymunedol a gofal sylfaenol,
- bod amrywiadau diangen ac ymyriadau isel eu gwerth yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw, a
- bod effeithlonrwydd gweinyddol yn cael ei wella.

Caiff y disgwyliadau hyn eu cynnwys yn ein goruchwyliaeth o'r flaenoriaeth Gwerth a Chynaliadwyedd hon ac maent hefyd yn cael eu hadlewyrchu mewn croes-gysylltiadau drwy'r Cynllun hwn.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod defnyddio egwyddorion 'gwerth' wrth wneud penderfyniadau yn cyfrannu at fwy o gynaliadwyedd a gwell canlyniadau clinigol. Ar ben hynny, mae mabwysiadu argymhellion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol yn ofyniad cynllunio cenedlaethol allweddol yn 2024/25 ac yn un y mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno elwa'n llawn ohono.

Blaenoriaethau

- Cytuno ar ddull gweithredu wedi'i raglennu yn y Bwrdd Iechyd i oruchwyllo Gofal Seiliedig ar Werth yn ystod 2024/25, gan sicrhau bod hyn yn cael ei drefnu i ymgorffori'n llawn yr hyn a ddysgwyd gan y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol.
- Parhau i ymgorffori egwyddorion *Gofal Seiliedig ar Werth* ym mhob penderfyniad a wneir ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Nodi rhaglen waith glir a blaengar ar gyfer Gofal Seiliedig ar Werth yn y Bwrdd Iechyd.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Mae gwella gwerth a chynaliadwyedd gwasanaethau yn golygu y bydd yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd yn mynd ymhellach er mwyn darparu mwy o ofal i drigolion Gogledd Cymru.

1F: Gwelliannau Deddfwriaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd parhau i wneud gwelliannau o ran deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chydymffurfio â deddfwriaeth Argyfyngau Sifil Posibl.

Un ffordd allweddol o leihau, cyn belled ag y bo modd, anafiadau yn y gweithle, salwch ac arferion gwaith anniogel yw rhoi sylw mawr i'r arferion gorau ym maes Iechyd a Diogelwch. Mae hyn yn ymwneud â staff, cleifion, ymwelwyr, gwirfoddolwyr a chontractwyr. Mae dwy flynedd wedi mynd o gynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd sy'n seiliedig ar fethodoleg proses HSG65 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), sef Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu, ond mae angen gwneud rhagor o waith, gan gynnwys asesu risgiau a sicrhau dysgu cyflym pan fydd problemau'n codi.

Mae deddfwriaeth Argyfyngau Sifil Posibl yn ymwneud â Pharodrwydd a Chynllunio ar gyfer Argyfyngau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno gwneud gwelliannau ar sail yr hyn a ddysgwyd o bandemig Covid-19 er mwyn sicrhau bod y parodrwydd ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol yn gadarn ac yn briodol.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Cafodd y Bwrdd Iechyd ei erlyn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2023 ynghylch methiant i reoli manau angori deunyddiau clymu.

Mae dysgu o Covid-19 yn rhoi cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd adnewyddu'r gwaith o baratoi a goruchwylio ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl. Ar ben hynny, mae'r amgylchedd heriol ar ôl Covid-19 wedi golygu bod angen i'r Bwrdd Iechyd rhoi Trefniadau Parhad Busnes ar waith dros y misoedd diwethaf. Mae'n bwysig manteisio i'r eithaf ar drefniadau Argyfyngau Sifil Posibl fel mater o flaenoriaeth.

Blaenoriaethau

- Cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o'r bylchau sy'n sail i ddull gweithredu clir Cynllun Gwella Iechyd a Diogelwch.
- Adolygu'r rhaglen hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ar draws y Bwrdd Iechyd, ac ymgysylltu â rheolwyr i alluogi'r lefel briodol o gymorth i wella arferion Iechyd a diogelwch, gan gynnwys y cwrs Rheoli'n Ddiogel a'r cwrs Arwain yn Ddiogel i Swyddogion Gweithredol ac uwch reolwyr.
- Adolygu pa mor effeithiol yw ymweliadau cymorth cylchdro gan ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch i ardaloedd unigol ar draws y Bwrdd Iechyd, gan adolygu dulliau gweithredu lle bo angen.
- Datblygu systemau sy'n canfod, cofnodi a darparu cymorth â ffocws ac wedi'i uwchgyfeirio i feysydd sydd angen y gwelliant mwyaf.
- Penodi Pennaeth Argyfyngau Sifil Posibl parhaol, a datblygu dull tîm ar draws y sefydliad i fwrw ymlaen â blaenoriaethau argyfyngau sifil.

- Adolygu Cynlluniau Parhad Busnes a threfniadau ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Adolygu Cynlluniau Argyfwng ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Ystyried unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o wrandawiadau tystiolaeth ymchwiliad Covid-19 y DU a allai wella ein paratodau ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl drwy fynd i'r afael cyn derbyn argymhellion ffurfiol.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd glynw'n gadarn wrth ddeddfwriaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl yn lleihau'r risg o niwed y gellir ei osgoi ac yn gwella effeithiolrwydd a hyder cyffredinol y sefydliad.


1G: Cynllunio'r Gweithlu

Fel sefydliadau eraill y GIG, mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael ag amgylchiadau anodd o ran cynllunio'r gweithlu. Felly, er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cynllunio'r gweithlu dros y blynyddoedd diwethaf, mae datblygiad parhaus yn rhywbeth angenrheidiol ac yn flaenoriaeth.

Yr egwyddorion sylfaenol yw creu cynlluniau gweithlu sy'n galluogi'r gwasanaethau i recriwtio'r 'bobl gywir' sydd â'r 'sgiliau cywir' i ddarparu gwasanaethau yn y 'lle cywir'.

Mae'r gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru yn 2023 yn dangos yr heriau sy'n bodoli o ran y gweithlu ar hyn o bryd¹³:

Ledled Cymru, mae tua 6,800 o swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn, gydag oddeutu 2,500 ohonynt yn swyddi nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig, ac mae tua 1,500 yn swyddi meddygol a deintyddol gwag.




Ffynhonnell: Archwilio Cymru, 2023

Nifer y Meddygon (cyfrif pennau) am bob 1,000 o'r boblogaeth, yn ôl gwlad, Ionawr 2023



Ffynhonnell: Archwilio Cymru, 2023

Nifer y deintyddion a gofrestrwyd i bractis (am bob 100,000 o'r boblogaeth), yn ôl gwlad, 2021-22



Ni cheir llwyddiant wrth ganolbwyntio ar geisio recriwtio gweithwyr proffesiynol tebyg i lenwi swyddi gwag, ac mae angen amrywiaeth o ddulliau ategol i gyrraedd cydbwysedd boddhaol yn y gweithlu. Mae hyn yn cynnwys

- Yr angen i adolygu ein strwythurau i sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud popeth sy'n rhesymol bosibl i ddal gafael ar staff a meithrin sgiliau o'r tu mewn.

¹³ https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/NHS_Workforce_data_briefing_English_Webvrs.pdf

- Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'i weithlu, gan gydnabod nad yw cynhyrchiant, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bob amser wedi gwella drwy gael mwy o staff.
- Sicrhau ein bod yn blaenoriaethu gwaith cynllunio'r gweithlu a newid capasiti'r gweithlu gan ganolbwyntio ar y meysydd lle mae'r angen mwyaf a'r mwyaf o werth i'r gwasanaeth.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o heriau o ran y gweithlu, yn enwedig (ond nid yn unig) mewn amgylcheddau clinigol. Bydd datblygu ein dulliau cynllunio gweithlu ymhellach yn gyflym yn lleihau nifer y swyddi gwag hanfodol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu, ac yn bwysig, yn dechrau meithrin gweithlu mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae cyfleoedd i ddatblygu rolau newydd a ffyrdd newydd o weithio, gan fanteisio ar raglenni trawsnewid lleol a chenedlaethol.

Mae llawer o wasanaethau'n gofyn am newidiadau cymhleth i'r cymysgedd sgiliau sy'n cymryd nifer o flynyddoedd i'w cynllunio, gyda hyfforddiant clinigol weithiau'n gofyn am sawl blwyddyn i'w gwblhau. Felly, mae'n bwysig blaenoriaethu'r gwaith hwn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau presennol a lleihau unrhyw oedi wrth wneud newidiadau ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal â recriwtio staff newydd, mae'r ffocws yn parhau ar gefnogi ein gweithlu gwerthfawr, a galluogi cyfleoedd iddynt gyflawni eu potensial llawn.

Blaenoriaethau

Bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Bydd 'Dull o Gynllunio'r Gweithlu' sefydliadol yn cael ei ddylunio, gan adeiladu ar ddull gweithredu 6 cham AaGIC sydd eisoes wedi'i sefydlu. Bydd y bwrdd iechyd yn asesu gwasanaethau'n systematig yn erbyn y dull o gynllunio'r gweithlu, gan ddechrau gyda gwasanaethau lle mae 'heriau'. Bydd pob gwasanaeth sydd â 'heriau' yn cael cynllun y cytunir arno ar gyfer y gweithlu.
- Caiff gwaith partneriaethol penodol gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC) ei gryfhau i ganolbwyntio ar wasanaethau allweddol sydd â 'heriau' er mwyn canfod a meithrin dulliau strategol.
- Parhau i ganfod cyfleoedd i ail-ddylunio cymysgedd sgiliau arloesol wrth fynd i'r afael â swyddi gwag y mae'n anodd recriwtio iddynt.
- Parhau i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi lleol drwy ddulliau Academi Gofal Sylfaenol ac Academi Ddeintyddol a fabwysiadwyd yng Ngogledd Cymru.
- Cefnogi Prifysgol Bangor i sicrhau bod profiadau myfyrwyr yn Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn uchel, gan annog graddedigion i aros yng Ngogledd Cymru ar ôl cymhwyso.

- Cefnogi'r holl bartneriaid academiaidd i sicrhau bod profiadau myfyrwyr ar draws yr holl grwpiau proffesiynol yn dda, gan annog graddedigion o bob rhan o'r sectorau gofal iechyd i aros yng Ngogledd Cymru ar ôl cymhwyso.
- Cefnogi mentrau newydd a pharhaus i symleiddio prosesau recriwtio cenedlaethol a rhyngwladol.
- Parhau i weithio gyda darparwyr addysg lleol mewn Addysg Bellach ac Uwch i gefnogi mentrau 'Tyfu ein Modelau' sy'n sicrhau bod cyfleoedd datblygu ar gael ar gyfer dilyniant staff, ac ar gyfer eraill ledled Gogledd Cymru, gan helpu i gyflenwi gweithlu'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- Parhau i gefnogi gweithio hyblyg ac ailgynllunio gwasanaethau er mwyn sefydlogi'r gweithlu presennol drwy wneud y gorau o'r ffordd rydym yn gweithio ar draws gwasanaethau ac ardaloedd.
- Parhau i leihau'r defnydd o asiantaethau, gan adolygu trefniadau cyfnodau penodol a threfniadau locwm i ddarparu gweithlu mwy cynaliadwy. Parhau i ganolbwyntio ar gynnal y gwelliannau mewn trosiant staff nyrsio a bydwreigiaeth a welwyd yn 2023-24.
- Sicrhau bod galluogwyr, fel digidol, yn parhau i gael eu hystyried mewn perthynas â'r gwelliannau y maent yn eu cynnig ar gyfer cymysgedd sgiliau'r gweithlu, recriwtio a chadw staff, yn ogystal â'r gwelliannau a gynigir i ansawdd gwasanaethau.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd datblygu sgiliau pellach wrth gynllunio'r gweithlu yn lleihau nifer y bylchau sylweddol yng ngweithlu'r Bwrdd Iechyd drwy ganiatáu dull gweithredu wedi'i flaenoriaethu ar gyfer y swyddi gwag presennol, datblygu modelau gofal yn y dyfodol, a lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth drud sy'n aml ar gael yn anghyson.

Bydd y newidiadau hyn yn gwella profiad cleifion yn ystod y flwyddyn, a byddant yn sicrhau bod y newidiadau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu gwneud yn fwy tebygol o lwyddo a sicrhau'r canlyniadau gorau.

1H: System Rheoli Ansawdd

Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym yn 2023, gan roi cyfrifoldeb cyfreithiol ar sefydliadau yn GIG Cymru i weithio i wella safon gwasanaethau. Fodd bynnag, mae ansawdd yn fwy na dim ond bodloni

safonau gwasanaeth; er mwyn bod yn llwyddiannus, bydd angen ffordd system gyfan o weithio i reoli ansawdd er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gwasanaethu, a hynny'n barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy. Er mwyn gwneud hyn yn dda, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae ystyriaethau Ansawdd yn rhan annatod o systemau rheoli a gwneud penderfyniadau.

Mae diwylliant o onestrwydd, dysgu a gwella parhaus yn hanfodol i geisio cael System Rheoli Ansawdd effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd



yn cydnabod bod angen gwaith sylweddol o hyd i feithrin y diwylliant hwn ac i staff fod yn hyderus y byddant yn cael cefnogaeth. Am y rheswm hwn, mae gwaith i wreiddio diwylliannau priodol wedi cael ei flaenoriaethu yn Amcan 3 ar arweinyddiaeth dosturiol a datblygu sefydliadol, ar ymgysylltu, ac ar wella gwaith mewn partneriaeth, ac o fewn Amcan 5 gan sicrhau ein bod yn dysgu o bob cyfle.

Mae system rheoli ansawdd effeithiol yn golygu llawer mwy na Gwella Ansawdd. Yn hytrach, mae'n dwyn ynghyd yr elfennau rhyngberthynol o gynllunio ansawdd, gwella ansawdd, rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd i greu system ansawdd sy'n cwmpasu popeth sy'n cael ei wneud yn y sefydliad. Er mwyn llwyddo, mae angen i'r elfennau hyn, a ategir gan ethos o ddysgu parhaus, weithio gyda'i gilydd yn ddi-dor a chael eu gwreiddio yn y broses o wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn y Bwrdd Iechyd.

Pwrpas y flaenoriaeth allweddol hon yw ymgymryd â gwaith i ymgorffori'r egwyddorion hyn yn ddyfnach yn systemau a phrosesau'r Bwrdd Iechyd.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd, gan weithio gyda staff i archwilio'r ffordd orau o weithredu System Rheoli Ansawdd gadarn i gefnogi a sicrhau penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar ansawdd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno parhau i ddefnyddio arbenigedd a chefnogaeth a ddarperir gan Gwelliant Cymru a'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd *Gwelliant wrth ddatblygu'r gwaith hwn*.

Blaenoriaethau

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd i lywio dyluniad y System Rheoli Ansawdd ac i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd gan sefydliadau eraill.
- Yn ystod 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn cwblhau'r gwaith o ailddylunio System Rheoli Ansawdd briodol ar gyfer ei defnyddio ar draws y sefydliad.
- Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Bwrdd Iechyd yn cymhwyso'r System Rheoli Ansawdd i fentrau gwella ansawdd sy'n ymddangos, fel eu bod yn dilyn ethos System Rheoli Ansawdd system gyfan, a hefyd yn dysgu fel bod y broses gyffredinol o gyflwyno'r System Rheoli Ansawdd yn llwyddiannus.

Yn ystod 2025-27, bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn monitro'n barhaus effaith y System Rheoli Ansawdd gan ei rhoi ar waith fel y bo'n briodol i sicrhau ei bod yn cyflawni'r amcanion a nodir yn y Ddyletswydd Ansawdd.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd diwygio dull y Bwrdd Iechyd o ymdrin ag ansawdd mewn ffordd mor systematig a chadarn yn arwain at lefel well o ddibynadwyedd, gwelliannau o ran cynaliadwyedd, gwell profiad a gwell canlyniadau clinigol.

11: Y Gymraeg

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu o fewn fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y Gymraeg, ar ffurf cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithredu yn unol â Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg yn y sector Iechyd a Gofal, sef 'Mwy na geiriau'.

Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol i sicrhau darpariaeth gwasanaethau Cymraeg i gleifion, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg i staff. Fel cyflogwr mawr, gall y Bwrdd Iechyd wneud cyfraniad sylweddol tuag at gynnal yr iaith o fewn y sefydliad ac ar draws Gogledd Cymru.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae darparu gwasanaethau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn eu dewis iaith yn ffactor allweddol wrth ddarparu gofal o ansawdd da, ac mae'n arbennig o bwysig i'n cleifion sy'n fwy agored i niwed, ac i'w teuluoedd.

Blaenoriaethau

Yn ystod 24/25, bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar:

- Sefydlu dull cyson o gyflawni Safonau'r Gymraeg, drwy fabwysiadu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer meysydd cydymffurfio penodol.
- Cysoni targedau tymor byr a thymor canolig a sefydlwyd o fewn 'Mwy na geiriau' gyda rhaglen waith Safonau'r Gymraeg, er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio'r ddarpariaeth ar gyfer meysydd a grwpiau penodol.
- Rhoi gwybod i weithlu'r dyfodol am y cyfleoedd y gall sgiliau Cymraeg eu darparu o ran gyrfaedd ym maes gofal iechyd.
- Ymgorffori Cytundeb Lefel Gwasanaeth ychwanegol yn y galw mewnol am gyfieithu, a fydd yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn manteisio i'r eithaf ar ei botensial a'i arbenigedd, gan ddarparu gwasanaeth cyfieithu i ddau sefydliad yn y sector iechyd yng Nghymru.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn yn sicrhau bod anghenion iaith Gymraeg cleifion, y cyhoedd a'r staff yn cael eu diwallu a bod gweithlu'r Bwrdd Iechyd yn gallu datblygu eu sgiliau iaith yn y gweithle.

1J: Datgarboneiddio

Ym mis Ebrill 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru *Gynllun Datblygu Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-2030*, sef cynllun i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a gyhoeddodd yn 2019¹⁴. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu datgarboneiddio pum mlynedd 2022-2026 gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Garbon. Mae'r cynllun yn ystyried ein hadeiladau a'n hynni, caffael, trafndiaeth, teithio, gofal iechyd a rheoli carbon corfforaethol. Mae 104 o gamau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Datgarboneiddio'r Bwrdd Iechyd, a dros 70 o gamau gweithredu yng Nghynllun Strategol Cymru.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae Cynllun Datblygu Datgarboneiddio (DAP) y Bwrdd Iechyd yn ymateb i uchelgais Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus fod yn sero net mewn allyriadau carbon erbyn 2030. Cyfraniad GIG Cymru at y targed carbon sero net yw lleihau carbon 16% erbyn 2025 a 34% erbyn 2030.

Disgwylir i gyllid buddsoddi cyfalaf fod yn heriol yn y blynyddoedd i ddod, ac felly mae'n bwysig cael dull wedi'i flaenoriaethu sy'n gweld cynnydd bob blwyddyn.

Blaenoriaethau


Bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Gosod goleuadau LED yn lle'r holl oleuadau presennol erbyn 2025.
- Paratoi i fod yn gallu datblygu'r gwaith o gynhyrchu gwres carbon isel ar gyfer safleoedd nad ydynt yn rhai aciwt sy'n fwy na 1,000m² erbyn 2030.
- Sicrhau bod yr holl gerbydau cludo nwyddau mawr a chanolig newydd sy'n cael eu caffael ar ôl mis Ebrill 2025 yn bodloni safon fodern cerbydau allyriadau isel iawn yn eu dosbarth yn y dyfodol.
- Parhau i ddadlau dros ddatrysiadau digidol sy'n cynnig y posibilrwydd o ddefnyddio llai o bapur, yn ogystal â'r cyfleoedd diogelwch cleifion y gall datrysiadau digidol eu darparu.
- Parhau i gefnogi ein gweithlu i ganfod cyfleoedd datgarboneiddio eraill i'w mabwysiadu'n ehangach.
- Gosod cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar safleoedd lle bo hynny'n ymarferol.
- Datblygu'r broses o gaffael trydan sy'n cael ei ategu 100% gan REGO.
- Ystyried yr effaith o ran carbon wrth gaffael gwasanaethau, gan sicrhau adnoddau'n lleol lle bo hynny'n bosibl.

¹⁴ <https://www.gov.wales/nhs-wales-decarbonisation-strategic-delivery-plan>

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Gwelliannau cyson yn allyriadau carbon y Bwrdd Iechyd Drwy Gydol 2024-27.



Datblygu strategaeth a newid hirdymor

2: Datblygu strategaeth a newid hirdymor

1

3

4

5

Mae'r Bwrdd Iechyd yn glir fod modd, drwy ddatblygu strategaeth glir, wedi'i gwreiddio mewn mynd i'r afael ag amcanion clir sy'n seiliedig ar anghenion y boblogaeth, flaenoriaethu newid hirdymor ac yna ei gyflawni, gan arwain at wasanaethau sy'n bodloni gofynion ein cyhoedd orau ac sy'n gynaliadwy ac o ansawdd da.


Mae Amcan 2 yn tynnu ar ddymuniad y Bwrdd Iechyd i fod yn gliriach am hyn ac i ddatblygu strategaeth a newid hirdymor mewn ffordd strwythuredig, gynhwysol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Crynodeb

Amcan 2: Datblygu strategaeth a newid hirdymor		Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol	Fframwaith Mesurau Arbennig
2A	Strategaeth 10 mlynedd	✓	✓
2B	Cynllun Gwasanaethau Clinigol	✓	✓
2C	Comisiynu	✓	✓
2D	Blaenoriaethau Cyfalaf: helpu newid i ddigwydd	✓	✓
2E	Digidol, Data a Thechnoleg (DDaTh)	✓	✓
2F	Blaenoriaethu	✓	✓
2G	Cyflawni Newid Mawr yn Effeithiol	✓	✓
2H	Cryfhau'r Gwaith Cynllunio	✓	✓
2I	Amgylchedd Llywodraethu Cyllid	✓	✓
2J	Canfod a chefnogi Gwasanaethau â Heriau yn gynnar	✓	✓

2A: Strategaeth 10 mlynedd

Mae gan y Bwrdd lechyd strategaeth 'Byw'n lach, Aros yn lach' ond mae'r arsylwadau'n dangos nad yw'n rhoi digon o gyfeiriad i'r Bwrdd lechyd gynllunio o'i gwmpas yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n bwysig bod y Bwrdd lechyd yn mynd i'r afael â hyn er mwyn llunio cyfeiriad a blaenoriaethu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer anghenion poblogaeth Gogledd Cymru nawr ac yn y dyfodol.



Ffigur 3: The need for Strategic Alignment. Trevor & Varcoe, atgynhychwyd o Harvard Business Review

cefnogir y gweithgarwch hwn gan y gwaith a nodir yn Amcan 3 yn ddiweddarach. Bydd y gwaith hwnnw'n sail i'n dull o gael sgysiau parhaus sy'n ystyrlon a sut rydym yn ymgorffori'r cysyniad o 'strategaeth agored' sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cynnwys yr holl syniadau a safbwyntiau, yn y gwaith hwn¹⁵.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Ar hyn o bryd, nid yw'r Bwrdd lechyd yn gallu gweithredu o fewn y gyllideb i'r safonau disgwylidig. Er bod ein staff wedi cynyddu, nid yw'r allbwn a'r canlyniadau wedi cynyddu i'r un graddau ac mae'r Bwrdd lechyd yn rhoi sylw ac yn cynyddu adnoddau i gynnal gwasanaethau nad ydynt, mewn rhai achosion, yn hyfyw yn eu ffurf bresennol. Er bod hyn yn effeithio ar gynhyrchiant ar hyn o bryd, bydd yr effaith yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod os na fydd ad-drefnu'n digwydd, oherwydd demograffeg newidiol y boblogaeth, datblygiadau mewn gofal iechyd a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar sut rydym yn hyfforddi, recriwtio a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd lechyd yn dymuno mynd i'r afael yn gadarn â hyn a phontio'r bwlch rhwng anghenion y boblogaeth a sut mae ein gwasanaethau'n cael eu blaenoriaethu a'u darparu. Mae rhan gyntaf y daith hon yn cynnwys ailsefydlu eglurder pwrpas, y cytunwyd arno drwy sgysiau gonest ac ystyrlon gyda phoblogaeth Gogledd Cymru. Yn ei dro, bydd cynllun deng mlynedd clir yn sail i greu cynllun gwasanaethau clinigol ar gyfer y blynyddoedd nesaf, a bydd yn nodi'r meysydd lle bydd angen blaenoriaethu newid. Trafodir y gweithgareddau rhyng-gysylltiedig hyn yn ddiweddarach yn yr adran Amcan 2 hon.

¹⁵ Open Strategy (2021); Stadler, Hautz, Matzler, Friedrich von den Eichen. Massachusetts Institute of Technology Press.

Blaenoriaethau

Bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Adnewyddu asesiadau llesiant y Bwrdd Iechyd ar y cyd.
- Sefydlu dull gweithredu systematig, gan ddechrau gydag anghenion iechyd a nodwyd, coladu tystiolaeth, egwyddorion dylunio, a grwpiau cyfeirio dinasyddion a chlinigol.
- Cytuno'n gydweithredol ar 'Egwyddorion Dylunio' strategol y Bwrdd Iechyd
- Cytuno ar amserlen o sgysiau am 'beth sy'n bwysig', sy'n canolbwyntio ar yr hyn a nodwyd uchod, a dealltwriaeth o ddatblygiadau gwasanaeth llwyddiannus a wnaed mewn manau eraill sydd wedi helpu i fynd i'r afael â materion tebyg.
- Cynnal sgysiau fel y trefnir, gan esblygu'r sgysiau'n barhaus ar sail yr hyn a glywyd mewn digwyddiadau cynharach.
- Coladu crynodeb lefel uchel o'r canfyddiadau, a dechrau nodi'r cyfleoedd strategol allweddol i'w profi gyda rhanddeiliaid.

Gan symud i flynyddoedd 2 a 3 bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Cytuno ar gynllun strategol deng mlynedd ar gyfer BIPBC, sy'n adlewyrchu'r cyfraniadau a gafwyd yn ystod 2024/25 ac sy'n cyd-fynd â'r adnoddau sy'n debygol o fod ar gael.

Wrth gwblhau'r strategaeth deng mlynedd, bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg i fod yn sail i gynllun 2025-28, cynllun 2026-29, a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol sy'n esblygu.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd strategaeth ddiwygiedig ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn darparu map ar gyfer blaenoriaethu gwelliannau a threfniadau gwasanaethau clinigol sy'n diwallu anghenion poblogaeth gogledd Cymru orau. Yn ei dro, mae hyn yn lleihau'r risg fod gwasanaethau bregus yn darparu gwasanaethau is na'r safon. Bydd defnyddio dull cynllunio strwythuredig yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu gwasanaethau mewn ffordd effeithlon, gan sicrhau'r canlyniadau gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

2B: Cynllun Gwasanaethau Clinigol

Mae angen Cynllunio Gwasanaethau Clinigol i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r gwasanaethau clinigol cywir, yn y ffordd gywir, yn y manau cywir i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn y ffordd orau. Ond i wneud hyn, mae angen map strategol clir ar y Bwrdd Iechyd ar gyfer y deng mlynedd nesaf, sy'n golygu bod rhaid i waith y Cynllun Gwasanaethau Clinigol ddilyn y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y strategaeth deng mlynedd. Bydd angen blaenoriaethu (a, lle bo'n briodol, dadflaenoriaethu) i sicrhau bod modd cyflawni ein cynllun gwasanaethau clinigol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Mae hyn yn golygu bod creu Cynllun Gwasanaethau Clinigol effeithiol a chyflawn yn llwyddiannus yn ei gwneud yn ofynnol i'n gwaith ar ein Strategaeth deng mlynedd, uchod, a sut rydym yn mynd ati i Flaenoriaethu (blaenoriaeth 2D isod), gael ei ddatblygu hefyd. Hefyd, mae nifer o ryngddibyniaethau eraill a darnau cysylltiedig o waith yn ymwneud â chyflawni Cynllun Gwasanaethau Clinigol effeithiol, gan gynnwys yn y cynllun 3 blynedd cyfredol hwn, sy'n cynnwys Gwerth a Chynaliadwyedd (blaenoriaeth 3C) a phob un o flaenoriaethau Amcan 4 (Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad).

Felly, mae'r gwahanol elfennau o'r cynllun tair blynedd sydd wedi'u blaenoriaethu yn ategu ei gilydd. Bydd y Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn dwyn yr elfennau hyn ynghyd i greu cynllun clinigol clir y gellir ei gyflawni ar gyfer sut i weithredu'r Strategaeth dros gyfnod treigl o dair blynedd.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Er y bydd y Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn defnyddio strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd, ni all y Bwrdd Iechyd aros nes y cytunir ar y strategaeth ddiwygiedig cyn gweithio ar sut y gellid cyflawni hyn yn glinigol. Mae perygl y bydd gwneud hynny'n mynd i'r afael â newidiadau clinigol mewn trefn nad yw'n adlewyrchu ein meysydd mwyaf o risg glinigol, neu mewn ffyrdd nad ydynt yn ystyried rhyngddibyniaethau a gwahaniaethau clinigol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno cytuno ar ddull gweithredu Cynllun Gwasanaethau Clinigol drafft, gyda'r drafft yn cael ei ddiweddarw wrth i'r sgysiau strategaeth 10 mlynedd aeddfedu.

Blaenoriaethau

- Yn ystod 2024/25, bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu Cynllun Gwasanaethau Clinigol drafft sy'n ymgorffori'n ddigonol y gofynion clinigol *hysbys* ar gyfer y 3 blynedd nesaf.
- Gan symud ymlaen i flynyddoedd 2 a 3, bydd y Bwrdd Iechyd yn mireinio ac yn aeddfedu'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol i adlewyrchu strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd sy'n dod i'r amlwg ynghyd â'r gofynion demograffig newidiol disgwylidig.
- Bydd modd cyflawni'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol o fewn yr adnoddau y rhagwelir y byddant ar gael i'r Bwrdd Iechyd.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau am ddarpariaeth Gwasanaethau Clinigol sy'n cael eu profi'n well ar gyfer cynaliadwyedd, gan arwain at lai o achosion o orfod mynd ati ar frys i ddatrys anawsterau o ran darparu gwasanaethau ac arwain at brofiad gwell i gleifion.

2C: Comisiynu

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod cyfle i wella rhagor ar y gwasanaethau sy'n cael eu contractio gan sefydliadau eraill. Yn ystod y pandemig, gwelwyd newid tuag at gontractio gwasanaethau ar sail bloc ledled y DU er mwyn canolbwyntio blaenoriaethau ar ddarparu gofal covid-19. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion mae contractio bloc wedi parhau ac mae'n lleihau'r cyfle i sicrhau bod comisiynu ar sail ansawdd a chanlyniadau yn flaenoriaeth. Byddai symud o ddull contractio i un sy'n seiliedig ar egwyddorion comisiynu sy'n mynd ati'n systematig i ystyried anghenion y boblogaeth, blaenoriaethau, caffael wedi'i lywodraethu'n dda, a monitro ansawdd yn arwain at werth uwch o'r gwasanaethau y mae sefydliadau eraill yn eu darparu ar ran y Bwrdd Iechyd.

Mae mabwysiadu dull fframwaith comisiynu, a gyflwynir gyda dull amserol, hefyd yn cyfrannu at gynaliadwyedd partneriaid, gan eu helpu i gynllunio'n dda.

Er y bydd y Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu'r meysydd mwyaf o gyfleoedd yn gyntaf, bydd egwyddorion comisiynu yn cael eu hymestyn er mwyn cyrraedd ar draws pob maes gofal clinigol dan gontract oherwydd bydd hyn yn helpu i wreiddio dull 'unwaith i Ogledd Cymru', gan hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth, gofal integredig, a chydlynu ar draws y Rhanbarth a gyda phartneriaid yn GIG Cymru a GIG Lloegr.

Mae blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer 2024-25 yn cynnwys disgwyliad y bydd sefydliadau'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i weithio'n rhanbarthol. Mewn sawl ffordd, mae daearyddiaeth Gogledd Cymru yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn cwmpasu ôl-troed rhanbarthol cyfan. Fodd bynnag, mae cyfleoedd sylweddol eto i'w gwireddu i ad-drefnu gwasanaethau presennol o fewn y Bwrdd Iechyd yn fwy strategol, ar sail rhanbarth Gogledd Cymru a'r anghenion dros wneud hyn, gan gynnwys gwella ansawdd, potensial recriwtio, a bydd arbedion effeithlonrwydd yn sail i'n sgysiau â phobl Gogledd Cymru wrth i'r Bwrdd Iechyd fwrw ymlaen â'i strategaeth 10 mlynedd a'i flaenoriaethau gwasanaeth clinigol a drafodwyd mewn tudalennau blaenorol. Ar ben hynny, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i flaenoriaethu gwaith sy'n cyfrannu at gydweithredfa canolbarth Cymru.

Ar ben hynny, bydd y dull comisiynu hwn yn helpu'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae'n eu hwynebu o ran 'cynllunio gweithredol' a darparu gwasanaethau a ddarperir yn y Bwrdd Iechyd. Cydnabyddir bod y Bwrdd Iechyd wedi cael trafferth adfer ac yna wella effeithlonrwydd gofal wedi'i gynllunio (asesu cleifion allanol a thriniaethau dilynol) ar ôl y pandemig. Mae gallu a chapasiti cynllunio gweithredol yn y sefydliad yn gofyn am gefnogaeth barhaus a buddiol fydd cymhwyso egwyddorion comisiynu i hyn.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae gweithredu dull comisiynu mwy systematig wedi cael ei ohirio o'r blaen oherwydd y Pandemig a'r capasiti i fynd i'r afael â hyn yn ystod y 12 mis blaenorol. Bydd blaenoriaethu'r gweithgarwch hwn nawr yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ailosod contractau ar gyfer meysydd o weithgarwch wedi'i gomisiynu a fyddai'n arwain at fwy o ffocws ar werth ac ansawdd.

Blaenoriaethau

Bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Penodi Cyfarwyddwr Perfformiad a Chomisiynu, gyda phrofiad penodol o gomisiynu yn y GIG fel system gyfan.
- Cynllunio a dechrau gweithredu dull fframwaith sefydliadol newydd ar gyfer comisiynu a rheoli contractau, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r arferion gorau ledled y DU.
- Adolygu contractau presennol y GIG ar gyfer prynu bloc, gan ddefnyddio ein fframwaith comisiynu.
- Monitro contractau'r GIG yn erbyn fframwaith comisiynu'r Bwrdd Iechyd y cytunwyd arno.
- Cefnogi timau gweithredol yn y sefydliad i gymhwyso egwyddorion comisiynu i wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd, gan ddefnyddio'r dulliau modelu gorau 'galw a chapasiti' a blaenoriaethu cymorth ychwanegol i feysydd lle mae'r angen clinigol mwyaf.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd blaenoriaethu'r gweithgarwch hwn nawr yn ein galluogi i ailosod contractau ar gyfer meysydd o weithgarwch wedi'i gomisiynu a fyddai'n arwain at fwy o ffocws ar werth ac ansawdd.

2D: Blaenoriaethau Cyfalaf: helpu newid i ddiwydd

Mewn nifer o feysydd gwella gwasanaeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno bwrw ymlaen â nhw, mae angen cymorth cyllid cyfalaf. Mae gormod o alw am adnoddau cyllid cyfalaf ac felly mae'r Bwrdd Iechyd wedi blaenoriaethu cynlluniau'n ofalus i sicrhau bod y rheini sy'n darparu'r gwerth uchaf i boblogaeth Gogledd Cymru yn cael eu cyflwyno i gael cymorth cynllunio a chyllido ychwanegol gan Raglen Gyfalaf Cymru Gyfan y GIG, a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn ffodus i gael cymorth ariannol yn ystod 2024-25 i wella cyfleusterau clinigol yn Ysbyty Llandudno, gan greu canolfan Orthopedig a fydd yn helpu llawer i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o oedi sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer llawdriniaethau cymalau newydd.

Ymhlith rhaglenni gwaith eraill, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio i sicrhau cyllid ar gyfer cyfleusterau iechyd meddwl newydd mawr eu hangen i gleifion mewnol ar safle Glan Clwyd, ac ar gyfer cyfleusterau estynedig yn Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gwblhau gwaith gwrth-glymu ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r prosiectau hyn yn ymestyn ar draws nifer o dimau yn y Bwrdd Iechyd, partneriaid a chontractwyr trydydd parti ac mae angen rheolwyr penodol i'w cyflawni ar amser ac o fewn cwmpas.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydnabod bod cyfle i wella cyfleoedd cyllid cyfalaf drwy waredu ystad o ansawdd gwael, lle gallai gwasanaethau gael eu darparu'n well drwy eu had-drefnu, neu lle nad yw gwasanaethau'n cael eu darparu mwyach.

Ochr yn ochr â'r Cynllun Blynyddol hwn, bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno dogfen Cyflwyniad Blaenoriaethu Cyfalaf i GIG Cymru, wedi'i strwythuro yn unol â gofynion cydweithwyr Cyfalaf GIG Cymru. Cafodd tri deg dau o gynlluniau eu nodi yn y Bwrdd Iechyd fel rhai sydd o fewn cwmpas yr ymarfer hwn, ar sail adolygiad o Strategaeth Ystadau'r Bwrdd Iechyd (2023), y Cynllun Blynyddol, y Rhaglen Seilwaith 10 mlynedd (2022), ceisiadau am gyfalaf dewisol ar gyfer 2024-25, yr Adnodd Orlhain Achosion Busnes a'r rhestr o flaenoriaethau Digidol. Cafodd y cynlluniau eu rhestru gan ddefnyddio'r un fethodoleg sgorio â'r un a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â dau ffactor arall, sef *gallu cyflawni* ac *uniongyrchedd*.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fod yn gallu rhoi sylw penodol i gyflawni'r rhaglenni gwaith cymhleth sy'n gofyn am gymorth cyllid cyfalaf er mwyn eu cyflawni ar amser ac yn unol â'u cwmpas.

Bydd gwelliannau i'r ystad yn cyfrannu'n sylweddol at ein gallu i gyflawni'n well yn erbyn Blaenoriaethau Gweinidogol, yn enwedig mewn orthopedeg, ac wrth ddarparu gwasanaethau o ansawdd a phrofiad gwell.

Blaenoriaethau

Canolfan Orthopedig Llandudno. Yn 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn darparu canolfan lawfeddygol Orthopedig Llandudno, gyda llawfeddygaeth yn dechrau ar y safle gan ddarparu 1,900 o driniaethau orthopedig bob blwyddyn.

Rhaglen disodli Ablett. Yn 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn cwblhau'r achos busnes dros adeiladu'r cyfleuster Iechyd Meddwl i Oedolion a Phobl Hŷn ar safle Ysbyty Glan Clwyd, gan anelu at ddechrau adeiladu yn 2024-25, a pharhau i 2025-27.

Ysbyty Brenhinol Alexandra. Yn 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, i gwblhau adolygiad o'r bwriad i ailddatblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra er mwyn ailgyflwyno'r cynnig am gymorth cyllid cyfalaf. Bydd gwaith yn y blynyddoedd dilynol yn cael ei gwmpasu yn unol â chanlyniad y cynnig.

Gwaredu'r ystad. Yn 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn canfod dull gweithredu sy'n galluogi'r Bwrdd i ystyried gwaredu ystad nad yw'n addas i'r diben mwyach nac yn angenrheidiol.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd cyflawni'r prosiectau cyfalaf hyn yn unol â'r cwmpas, o fewn yr adnoddau, a heb oedi gormodol yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio meysydd clinigol newydd er budd gofal cleifion. Mae angen gwella'r ystad er mwyn gallu datblygu a thrawsnewid gwasanaethau.

2E: Digidol, Data a Thechnoleg

Ar hyn o bryd, er gwaethaf rhywfaint o gynnydd da, nid yw systemau Digidol a Gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd yn ddigon da o hyd o'u cymharu â sefydliadau Gofal Iechyd eraill ledled y byd. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i wella'r defnydd o dechnoleg i ddarparu gwell gwasanaethau gofal iechyd.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae technoleg dda yn hanfodol er mwyn darparu gwell gofal iechyd a gwella canlyniadau iechyd pobl. Byddwn yn gweithio i gael yr hanfodion yn iawn, gan gynnwys sut rydym yn darparu Digidol, Data a Thechnoleg i'n galluogi i ddal i fyny â gweddill y Byd.

Blaenoriaethau

- Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR). Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws PBC a Chymru i ddatblygu a sicrhau cytundeb ar gyfer buddsoddi mewn trawsnewid Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR). Oherwydd pryderon diogelwch ym maes Iechyd Meddwl, bydd y Bwrdd Iechyd yn dechrau caffael a gweithredu EHR tactegol sy'n benodol i Iechyd Meddwl, gan ddechrau yn 2024.

Yn ogystal â safoni'r ddarpariaeth gofal a'r trefniadau gweithredol cysylltiedig ar draws y Bwrdd Iechyd, bydd yr EHR yn disodli nifer o gymwysiadau nad oes modd eu cefnogi ar hyn o bryd, gan ddatblygu a chytuno ar gynllun digidol ehangach ar gyfer Gogledd Cymru gyda'r EHR yn ganolog iddo.

- Gwneud y gorau o'r galluoedd presennol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio i wneud y defnydd gorau posibl o systemau a galluoedd cyfredol i ddarparu'r gwerth mwyaf i gleifion a chlinigwyr, gan liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â dyblygu systemau a phrosesau.
- Trawsnewid y Model Gweithredu DDaTh Bydd y sefydliad yn parhau i foderneiddio'r gwaith o redeg a darparu Digidol, Data a Thechnoleg. Bydd hyn yn cynnwys y galluoedd a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i wella aeddfedrwydd DDaTh yn erbyn meincnodau'r diwydiant.
- Rhaglen Gwasanaethau Hanfodol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn uwchraddio technoleg seilwaith i atal methiannau TG mawr ac i ddiogelu rhag ymosodiadau seiber.
- Bydd y tîm DDaTh yn cyfrannu'n weithredol at y gweithgarwch a amlinellir mewn blaenoriaethau eraill yn y cynllun, gan gynnwys *5D Seiliedig ar Wybodaeth* a *5E Sefydliad sy'n Dysgu*.

- Prosiectau Mawr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio ar y prosiectau blaenoriaeth canlynol y mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu arnynt er mwyn parhau i weithredu:

LIMS 2.0: Darparu gwasanaeth patholeg modern a chynaliadwy. Gwella diogelwch clinigol drwy safoni gwell.

RISP: Mae RISP yn ddatrysiad radioleg di-bapur sy'n ymgorffori System Gwybodaeth Radioleg (RIS), System Rheoli Dosau Cleifion (PDMS) a System Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS) yn BIPBC.

Rhifo Cleifion/WPAS : Rhoi golwg ar wybodaeth sy'n canolbwyntio ar y claf i staff clinigol er mwyn cefnogi gofal o ansawdd da i gefnogi llif cleifion a gwneud penderfyniadau clinigol.

Gwneud y Gorau o'r Systemau Presennol: Gwneud y gorau o ymarferoldeb ein systemau presennol, gan wneud yn siŵr bod y system yn bodloni disgwyliadau defnyddwyr ac yn darparu'r gwerth gorau posibl

Rhaglen Gwasanaethau Hanfodol: Cyfres o Raglenni a Phrosiectau TGCh gwarchoddedig i sicrhau bod y seilwaith craidd yn gadarn, yn ymateb i'r galw ac yn cael ei ddiweddarau

Disodli system rheoli therapiau: Disodli ein system rheoli therapiau sydd mewn perygl

System Iechyd Meddwl: Darparu system addas i lechyd Meddwl ar gyfer eu hanghenion, ac er mwyn gallu casglu gwybodaeth cleifion yn effeithiol a'i rhannu â phartneriaid yn briodol.

Ysgol Feddygol ar y Cyd: Gwella WiFi a chysylltedd rhwydwaith sy'n rhoi darpariaeth gyffredinol a chysylltedd dibynadwy cyflym iawn i leoliadau Ysgol Feddygol yn Ystad PBC.

WPRS: Nod system e-gyfeirio WPRS yw galluogi atgyfeiriadau effeithlon ac o ansawdd da i gael eu cyflwyno rhwng Gofal Sylfaenol ac Eilaidd yn electronig.

ePMA: Bydd siartiau meddyginiaethau papur a phresgripsiynau yn cael eu disodli gan system bresgripsiynu ddigidol a gweinyddu meddyginiaethau ar draws PBC

Teledermosgopeg: Gweithredu storfa a gwyliwr delweddu digidol arbenigol i alluogi dermatolegwyr i asesu amheuaeth o ganser y croen heb yr angen i fod wyneb yn wyneb

Ymgynghoriadau Rhithiol/'Attend Anywhere': Cynnydd yn nifer y llwybrau lle mae apwyntiadau ac adolygiadau'n cael eu cynnal yn rhithiol

System Amnewid Deintyddol: Disodli EPR y gwasanaethau deintyddol cymunedol sydd wedi cael hysbysiad diwedd oes ar gyfer mis Mawrth 2024 (gan gynnwys mudo data).

Cofrestru Untro: Cyflwyno ymhellach y tu hwnt i'r Adrannau Achosion Brys (Cam 1) i feysydd clinigol fel wardiau/clinigau ac ati.

Canisc: Ail-greu ffurflenni MDT, a ffurflenni set ddata canser, ar gyfer rheolaeth glinigol. Yn ogystal â ffurflenni penodol ar gyfer gofal lliniarol a sgrinio.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd y newidiadau hyn yn ein helpu i ddarparu gofal gwell a mwy diogel. Byddwn yn fwy effeithlon ac effeithiol. Byddwn yn defnyddio data a gwybodaeth i wneud penderfyniadau gwell ac felly'n defnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth. Byddwn yn defnyddio dull sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr wrth ddylunio gwasanaethau gyda chlinigwyr a defnyddwyr eraill i sicrhau bod y newidiadau i wasanaethau a busnes yn digwydd a bod y manteision yn cael eu gwireddu.

2F: Blaenoriaethu

Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith 'Blaenoriaethu' amlinellol y mae datblygiadau newydd yn cael eu profi yn ei erbyn.

Mae rhoi egwyddorion Blaenoriaethu ar waith yn gam hanfodol tuag at wella ansawdd gofal, mynediad at ofal a darpariaeth gyfartal. Wrth ymrwymo adnoddau cyhoeddus, rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ymyriadau'n cael eu cefnogi sy'n darparu'r gwerth mwyaf i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

Conglfaen y fframwaith Blaenoriaethu yw Gofal Seiliedig ar Werth, wedi'i gefnogi gan asesiadau effaith sy'n rhoi sicrwydd bod gwella ansawdd a thegwch mynediad yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae angen rhagor o waith i fireinio hyn, i'w brofi'n ddigonol mewn amser real ac yna ei wreiddio mewn penderfyniadau strategol ar draws y Bwrdd Iechyd.

Bydd y fframwaith hwn hefyd yn helpu'r Bwrdd Iechyd i nodi gweithgarwch sydd â gwerth isel, neu ddim gwerth. Mae darparu ymyriadau sydd â gwerth isel neu ddim gwerth yn cyfrannu'n sylweddol at niwed i gleifion gan fod y cyfle i gael digwyddiadau niweidiol sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn uwch na'r tebygolrwydd o welliant clinigol o'r ymyriad. Mae parhau i fuddsoddi mewn ymyriadau sydd â gwerth isel neu ddim gwerth hefyd yn golygu bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar y gallu i ddarparu mwy o ymyriadau sy'n debygol o gael canlyniadau gwell. Bydd mynd i'r afael â hyn yn darparu mecanwaith pwysig i'r Bwrdd Iechyd allu ailddosbarthu adnoddau i wasanaethau ataliol, gofal cymunedol a gofal sylfaenol yn unol â Cymru Iachach a chyfarwyddyd Gweinidogol.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r fframwaith Blaenoriaethu er mwyn ei wreiddio yn yr holl benderfyniadau am ddyrannu adnoddau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n gyfyngedig o ran adnoddau, sy'n golygu bod dadflaenoriaethu ymyriadau aneffeithiol neu lai effeithiol yn golygu bod modd cyfeirio adnoddau ychwanegol tuag at ymyriadau â'r gwerth mwyaf. Bydd cael fframwaith ehangach yn helpu'r Bwrdd Iechyd i wneud penderfyniadau gwell ynglŷn â dyrannu adnoddau. Bydd hyn yn arwain at gynllun strategol mwy effeithiol, a thaith gyflymach tuag at fod yn gynaliadwy o ran adnoddau.

Blaenoriaethau

- Adnewyddu'r dull Fframwaith Blaenoriaethu a Dadflaenoriaethu presennol a ddefnyddir yn y Bwrdd Iechyd, er mwyn ymgorffori'r hyn a ddysgwyd yn lleol yn ystod 2023-24 a'r hyn a ddysgwyd a'r dulliau gweithredu sydd ar waith mewn sefydliadau eraill yn y GIG.
- Ffurfioli'r adnewyddu yn Bolisi Blaenoriaethu cymeradwy ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Gan symud i flynyddoedd 2 a 3, bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Adolygu effaith y dull Blaenoriaethu a Dadflaenoriaethu yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau cysondeb defnydd wrth wneud penderfyniadau am ddyrannu adnoddau.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd ehangu'r fframwaith Blaenoriaethu presennol i gynnwys agwedd at Ddadflaenoriaethu yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael i ni, ar gyfer trigolion gogledd Cymru.

2G: Sicrhau Newid Mawr yn Effeithiol

Ar adegau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i chael yn anodd cydbwysu'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau newid mewn ffordd sy'n darparu'r tebygolrwydd mwyaf o lwyddiant amserol a pharhaus. Mae mabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gyflawni'r darnau mwy o faint a mwy cymhleth o waith yn ffordd gydnabyddedig o wella llwyddiant.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu mwy o brofiad ac wedi sefydlu seilwaith sy'n seiliedig ar fethodoleg gref, gyda chefnogaeth sylfaen dystiolaeth ryngwladol. Mae hyn wedi arwain at greu pecyn cymorth Rhaglen Ffordd Betsi. Cafodd hyn ei ddefnyddio'n llwyddiannus yn y Bwrdd Iechyd fel prawf cysyniad yn ystod 2023-24 wrth greu'r Achos Busnes Orthopedig ar gyfer Llandudno; mae hyn wedi arwain yn uniongyrchol at y gallu i sicrhau cyllid cyfalaf ar gyfer safle Llandudno o fewn cyfnod llawer byrrach nag y byddai'r Bwrdd Iechyd wedi'i gymryd o'r blaen, a gydag adborth cryf ynghylch ansawdd da y gwaith a gyflwynwyd. Yna, cafodd y pecyn cymorth ei ehangu ymhellach a'i ddefnyddio i ddarparu sicrwydd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio i'n hadroddiadau Mesurau Arbennig, gan arwain at gyfran uwch o gerrig milltir yn cael eu cyrraedd ar amser nag o'r blaen, a mwy o sicrwydd o ran ansawdd y ddarpariaeth sy'n arwain at welliant amlwg yn y gwasanaeth.

Bydd meysydd sy'n dod i'r amlwg lle bydd defnyddio methodoleg gyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gwella'r gwaith o sicrhau newid yn effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd

Bwrw ymlaen â dull cyflymach o weithredu **Cofnod Iechyd Electronig (EHR)**. Trafodir y gweithgaredd hwn yn fanylach yn 2E: Digidol, Data a Thechnoleg (DDaTh)

Cyflawni'n lleol y blaenoriaethau a nodwyd gan y Bwrdd **Gwerth a Chynaliadwyedd** cenedlaethol fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gael yr effaith gadarnhaol fwyaf.

Gwella'r ddarpariaeth o ganlyniadau clinigol gwell ym maes **Gofal Heb ei Drefnu** yn y Bwrdd Iechyd

Ail-osod y rhaglen **Gofal wedi'i Gynllunio** i ganfod cyfleoedd i wella'r galw, capasiti a gwerth cynllunio a pherfformiad mewn gofal wedi'i gynllunio

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen ymestyn i fodel defnyddio llawn sy'n cwmpasu darpariaeth y portffolio cyfan o'r 'newid mawr' mwyaf cymhleth. Yn 2024/25, bydd hyn yn cynnwys (ymysg pethau eraill) ein blaenoriaethau cyflawni digidol, gan gynnwys datblygu Cofnod Iechyd Electronig (EHR) mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl a'n Hadrannau Achosion Brys, ein dull lleol o weithredu a chysoni â'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol, a darparu ein rhaglenni gwella Gofal Brys ac Argyfwng.

Bydd dal yn dynn mewn gwyddoniaeth rheoli newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn arwain at welliannau mwy diriaethol o raglenni penodol, yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fwy amserol.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r dull presennol yn barod i gael ei gyflwyno ymhellach a bydd yn rhoi mwy o bwyslais ar raglenni mawr cyfredol, gan helpu'r Bwrdd Iechyd i wneud gwelliannau'n gyflymach.

Blaenoriaethau

- Sefydlu'r mentrau newid mawr â'r flaenoriaeth uchaf yn y Bwrdd Iechyd a'u trosglwyddo i oruchwyliaeth y Swyddfa Rheoli Rhaglenni, gan fabwysiadu'n llawn y dulliau llywodraethu a chraffu ar gyflawni ar sail tystiolaeth drwy Bwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r tabl uchod yn amlinellu'r meysydd hynny y credir *ar hyn o bryd* eu bod yn cael y flaenoriaeth fwyaf i'w cynnwys yn y portffolio newidiadau mawr.
- Cwblhau a chytuno ar y broses o adolygu'r portffolio o newidiadau mawr yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd lle mae'r dull hwn yn cynnig y gwerth mwyaf, ac adrodd yn rheolaidd ar yr effaith.

Gan symud i flynyddoedd 2 a 3, bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Adolygu'r newidiadau cyflwyno a ddaeth i rym yn 2024/25 sydd wedi cael effaith briodol, gan addasu'r dull gweithredu os oes angen.
- Cyflwyno adolygiadau porth ôl-weithredu o brosiectau a rhaglenni a gwblhawyd yn flaenorol i gadarnhau bod yr effeithiau cynnar a welwyd wedi cael eu gwreiddio.
- Mae adolygu'r newidiadau i'r adolygiad o'r porth a ddaeth i rym yn 2025/26 wedi cael effaith briodol, gan addasu'r dull gweithredu os oes angen.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd cymhwyso sgiliau rheoli rhaglenni a phortffolios cadarn i'n prif raglenni newid yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'n llwyddiannus yn unol â'r cwrpas, ac yn osgoi oedi diangen. Bydd hyn yn arwain at weld gwelliannau'n gynt.

2H: Cryfhau'r Gwaith Cynllunio

Comisiynwyd adolygiad o brosesau cynllunio'r Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru yn 2023, a chafodd yr argymhellion terfynol eu derbyn gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2024. Bydd yr adolygiad a'i argymhellion yn cael eu hystyried gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2024, a byddant yn darparu cnewyllyn lle gall y Bwrdd Iechyd ystyried cyfleoedd ychwanegol i ddatblygu swyddogaethau cynllunio strategol ymhellach yn y sefydliad.

Mae nifer o'r argymhellion a dderbyniwyd yn cael sylw gan flaenoriaethau allweddol eraill sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun; mae'r rhain yn cynnwys yr argymhellion i weithio ar strategaeth

gyffredinol a chynllun gwasanaethau clinigol (Blaenoriaethau 2A a 2B), gwelliannau i fodolau gweithredu (Blaenoriaeth 1C), gwelliannau o ran cyflawni newid (Blaenoriaeth 2F) ac o ran bod yn seiliedig ar wybodaeth (Blaenoriaeth 5D).

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno defnyddio argymhellion yr Adolygiad Cynllunio i barhau i gryfhau capasiti cynllunio mewn pryd i gefnogi ffocws newydd ar strategaeth.

Blaenoriaethau

Yn ogystal â'r blaenoriaethau sydd yn y blaenoriaethau allweddol a restrir uchod, bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Sefydlu'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ac a gynhyrchwyd i ymateb i'r Adolygiad Cynllunio i wella capasiti a gallu ar gyfer cynllunio.
- Gwneud rhagor o waith gyda staff a rhanddeiliaid i adnewyddu dyluniad y system gynllunio yn y Bwrdd Iechyd. Bydd hyn yn adeiladu ar y Fframwaith Cynllunio Integredig. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys meithrin capasiti cynllunio gweithredol.
- Cynnal adolygiad o ymrwymadau nawr ac yn y dyfodol, gan dynnu sylw at y capasiti cynllunio sydd ei angen i'w gynllunio a'i roi ar waith. Bydd hyn yn ffurfio llinell sylfaen ar gyfer asesu dichonoldeb, risg a rhyngddibyniaethau.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd gweithredu'r argymhellion yn arwain at welliannau mewn perfformiad cynllunio yn y Bwrdd Iechyd, gan arwain at benderfyniadau cryfach a mwy amserol sy'n cefnogi mwy o ffocws angenrheidiol ar ddylunio strategaethau a gwasanaethau cynaliadwy. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cadarn o ansawdd da.

2l: Amgylchedd Llywodraethu Cyllid

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd weithredu o fewn set y cytunwyd arni o Reolau Sefydlog (SOs), Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI) a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo (SoRD). Mae'r cynllun penderfyniadau wedi'i gadw'n ôl i'r Bwrdd; gan gynnwys y cynllun dirprwyo pwerau i Bwyllgorau a swyddogion y Bwrdd Iechyd. Mae amrywiaeth o ddogfennau fframwaith eraill yn nodi'r trefniadau y mae'r Bwrdd Iechyd, ei Bwyllgorau, ei Grwpiau Cynghori a staff y GIG yn eu dilyn wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu gweithgareddau.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd roi sicrwydd ynghylch y trefniadau a'r rheolaethau sydd ar waith ar hyn o bryd, gan gymryd camau cywiro lle mae angen gwella. Mae hyn yn galluogi asesiad parhaus o gydymffurfiaeth â fframwaith rheoli contractau a chaffael y Bwrdd Iechyd (ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf) ac yn sicrhau goruchwyliaeth a rheolaeth drwy ddirprwyo priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd hefyd fonitro'r cylch contractio a pholisïau, gweithdrefnau a phrosesau cysylltiedig drwy gydol y cylch, a wneir gan staff gweithredol a chyllid a gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r tîm caffael lleol.

Rhaid cael system gadarn o reolaeth ariannol er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth osod contractau am nwyddau a gwasanaethau mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, a hefyd er mwyn sicrhau bod yr holl drafodion ariannol yn cael eu hadrodd yn gywir.

Y datganiadau ariannol diwedd blwyddyn ar berfformiad a archwiliwyd gan Archwilio Cymru, y Bwrdd Iechyd yn ceisio cael sefyllfa hollïach a barn ddiamod ar lunio'r datganiadau ariannol diwedd blwyddyn, i'w hargymell i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Archwilio a chymeradwyaeth gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer eu ffeilio gyda GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

Blaenoriaethau

- Gwella a monitro'r Amgylchedd Rheoli Ariannol, yr elfennau allweddol yw mynd ati'n barhaus i fireinio'r Rheolau Sefydlog, y Cynllun Cadw a Dirprwyo a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a gymeradwywyd yn ddiweddar.
- Yn unol ag Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol, cefnogi'r gwaith o wella'r amgylchedd rheoli drwy gymryd rhan weithredol yn y gwaith o osod y Cynllun Archwilio Mewnol, ar y cyd â Phwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd.
- Sicrhau bod argymhellion o adolygiad o'r amgylchedd rheoli ariannol drwy archwilio mewnol yn cael eu gweithredu, gan gefnogi Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnig sicrwydd bod gan y Bwrdd Iechyd system gadarn o reolaeth fewnol.
- Datblygu rhagor ar yr hyfforddiant a'r cymorth a gynigir i reolwyr wrth gymhwyso'r Rheolau Sefydlog, y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo, gan ganolbwyntio'n benodol ar hyfforddiant mewn perthynas â chaffael er mwyn sicrhau gwerth am arian ac ymgysylltu â'r farchnad ehangach wrth osod archebion am nwyddau a gwasanaethau.
- Mae un o elfennau allweddol y broses o Gaffael nwyddau a gwasanaethau yn canolbwyntio ar adolygu prosesau hepgor tendrau sengl a chymeradwyo contractau, gan gynnwys cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru lle bo angen, a chydymffurfio â'r rheolaethau hynny i gynnwys cymeradwyo contractau a gwahanu dyletswyddau'n briodol.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod amgylchedd rheoli cadarn yn cael ei ddarparu sy'n cydymffurfio â'r arferion gorau o ran darparu goruchwyliaeth, ein mecanweithiau rheoli sy'n cyd-fynd yn lleol ac yn rhanbarthol â'r safonau cenedlaethol gofynnol, gan sicrhau sgôr gadarnhaol yn dilyn adolygiad gan yr Archwiliad Mewnol gyda goruchwyliaeth drwy Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd.

Drwy roi hyn ar waith, bydd modd sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cydymffurfio â'r hyn a gyfarwyddir gan y Bwrdd Iechyd ac yn cynnig gwerth am arian i boblogaeth leol Gogledd Cymru, gan ymgysylltu â'r farchnad mewn modd sy'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a'r arferion gorau perthnasol. Ar ben hynny, drwy dderbyn barn archwilio ddiamod, adroddir yn gywir ar berfformiad ariannol sicrwydd i'r boblogaeth leol, GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

2J: Canfod a chefnogi Gwasanaethau â Heriau yn gynnar

Sylwch fod 'blanoriaeth 4J: Gwasanaethau â Heriau ar hyn o Bryd' yn gysylltiedig yn agos â'r flannoriaeth hon. Mae blannoriaeth 4J yn amlinellu'r ymateb a'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud mewn gwasanaethau ar hyn o bryd. Mae'r flannoriaeth hon yn canolbwyntio ar sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu mecanwaith i ganfod gwasanaeth â heriau'n well yn gynharach fel y gellir rhoi gwelliannau ar waith cyn i unrhyw effaith godi ar ganlyniadau ansawdd.

Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o wasanaethau clinigol lle mae'n anodd cynnal gwasanaeth dibynadwy a chyson. Mae nifer o'r gwasanaethau hyn yn ei chael hi'n anodd datrys eu hôl-groniad o weithgarwch gofal wedi'i gynllunio cyn gynted ag y bo angen.

Er bod rhai o'r anawsterau hyn wedi codi oherwydd anawsterau wrth recriwtio i wasanaeth sydd wedi'i drefnu orau fel arall, mae llawer o'r gwasanaethau sydd â heriau yn gofyn am ad-drefnu sylweddol er mwyn bod yn sefydlog a gallu darparu'r gwasanaeth effeithlon ac o ansawdd da sydd ei angen. Mae gallu adnabod yn gynnar y gwasanaethau lle mae angen ad-drefnu yn rhoi'r potensial i ymyrryd a datrys problemau cyn iddynt ymwreiddio'n ddwfn ac effeithio ar ddarparu gwasanaethau.

Pam mae hyn wedi cael ei flannoriaethu yng nghynllun 2024-27?

O fewn y naw mis cyntaf o fesurau arbennig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â threfniant a pherfformiad nifer o'r meysydd hyn sydd â heriau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r broses hon i lywio rhaglen fwy rhagweithiol o weithgarwch sy'n gallu nodi gwasanaethau sydd ar fin cael 'heriau' er mwyn gallu rhoi cymorth ac ymyrraeth ar waith cyn i berfformiad y gwasanaeth ddirywio'n sylweddol.

Blaenoriaethau

Yn 2024/25:

- Myfyrio i nodi'r themâu a'r materion cyffredin a welwyd wrth fynd i'r afael â'r gyfran gyntaf o wasanaethau â heriau.
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ddysgu o'r gwaith y maen nhw eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn.
- Gan ystyried y gweithgareddau uchod, dechrau dull triongli clir yn y Bwrdd Iechyd sydd wedi'i ddylunio i nodi'n gynharach pa wasanaethau sydd â heriau.
- Ymgysylltu â'r gwaith cenedlaethol sy'n edrych ar 'wasanaethau bregus' sy'n rhan o raglen waith y ffrwd waith amrywiad clinigol a threfnu gwasanaethau yng ngwaith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd.

Yn 2025/26 a 2026/27:

- Adolygu effaith y dull triongli, a'i fireinio yn unol â hynny.
- Mireinio dull y Bwrdd Iechyd o gynnal cysondeb â'r gwaith cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg gan y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl, drwy nodi'n gynharach pa wasanaethau sydd â heriau ac yn fregus, y bydd y gwaith sydd ei angen i ddatrys yr heriau hynny yn symlach ac yn arwain at amharu ar lai o lwybrau cleifion.



**Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac
ymgysylltu tosturiol**

1

2

3: Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol

4

5

Mae Amcan 3 yn defnyddio'r corff enfawr o dystiolaeth sy'n dangos sut mae diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu â phreswylwyr, staff, cymunedau a phartneriaid yn effeithio'n fawr ar ansawdd gwasanaethau a phrofiad cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau yn y meysydd hyn a bydd blaenoriaethu'r rhain yn arwain at ganlyniadau gwell.

Crynodeb


Amcan 3: Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol		Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol	Fframwaith Mesurau Arbennig
3A	Arweinyddiaeth Dosturiol a Datblygu Sefydliadol		✓
3B	Ymgysylltu â Dinasyddion	✓	✓
3C	Bod yn Bartner Da	✓	✓

3A: Arweinyddiaeth Dosturiol a Datblygu Sefydliadol

Roedd ymateb y Bwrdd Iechyd i welliannau'r Mesurau Arbennig yn cynnwys dymuniad i ddatblygu rhagor ar ddiwylliant a chapasiti arweinyddiaeth. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau gyda chefnogaeth yr Athro Michael West o'r King's Fund, i gwmpasu ffocws cryf ar 'arweinyddiaeth dosturiol'. Mae arweinyddiaeth dosturiol yn golygu canolbwyntio ar berthnasoedd drwy wrando'n ofalus, deall, cydymdeimlo â phobl eraill a'u cefnogi, gan alluogi'r rheini rydym yn eu harwain i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a bod rhywun yn gofalu amdanynt er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial a gwneud eu gwaith gorau. Mae hwn yn ddull seiliedig ar dystiolaeth sy'n arwain at dimau cryf a chadarn sy'n gallu llywio'r Bwrdd Iechyd yn well drwy gyfnod heriol.

Yn bwysig, nid yw arweinyddiaeth dosturiol yn nod ynddo'i hun; mae corff cryf o dystiolaeth yn dangos bod diwylliant arweinyddiaeth dosturiol yn arwain at ganlyniadau gwell gan staff ar draws y sefydliad.

Bydd arweinyddiaeth dosturiol yn gweithredu fel llinyn cyffredin drwy'r gwaith datblygu sefydliadol ehangach sydd bellach ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd. Bydd y Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol sydd newydd ei sefydlu yn parhau i lunio a gweithredu blaenoriaethau allweddol y cynllun Datblygu Sefydliadol, gan adolygu ac adrodd ar gynnydd drwy'r Tîm Gweithredol ac ymlaen i Bwyllgor newydd y Bwrdd Pobl a Diwylliant.



Ffigur 10: Arweinyddiaeth Dosturiol, gan yr Athro Michael West / Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae gwaith sylfaenol wedi dechrau yn 2023-24 ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno adeiladu ar hyn heb golli gafael. Taith barhaus, a fydd yn parhau i dyfu drwy gydol cyfnod y cynllun tair blynedd hwn, yw creu diwylliant sy'n gyson dosturiol ac yn perfformio'n dda.

Mae'r gweithgaredd hwn yn weithgaredd sylfaenol sy'n ategu ac yn plethu â'r holl weithgareddau eraill, o fewn Amcan 3 a'r tu hwnt.

Blaenoriaethau

Proses barhaus yw Datblygu Sefydliadol, felly ni fydd yn cael ei chwblhau o fewn 2024/25. Yn ystod 2024/25, bydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Datblygu a dechrau'r gwaith o weithredu'r Rhaglen Newid Diwylliannol.
- Cymeradwyo a gweithredu Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth y sefydliad.
- Cyflwyno dulliau gweithredu i alluogi'r Bwrdd a'r Pwyllgor i ganolbwyntio ar brofiad staff, gan gynnwys straeon am brofiad staff.
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu'r pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd a sicrhau bod y pwyllgor yn gweithio'n effeithiol.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd gwelliannau mewn arweinyddiaeth dosturiol a datblygu sefydliadol yn golygu bod modd gwella'n gyflymach ar draws y sefydliad, a mwy o fodlonrwydd ymysg y staff, gan arwain at welliannau ym mhrofiad a chanlyniadau cleifion.

3B: Ymgysylltu â Dinasyddion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau. Mae hyn yn golygu mwy nag ymgysylltu'n gynnar, mae'n golygu ymgysylltu'n barhaus fel bod modd gwrandao a dysgu o brofiadau ac arbenigedd pobl eraill.

Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau'n seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i ddinasyddion, a bod pobl yn meddu ar yr wybodaeth a'r gefnogaeth i'w galluogi i gynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant. Mae hwn yn ymrwymiad clir a wnaed gydag ymwybyddiaeth nad yw'r Bwrdd Iechyd bob amser wedi rheoli hyn yn dda yn y gorffennol.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae cyfle gwirioneddol i ail-fframio perthynas â phobl Gogledd Cymru, er mwyn ailadeiladu hygyrdd ac ymddiriedaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymeradwyo dull newydd o ymgysylltu, ac mae ei arweinwyr wedi ymrwmo i gynyddu amlygrwydd a chryfhau ymgysylltiad â chymunedau.

Blaenoriaethau

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn creu rhaglen ymgysylltu eang gyda chymunedau ar draws Gogledd Cymru, gan roi cyfleoedd i ofyn cwestiynau a dysgu mwy am y cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- Bydd Adroddiad Profiad y Dinesydd, a gaiff ei lunio bob yn ail gyfarfod o'r Bwrdd, yn rhoi gwybod i aelodau'r Bwrdd am y prif themâu sydd o ddiddordeb a phryder i'r cyhoedd.
- Bydd Gweithgor Ymgysylltu yn gweithredu fel catalydd ar gyfer cydweithio cryfach ar draws y sefydliad a gyda chydweithwyr a dinasyddion annibynnol (ee Llais, Cadeiryddion y Fforwm). Bydd yn meithrin cydgynhyrchu gwirioneddol o ran ymgysylltu a phrofiad cleifion, a bydd yn dod ag arbenigedd a gwybodaeth ynghyd. Bydd y Grŵp yn datblygu *Ffordd Betsi: Ymgysylltu* ac yn gwreiddio hyn ar draws y sefydliad.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn dysgu o ymgysylltu â theuluoedd, gwranddo ar straeon teuluol yn ystod adolygiadau, deall yr hyn y mae ar deuluoedd ei angen o hyd a sut y gallant gymryd rhan yn rheolaidd a datblygu dull gweithredu sy'n cael ei wreiddio.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Mae ymgysylltu ystyrlon, perthnasoedd cryf, partneriaethau a chyfathrebu wrth galon meithrin ymddiriedaeth a hyder yn ansawdd y gofal a'r gwasanaethau, ac maent yn rhan annatod o daith y Bwrdd Iechyd o wella a datblygu gofal i ddiwallu anghenion ein poblogaeth.

Bydd casglu, dadansoddi a thriongli adborth gwerthfawr gan ddinasyddion a gweithio gyda nhw i siapio gwelliannau yn dangos eu bod yn hanfodol i ddatblygu a gwella gofal a gwasanaethau. Bydd y ffordd hon o weithio yn ymgorffori gwranddo ac ymgysylltu yn null gweithredu strategol y Bwrdd Iechyd. Bydd ymgysylltu'n gryf â dinasyddion yn arwain at lwyddo i greu ein strategaeth 10 mlynedd (Blaenoriaeth 2A uchod) fel strategaeth sy'n cael ei chydabod a'i chefnogi gan boblogaeth Gogledd Cymru.

3C: Bod yn Bartner Da

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at waith partneriaeth ar draws amgylchedd partneriaeth sy'n gymhleth ac yn amlochrog. Mae rhai o'r cyfleoedd partneriaeth hyn yn cynnig mwy o bosibiliadau nag a ddefnyddiwyd o'r blaen.

Mae heriau sylweddol o'n blaenau, rhai ohonynt yn cael eu rhannu nid yn unig ledled Cymru ond ledled y DU a Gorllewin Ewrop, yn ogystal ag yn rhyngwladol. Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith barhaol ar lesiant y boblogaeth a darparu iechyd a gofal. Mae'r cynnydd mewn costau byw a sefyllfa economaidd heriol yn ychwanegu at y darlun ac yn creu amgylchedd cymhleth i'r holl bartneriaid.

Dim ond drwy ddull system gyfan y gellir mynd i'r afael â'r lefel hon o gymhlethdod; gydag Awdurdodau Lleol, sefydliadau Elusennol a'r Trydydd Sector, Cymdeithasau Tai, Prifysgolion a phartneriaid Addysg Bellach ac Uwch, Byrddau Iechyd cyfagos a'r GIG yn Lloegr. Ar ben hynny, mae'r

holl dystiolaeth yn dangos bod y datrysiadau i'r heriau hyn yn well o lawer o'u hystyried ar draws ein partneriaethau systemol.

Sefydliad angori

Un ffordd bwysig i'r Bwrdd lechyd ddatblygu mwy o effaith ar bartneriaeth yng Ngogledd Cymru yw drwy gydnabod ei rôl fel 'sefydliad angori'. Mae'r term sefydliad angori fel arfer yn cyfeirio at sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus y mae eu cynaliadwyedd tymor hir yn gysylltiedig â llesiant y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu¹⁶. Fel partner i sefydliadau eraill, ac i drigolion Gogledd Cymru yn gyffredinol, gall y Bwrdd lechyd wneud gwahaniaeth yn y gymuned drwy gaffael nwyddau a gwasanaethau'n lleol, y ffordd y mae'n defnyddio ei ystad ffisegol, y ffordd y mae'n cefnogi cyflogaeth leol, yn lleihau effaith amgylcheddol ac yn cydweithio i fodelu cyfrifoldeb dinesig.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae gweithio mewn partneriaeth yn faes y mae'r Bwrdd lechyd yn dymuno ei wella, gan nodi nad yw gweithio mewn partneriaeth wirioneddol bob amser wedi cael blaenoriaeth yn y gorffennol. Mae'r Bwrdd lechyd yn dymuno datblygu a chefnogi perthnasoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes fel bod partneriaid yn cymryd rhan ac yn llunio datrysiadau i'r materion cymhleth ac anodd a rennir. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod pwysigrwydd gwneud penderfyniadau'n ystwyth.

Blaenoriaethau


- Bydd y Bwrdd lechyd yn adolygu presenoldeb mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod y rhai sy'n bresennol yn meddu ar yr awdurdod dirprwyedig gofynnol i allu bod yn bresennol yn y fforymau hynny a roi blaenoriaeth iddynt, a chyfraniad effeithiol a phenderfyniadau ynddynt.
- Bydd y Bwrdd lechyd yn adolygu prosesau llywodraethu mewnol i sicrhau eu bod, lle bo'n bosibl, yn plethu ac yn ategu prosesau llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gallu gwneud penderfyniadau amserol, gan graffu'n fewnol yn briodol ar yr un pryd.
- Bydd y Bwrdd lechyd yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio'n well, bod dulliau a rennir ar gael i wella llesiant y boblogaeth a ffyrdd arloesol a thrawsnewidiol o weithio sy'n mynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol llawer ehangach. Bydd gweithio fel hyn yn galluogi dull gwerthoedd ar y cyd, lle mae cymuned yn ganolog yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Mae'r Bwrdd lechyd eisoes wedi mabwysiadu dull diwygiedig o ddefnyddio'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid i gael cyngor ac arweiniad cyn gynted â phosibl, gyda thrafodaethau'n rhoi sylw i gynnwys y cynllun tair blynedd hwn, ac i gamau nesaf y mesurau arbennig. Bydd y Bwrdd lechyd yn parhau i ddatblygu'r dull hwn gyda'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn ystod 2024-25.

¹⁶ <https://www.health.org.uk/news-and-comment/charts-and-infographics/the-nhs-as-an-anchor-institution>

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud gwelliannau o ran cynnwys cydweithwyr Awdurdodau Lleol wrth greu ein cynlluniau gweithredol a strategol, gan gynnwys ein cynllun Blynyddol neu gynllun 3 blynedd.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu sesiynau briffio rheolaidd i randdeiliaid, a bydd yn gwrandao ar bartneriaid drwy arolwg blynyddol. Bydd hyn yn ychwanegol at y mecanweithiau diweddar arferol sydd eisoes ar waith. Bydd yr adborth yn siapio ac yn gwella'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'i bartneriaid.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn edrych ar gyfleoedd i flaenoriaethu gweithgareddau cydweithredol sy'n cynnig y potensial i fynd i'r afael â heriau cyffredin mewn ffyrdd sy'n cael mwy o effaith ar drigolion Gogledd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys (ymysg pethau eraill) cyfleoedd i gaffael yn fwy lleol ac i gydleoli neu leoli gwasanaethau mewn mannau sy'n diwallu anghenion y boblogaeth orau ar yr un pryd â gwella gwerth ac effeithlonrwydd i'r partneriaid dan sylw.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn ymrwymo'n llawn i ddisgwyliadau Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), gan gydnabod ei bod yn gyfle i ddyfnhau ei ymrwymiad ymhellach fel sefydliad angori.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau a strategol yn y Bwrdd Iechyd yn integreiddio'n dda yn amgylchedd system ehangach Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn haws i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gydweithio i sicrhau canlyniadau gwell i drigolion Gogledd Cymru.



**Gwella ansawdd, canlyniadau a
phrofiad**

Mae Amcan 4 yn ymwneud â maes thematig mawr sy'n cwmpasu darpariaeth weithredol gwasanaethau clinigol lle mae angen gwelliannau i wella perfformiad mewn sawl maes allweddol.

Mae gwaith da, sy'n defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y llwybr, wedi dechrau mewn nifer o feysydd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen adeiladu ymhellach ar hyn yn gyflym.

Y profiadau i lawer o gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal brys ac argyfwng yw bod oedi hir o hyd cyn cael triniaeth yn y lle cywir. Mae'r gwaith yn cael ei flaenoriaethu i ehangu cyfleoedd triniaeth frys y tu hwnt i Ysbytai Cyffredinol lle mae'n ddiogel gwneud hynny, gan gynnwys mewn lleoliadau gofal sylfaenol (gan gynnwys, ymysg lleoedd eraill, wasanaethau meddygon teulu), ac mewn lleoliadau gwasanaethau mân anafiadau. Pan fydd angen triniaeth frys mewn Ysbyty Cyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu lleoliadau gwasanaeth sy'n golygu bod llai o amser yn cael ei dreulio mewn Adrannau Achosion Brys, neu'n gallu osgoi'r Adran Achosion Brys yn gyfan gwbl. A phan fydd angen triniaeth Adran Achosion Brys, a bod angen cludiant ambiwlans, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i welliannau sy'n golygu bod cleifion yn treulio llai o amser yn aros i gael eu trosglwyddo o'r ambiwlans i'r ysbyty.

Mewn gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio, mae gan y Bwrdd Iechyd ragor o waith i'w wneud o hyd i wella amseroedd aros hir mewn rhai arbenigeddau. Mae rhai o'r arbenigeddau hyn yn gofyn am newid trefniant er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol ag ôl-groniadau mewn gofal a'u gwneud yn fwy dibynadwy ac yn barod ar gyfer galw yn y dyfodol. Mae gwaith wedi'i gynnwys yn y cynllun hwn i gefnogi'r Bwrdd Iechyd i barhau i fynd i'r afael â'r heriau hyn ac i nodi a mynd i'r afael yn well â'r galw a'r diffyg capasiti.

Mae gwasanaethau gofal canser yn perfformio'n gymharol dda, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfnod o 62 diwrnod rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn y rhan fwyaf o feysydd, gyda gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio mewn Dermatoleg.

Mae gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Oedolion wedi bod yn destun craffu sylweddol dros nifer o flynyddoedd mewn perthynas â nifer o ymholiadau a chynlluniau gweithredu, a gwelwyd gwelliannau cynyddol ar draws y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o gynnydd i osod y gwasanaeth ar sylfaen gynaliadwy sy'n gallu sicrhau canlyniadau sy'n gyson uchel. Yn ystod 2023-24, cafodd y Bwrdd Iechyd ei erlyn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am fethiannau mewn asesiadau gwrth-glymu, ac o ganlyniad mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu a gwreiddio hyfforddiant asesu risg ac addasiadau i'r Ystad.

O fewn gwasanaethau CAMHS a Niwroddatblygu, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymateb i heriau sy'n cael eu teimlo ar draws y DU o ran fod y galw'n fwy na'r capasiti. Mae'r dulliau sy'n cael eu dilyn yn cynnwys cyfuniad o effeithlonrwydd a chynyddu newidiadau mewn capasiti ochr yn ochr â'r angen i wneud newidiadau mawr i ddarparu gwasanaeth sy'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Yn fwy eang ym maes gwasanaethau plant, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu perthynas aeddfed iawn â phartneriaid statudol ledled Gogledd Cymru drwy waith â chymorth y Bwrdd Partneriaeth

Rhanbarthol, gan gynnwys ym maes diogelu plant. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach. Mae llwybrau gofal hefyd wedi parhau i aeddfedu rhwng gwasanaethau pediatrig cyffredinol a CAMHS, a rhwng gwasanaethau pediatrig cyffredinol a gwasanaethau oedolion.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen canolbwyntio'n fawr ar wneud gwelliannau brys mewn perfformiad gweithredol ond mae hefyd yn ymwybodol bod angen parhau i ganolbwyntio ar yr un pryd ar ailgynllunio gwasanaethau i roi mwy o bwyslais ar atal a gofal sylfaenol.

▪ *Strwythur yr adran hon*

Mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod un o'r gofynion allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau clinigol yn llwyddiannus yn gofyn am fabwysiadu dull *integredig*, gyda llwybrau gofal sy'n symud ar draws gwahanol wasanaethau yn gwneud hynny mewn ffordd ddi-dor. Felly, wrth ddylunio llwybrau gofal gwell, mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn gwneud hynny gyda methodoleg o'r dechrau i'r diwedd sy'n rhoi sylw penodol i osgoi trosglwyddo mewn ffordd anhrefnus i - ac o - wahanol wasanaethau.

Er mwyn eglurder yn y cynllun hwn, rhannwyd yr adran hon yn feysydd gwasanaeth traddodiadol. Er bod rhai meysydd yn gymharol ar wahân, mae eraill fel atal a gofal sylfaenol yn rychwantu ac yn cynnwys llawer o'r adrannau eraill. Fodd bynnag, drwy strwythuro fel hyn mae'n haws llywio ar draws yr heriau penodol sy'n cael sylw mewn gwahanol feysydd.

Crynodeb

Amcan 4: Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad		Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol	Fframwaith Mesurau Arbennig
4A	Profiad Cleifion	✓	✓
4B	Atal	✓	✓
4C	Gofal Sylfaenol ac Ymyrraeth Gynnar	✓	✓
4D	Gofal Cymunedol a Chlystyrau	✓	✓
4E	Gofal wedi'i Gynllunio	✓	✓
4F	Gofal Canser	✓	✓
4G	Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng	✓	✓
4H	Diagnosteg	✓	✓
4I	Iechyd Meddwl Oedolion, Anabledd Dysgu, CAMHS a Niwroamrywiaeth	✓	✓
4J	'Gwasanaethau â heriau' ar hyn o bryd Fasgwlaidd, Wroleg, Offthalmoleg, Oncoleg, Dermatoleg, Llawfeddygaeth Blastig, Orthodonteg	✓	✓
4K	Gwasanaethau Merched	✓	✓
4L	Plant	✓	✓
4M	Gwasanaethau fferyllol	✓	✓

4A: Profiad Cleifion

Mae gan y Bwrdd Iechyd borth ar gyfer adborth Profiad Cleifion, sy'n defnyddio system sydd wedi'i chaffael yn genedlaethol, ac mae wedi gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio hyn mewn meysydd cleifion allanol lle mae lefel yr adborth yn uchel o'i gymharu â Byrddau Iechyd eraill. Fodd bynnag, mae'r defnydd yn llai cyson mewn meysydd eraill, gan gynnwys lleoliadau cleifion mewnol ac mewn Adrannau Achosion Brys.

Mae mwy o gyfle hefyd i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o ymatebion Profiad Cleifion i wella gwasanaethau'n gyflym.

Wrth symud ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno adeiladu ar y profiad o gasglu adborth mewn meysydd cleifion allanol i lywio datblygiad pellach, yn gyntaf i Adrannau Achosion Brys, ac yn ogystal i ddangos bod y wybodaeth a geir yn effeithio ar wella gwasanaethau.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae casglu, ac yna ddefnyddio, adborth profiad cleifion yn rhywbeth y mae'r Bwrdd Iechyd am ei sefydlu'n ganolog yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae ganddo'r potensial i gyfrannu'n gryf at y system rheoli ansawdd a'r gwaith triogli y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud, ond er mwyn gwneud hynny mae angen defnyddio'r adborth i'r eithaf. Mae hyn yn gofyn am ragor o weithgarwch i sicrhau dysgu ar sail adborth.

I fod fwyaf buddiol, rhaid i'r gwaith o gasglu adborth fod yn fwy eang a chyson hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau penodol mewn Adrannau Achosion Brys ac mae'r gwaith o gasglu mwy o adborth ar brofiad cleifion, a'i newid, yn y meysydd hyn yn cynnig cyfle penodol y mae'r Bwrdd Iechyd am ei ddatblygu ar frys.

Blaenoriaethau

Yn ystod 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Ehangu'r cynnig i gleifion lenwi holiaduron Profiad Cleifion yn ystod ymweliad ag Adran Achosion Brys neu'n syth wedyn. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio negeseuon testun SMS sy'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd gan gleifion allanol.
- Profi'r defnydd o fecanweithiau adborth mewn ffyrdd mwy "amser real" ar gyfer cleifion mewnol ysbytai aciwt, gan ddefnyddio ambell ward i brofi dulliau gwahanol.
- Ymgorffori system dadansoddi adborth sy'n golygu bod modd cydnabod arfer da (i'w ledaenu) a chyfleoedd rhybudd cynnar lle gallai fod angen ymyrraeth a chymorth ychwanegol, a dangos ei fod yn cael ei ddefnyddio.
- Ymgorffori adroddiadau adborth ar gyfer sicrwydd i'r cyhoedd, y Bwrdd a phartneriaid.

Yn ystod 2025-26 a 2026/27, bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Ehangu'r gwaith o'i gyflwyno ymhellach i leoliadau eraill, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r adrannau achosion brys a wardiau peilot yn ystod 2024/25.
- Asesu cyfraddau ymateb yn barhaus, gan geisio cael llawer iawn o adborth a all lywio prosesau sicrwydd yn ddibynadwy.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?


Os caiff adborth ar Brofiad Cleifion ei gasglu'n gadarn ac yn gyson, mae'n gyfle i nodi meysydd ymarfer sy'n dda (ac y gellir eu hefelychu ar draws y Bwrdd Iechyd) yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella, yn agos at amser real. Mae hyn yn golygu y gall y Bwrdd Iechyd ddysgu o dueddiadau cyn iddynt arwain at niwed sylweddol, ond mae hefyd yn golygu y gall llais y claf ddylanwadu'n fwy ar ddatblygiad ein gwasanaethau. Yn gryno, byddai profiad a boddhad cleifion sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn gwella.

4B: Atal

Mae atal a lleihau afiechyd y gellir ei osgoi yn feysydd blaenoriaeth allweddol, a bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid ar draws rhanbarth Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae modd atal, i raddau helaeth, lawer o'r salwch cronig sy'n cyfrannu'n sylweddol at ofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio mewn gofal Sylfaenol ac Eilaidd. Mae'r rhain yn cynnwys diabetes math 2, clefydau anadlol, rhai mathau o ganser, a llawer o glefydau cardiofasgwlaidd gan gynnwys strôc.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwelliannau mewn cyfraddau disgwyliad oes ledled Cymru, gan gynnwys yng Ngogledd Cymru, wedi arafu. Gallai cyfraddau marwolaethau uwch yn 2020 oherwydd pandemig Covid-19 gyfrif am rywfaif o hyn, ond roedd yr arafwch yn y gwelliannau i ddisgwyliad oes wedi dechrau cyn hyn. Ymysg yr achosion sy'n cyfrannu, mae lefel isel o dwf cyflogau, tloidi tanwydd, ansicrwydd bwyd a chyni sy'n effeithio'n anghymesur ar y bobl yn ein cymunedau sydd dlotaf a mwyaf agored i niwed, fel y nodwyd gan Syr Michael Marmot.



Yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd yw'r cam allweddol i atal afiechyd y gellir ei osgoi. Mae'r cynllun hwn yn ystyried data iechyd y cyhoedd a'r boblogaeth, gwybodaeth a thystiolaeth o'r boblogaeth, cymunedau a'u hanghenion. Dangosir hyn drwy raglenni gwaith sy'n ceisio mynd i'r afael ag amrywiaeth ac annhegwch mewn gwasanaethau, ac amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed. Gan weithio gyda

phartneriaid, bydd rhaglen Gogledd Cymru Iach yn canolbwyntio ar ddull rhanbarthol drwy gydweithio a datblygu modelau cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau sy'n targedu gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar.

Mae'r rhaglen yn dwyn ynghyd agweddau ar waith sydd eisoes wedi'u sefydlu, rhai ohonynt yn cyfrannu at ganlyniadau mwy uniongyrchol fel rhoi'r gorau i ysmegu a'r manteision sy'n gysylltiedig â Phresgripsiynu Cymdeithasol, ynghyd â rhaglenni fel y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal sy'n dylanwadu ar ymddygiad a ffactorau amgylcheddol. Mae ffenomen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal, a ddisgrifiwyd gyntaf gan y Meddyg Teulu o Gymru, Julian Tudor Hart, yn 1971¹⁷, yn disgrifio sut mai'r rhai sydd fwyaf angen gofal sydd leiaf tebygol o'i dderbyn.

Blaenoriaethau

- Os oes gennych ddiabetes. Mae'r wybodaeth a'r dystiolaeth yn awgrymu bod tri phrif faes lle gallai BIPBC wella canlyniadau iechyd i bobl â diabetes a darparu gwasanaethau mwy effeithiol a chynaliadwy. Sef: Atal pobl rhag datblygu diabetes, datblygu modelau gofal sylfaenol a chymunedol effeithiol ar gyfer diabetes, a gwella'r wybodaeth i gynllunio a rheoli gofal diabetes. Bydd y Tîm Iechyd Cyhoeddus yn parhau i arwain a chefnogi cydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd i greu llwybr gofal diabetes gwell yng Ngogledd Cymru (gweler Blaenoriaeth 4D hefyd).
- Imiwneiddio. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i leihau amrywiadau a chynyddu'r nifer sy'n cael imiwneiddiadau drwy gydol cwrs bywyd, gan annog timau lleol i gyfeirio cleifion, staff, teuluoedd a gofalwyr at ffynonellau dibynadwy o wybodaeth am imiwneiddio. Ar hyn o bryd, mae achosion o'r frech goch ar gynnydd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ymgyrchoedd wedi'u targedu i gynyddu lefelau brechu MMR.
- Gogledd Cymru Iach a rhaglenni cysylltiedig. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu'r fframwaith sy'n cyflwyno'r achos dros gadw pobl yn iach gan ddefnyddio canlyniadau o'r gweithdai Byw'n Annibynnol i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu dulliau system o ddarparu datrysiadau llesiant yn ein cymunedau.
- Ysmegu yw'r rheswm mwyaf o hyd dros salwch y gellir ei atal, ac er bod cynnydd wedi'i wneud yng Ngogledd Cymru, bydd gwaith parhaus i gynyddu nifer yr ysmygwyr sy'n cael eu hatgyfeirio i Wasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmegu Helpa Fi i Stopio yn helpu i ostwng nifer y bobl sy'n ysmegu a bydd yn darparu Cymru ddi-fwg erbyn 2030. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflawni Rheoliadau Di-fwg (2020) a Pholisi Dim Ysmegu'r Bwrdd.
- Pwysau Iach. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu Dull System Gyfan ar gyfer y Cynllun Cyflenwi Pwysau Iach, a'r blaenoriaethau allweddol yw dylanwadu ar y system cynllunio gofodol drwy gynlluniau cyflawni lleol a cheisiadau cynllunio, dylanwadu ar yr amgylchedd bwyd mewn gweithleoedd a sefydliadau addysgol a thrwy gynnal y ddarpariaeth o fewn Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan.

¹⁷ <https://www.kingsfund.org.uk/publications/articles/inverse-care-law>

- Ymarfer corff. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi ac annog cymunedau, gan gynnwys gweithlu'r Bwrdd Iechyd, i feddwl am ymarfer corff fel rhan arferol o'u bywydau bob dydd.
- Alcohol – Bydd y Bwrdd Iechyd, ynghyd â phartneriaid, yn parhau i gyflawni Strategaeth Alcohol Gogledd Cymru 2020-24 ac yn cyfrannu at ei hadnewyddu.
- Ymateb i'r Asesiad o Anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr a nodi'r cyfleoedd i wella iechyd pobl mewn cymunedau agored i niwed gan gynnwys Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid; y rheini sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol; a'r rheini sydd ag anableddau Dysgu.
- Rhianta Corfforaethol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ymrwmo i Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru ac yn ystyried ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.
- Llesiant meddyliol. Drwy gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru, bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio gwella iechyd meddwl a llesiant ar draws pob oed, ac yn hyrwyddo'r 5 Ffordd at Lesiant i ddefnyddwyr gwasanaethau a staff.
- Parhau i ddatblygu gwaith tîm llwybrau gofal y Bwrdd Iechyd i fanteisio i'r eithaf ar atal a dull iechyd y cyhoedd o'u mewn.
- Byddwn yn parhau i weithredu cynlluniau sy'n cefnogi agendâu dileu gan gynnwys Hepatitis B a C, a Thwberculosis.
- Fel sefydliad angori gyda 20,000 o weithwyr, bydd y Bwrdd Iechyd yn annog gweithwyr a'u teuluoedd i fyw ffyrdd o fyw iach gan y bydd gwneud hynny'n cael effaith fawr ar iechyd y boblogaeth yng Ngogledd Cymru.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd 2023-24¹⁸, mae BIPBC wedi ymrwmo i weithio gyda phartneriaid (mewnol ac allanol) i ddatblygu a gweithredu dulliau system sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella iechyd a llesiant ein boblogaeth.

Mae ein blaenoriaethau'n cyfrannu at gyflawni dwy brif elfen yn ein cynlluniau iechyd y boblogaeth ar gyfer 24-25 hyd at 2026/27 sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a'u lleihau, gan arwain at ganlyniadau gwahaniaethol i wahanol grwpiau yng Ngogledd Cymru:

1. Rhaglen Gogledd Cymru Iach, a fydd yn canolbwyntio ar gadw pobl yn iach, fel ein bod yn gwneud y mwyaf o'u gallu i fyw bywydau iach a boddhaus a chyfrannu'n llawn at eu cymunedau.
2. Iechyd Cyhoeddus Gofal Iechyd a dulliau iechyd y boblogaeth i helpu BIPBC i symud tuag at ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar i atal cyflyrau rhag codi neu, lle maent yn digwydd, i leihau canlyniadau difrifol y cyflyrau hynny.

¹⁸ <https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/>

4C: Gofal Sylfaenol ac Ymyrraeth Gynnar

Sylwch mai crynodeb o'r Cynllun yw hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y templedi cynllunio Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, Gwasanaethau Optometreg a Fferylliaeth Gymunedol, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun trosfwaol hwn fel atodiadau.

Mae'r mwyafrif helaeth o gysylltiadau cleifion yn y GIG yn digwydd ym maes Gofal Sylfaenol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau Gofal Sylfaenol cadarn a sefydlog o ran sicrhau bod trigolion Gogledd Cymru yn cael gofal ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir, ac yn cael eu trin fel mater meddygol dim ond pan fo angen.

Mae gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn cael eu darparu drwy fodel cymysg o wasanaethau a ddarperir gan gontractwyr a gwasanaethau uniongyrchol a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd, sy'n cwmpasu gofal meddygol sylfaenol, gofal deintyddol sylfaenol, optometreg a fferylliaeth gymunedol.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau gofal meddygol sylfaenol sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol i 106,386 o gleifion ledled Gogledd Cymru. Mae cyfleoedd i atgyfnerthu dull y Bwrdd Iechyd o reoli'r gwasanaethau hyn gan gydnabod y bydd y model ar gyfer gwasanaethau gofal meddygol sylfaenol yng Ngogledd Cymru yn gofyn am gyfuniad o bractisiau a reolir yn uniongyrchol a phractisiau sy'n cael eu darparu'n annibynnol gan gontractwyr. Mae cydnabod hyn yn golygu y gall y Bwrdd Iechyd nawr ganolbwyntio ar dynnu sylw at y cyfleoedd cadernid ac arloesi y mae rheolaeth uniongyrchol tymor hir yn eu cynnig i'r practisiau hyn ac i gontractwyr annibynnol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen aiddosbarthu adnoddau i ofal cymunedol a gofal sylfaenol a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan bolisiau allweddol fel Pellach Cyflymach. Mae hon yn her sylweddol mewn sefyllfa ar ôl Covid-19, ac yn wyneb heriau sylweddol o ran adnoddau a pherfformiad ar draws y Bwrdd Iechyd yn ehangach. Wrth fynd ar drywydd hyn, bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio cyfleoedd gan gynnwys Gofal Seiliedig ar Werth (blaenoriaeth 1E), Comisiynu (blaenoriaeth 2C), Blaenoriaethu (blaenoriaeth 2E), a'r strategaeth 10 mlynedd sy'n dod i'r amlwg (blaenoriaeth 2A) a'r cynllun gwasanaethau clinigol (blaenoriaeth 2B) er mwyn angori, ac yna symud ymlaen â'r gofyniad hwn.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau gofal iechyd yn digwydd ym maes Gofal Sylfaenol a byddai modd darparu rhai gwasanaethau'n well drwy eu symud yn fwy i Ofal Sylfaenol. I wneud hyn, rhaid cefnogi Gofal Sylfaenol i fod yn wydn a helpu i fynd i'r afael â'r heriau presennol o ran capasiti a chynaliadwyedd.

Mae anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau Gofal Sylfaenol oherwydd yr heriau hyn o ran capasiti a chynaliadwyedd yn arwain yn anochel at unigolion yn gorfod cael mynediad at rannau eraill o'r gwasanaeth gofal iechyd yn ddiangen, neu'n byw gydag anghenion iechyd sydd heb eu diwallu. Gan mai mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol y mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau â chleifion yn digwydd, gall hyn gael effeithiau sylweddol.

Bydd cefnogi gofal sylfaenol ar yr un diwrnod yn helpu i ostwng nifer y bobl sy'n mynd i'r Adran Achosion Brys mewn ysbytai a'r defnydd o ambiwlansiau am resymau y gellir eu hosgoi.

Bydd cefnogi dulliau rheoli clefydau cronig mewn gofal sylfaenol yn gymorth i leihau atgyfeiriadau cleifion allanol i ysbytai, a phan wneir hynny ar y cyd â phartneriaid drwy ein timau Ardal Leol/clwstwr, bydd hyn yn lleihau gor-feddygoli.

Bydd cefnogi practisiau a reolir i ail-sefydlogi ac yna i arloesi a hyfforddi cnewyllyn newydd o weithwyr Gofal Sylfaenol proffesiynol, sy'n gallu gweithio mewn unrhyw ran o Ofal Sylfaenol, gan gynnwys yn y practisiau hynny sy'n parhau i fod yn annibynnol, yn helpu pob rhan o Ofal Sylfaenol yng Ngogledd Cymru i lwyddo.

Blaenoriaethau

Yn 2024/25 (ac yn ymestyn i 2025-27 lle bo angen), bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Parhau i weithredu'r 'Model Gofal Sylfaenol' cenedlaethol i Gymru, ac ymgysylltu'n llawn â'r Rhaglen Gofal Sylfaenol genedlaethol.
- Datblygu'r cynnig 'yr un diwrnod' ar gyfer Gofal Sylfaenol, i ddarparu mynediad tecach at ofal sylfaenol fel dewisiadau eraill yn lle mynychu'r Adran Achosion Brys neu ddefnyddio gwasanaethau 'y tu allan i oriau' y gellir eu hosgoi.
- Parhau i ddatblygu dull llwybrau gofal, gan weithio gyda gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol i sicrhau eu bod yn cael mynediad at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt fel mai dim ond pan fyddant yn ychwanegu gwerth at y claf y bydd atgyfeiriadau gofal eilaidd yn digwydd.
- Parhau i ddefnyddio dull 'Academi Gofal Sylfaenol' i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddatblygu sgiliau uwch ym maes gofal sylfaenol sy'n galluogi newidiadau yn y gymysgedd sgiliau a mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu.
- Parhau i weithio i wella mynediad at ddeintyddiaeth gofal sylfaenol.
- Parhau i ddarparu cymorth cynaliadwyedd i gontractwyr sydd mewn trafferthion.
- Datblygu ein hymagwedd strategol tuag at fodel cymysg o ofal sylfaenol sy'n cefnogi contractwyr i barhau'n gontractwyr annibynnol, ac sy'n nodi ffyrdd y gall practisiau a reolir yn uniongyrchol arloesi, cefnogi 'cymdogion' sy'n gontractwyr annibynnol, profi ffyrdd newydd o weithio, a chynyddu cyfranogiad gofal sylfaenol mewn ymchwil.
- Gweithredu Fframwaith newydd Sicrhau Contractau ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.
- Gwella gallu'r Bwrdd i weld data perfformiad gofal sylfaenol.
- Parhau i ddatblygu cynigion sy'n mynd i'r afael â meysydd o ystad wael gofal sylfaenol sy'n effeithio ar ddarparu gofal, gan gynnwys y cynigion sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ym Mhenygroes (Canolfan Lleu), yn ardal leol Gorllewin Conwy, ym Mangor, ac yng Nghaerdybi.
- Parhau i weithio gyda darparwyr Gofal Sylfaenol yng Ngogledd Cymru i baratoi amgylcheddau hyfforddi addas ar gyfer Myfyrwyr Meddygol o Ysgol Feddygol Gogledd Cymru.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r canlyniadau?

Bydd mwy o wytnwch mewn gofal sylfaenol yn arwain at fynediad mwy amserol at ofal iechyd, a fydd yn cael ei ddarparu'n nes at adref a gyda llai o anghydraddoldebau. Bydd lleihau defnydd o ofal eilaidd y gellir ei osgoi yn arwain at well profiadau i gleifion mewn amgylcheddau gofal eilaidd yn ogystal â gofal sylfaenol.

4D: Gofal Cymunedol a Chlystyrau

Sylwch mai crynodeb o'r Cynllun yw hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y templedi cynllunio Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, Gwasanaethau Optometreg a Fferylliaeth Gymunedol, ac yng Nghynlluniau Clwstwr Gogledd Cymru sy'n cyd-fynd â'r Cynllun trosfwaol hwn fel atodiadau.

Cyflwynwyd Clystyrau neu 'Ardaloedd Lleol' yng Ngogledd Cymru i ategu fframwaith 'Gosod y Cyfeiriad' 2010 Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol. Mae 14 o glystyrau yng Ngogledd Cymru yn ymestyn dros rai o'r rhannau mwyaf gwledig yng Nghymru, i rai o'r ardaloedd mwyaf trefol. Mae gan bob clwstwr gasgliad unigol o anghenion a heriau yn y boblogaeth.

Dros amser, mae clystyrau wedi esblygu yn unol â'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru, y tu hwnt i ganolbwyntio'n bennaf ar gynorthwyo Practisau Cyffredinol i gydweithio i fod yn gefnogol o anghenion eu poblogaethau trwy gydweithio'n ehangach gan ddenu gweithwyr proffesiynol eraill yn gweithio ym maes gofal sylfaenol, gofal GIG yn y gymuned ac, yn bwysig, partneriaid eraill gan gynnwys cydweithwyr mewn awdurdodau lleol a chydweithwyr yn y sector gwirfoddol. Mae'r newid hwn mewn pwyslais yn cydnabod y rôl bwysig y gall eraill ei chyflawni o ran iechyd a lles cymunedol, ac mae'n lleihau'r risg o ganolbwyntio ar ymagweddau meddygol y gellid eu darparu mewn ffyrdd eraill. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwaith i ystyried potensial clinigau 'un stop' mewn clystyrau sy'n dod â gwaith blaenoriaeth at ei gilydd ar ddiabetes math 2 (gweler blaenoriaeth 4B), y traws-gymorth a'r arloesi rhwng gofal sylfaenol a reolir yn uniongyrchol a gofal sylfaenol gan gcontractwyr annibynnol (gweler blaenoriaeth 4C) a'r awydd i wella'r profiad i gleifion sydd â chyflyrau hirdymor lluosog (gweler blaenoriaeth 4E).

Fel hyn, mae clystyrau'n cynnal gwelliannau i iechyd y boblogaeth trwy integreiddio gwasanaethau ar lefel leol i ddarparu gofal gwell a chydgyssylltiedig ar gyfer cymunedau.

Mae dal llawer o waith i'w wneud i sicrhau bod clystyrau'n gallu cael cymaint o effaith â phosibl. Yn unol â gweddill Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn goruchwylio'r gwaith o weinyddu a llywodraethu clystyrau yn ei ardal ac yn ystod 2023/24, gwnaeth y Bwrdd Iechyd roi modelau llywodraethu

Clystyrau Gogledd Cymru

Ynys Môn
Arfon
Dwyfor
Meirionnydd
Gollewin Conwy
Dwyrain Conwy
Gogledd Sir Ddinbych
Canol a De Sir Ddinbych
Gogledd-orllewin Sir y Fflint
Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint
De Sir y Fflint
Gogledd-orllewin Wrecsam
Canol Wrecsam
De Wrecsam

Ffigur 4: Clystyrau Gogledd Cymru

diwygiedig ar waith a chefnogodd clystyrau i ymateb i ofynion rhaglen Ymhellach, Yn Gyflymach Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gwella gofal cymunedol er mwyn lleihau pwysau ar ysbytai. Ochr yn ochr â hyn, mae pob clwstwr wedi gweithio i gryfhau eu partneriaethau cydweithredol, ac maent wedi rhoi blaenoriaethau ar waith a nodwyd o fewn pob clwstwr ar gyfer eu hardal leol.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae clystyrau'n ased pwysig y gellir darparu gwell gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol trwyddynt. Maent yn cynnig y potensial i roi gofal trwy ddulliau nad ydynt yn feddygol trwy fanteisio ar arbenigedd partneriaid o fewn eu clwstwr cydweithredol, gan felly wella gwerth ac effaith.

Mae gan glystyrau boblogaethau o hyd at ryw 50,000 o bobl sy'n caniatáu datrysiadau mwy lleol er mwyn adlewyrchu anghenion lleol.

Mae gan gefnogi clystyrau'r potensial i wella iechyd y cyhoedd, lleihau galw gofal iechyd y gellid ei osgoi, a gwella cynaliadwyedd gofal sylfaenol a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud ag iechyd ac nad ydynt yn ymwneud ag iechyd.

Blaenoriaethau

Nodi'r cynlluniau clwstwr unigol hefyd yn cynnwys blaenoriaethau mwy lleol ar gyfer clystyrau

- Rhoi cynlluniau rhaglenni gofal gwydnwch cymunedol, presgripsiynu cymdeithasol ac ymyrraeth gynnar ar waith a amlinellir o fewn cynlluniau clwstwr unigol.
- Cyflwyno rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, gan dargedu osgoi datblygu diabetes math 2.
- Parhau i ddatblygu cymorth cymunedol ac ymagweddau ymgysylltu ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.
- Gwella'r broses o roi model Rhyddhau i Adfer cyn Asesu (D2RA)¹⁹ ar waith, gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r unigolyn, gan wella adferiad ac annibyniaeth gymaint â phosibl a lleihau gorbresgripsiynu gwasanaethau statudol.
- Parhau i ddefnyddio gwasanaethau cymorth Cartrefi Gofal ar sail clystyrau ac ehangu defnydd ohonynt sy'n gallu darparu asesiadau prydlon er mwyn lleihau achosion o gludo i ysbytai y gellid eu hosgoi fel arall.
- Datblygu modelau gofal 'un stop' ymhellach er mwyn gwella darpariaeth gofal i bobl sydd â diabetes a chyflyrau cysylltiedig.

¹⁹ <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-08/hospital-to-home-community-of-practice-key-learning-and-practice-examples.pdf>

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Mae blaenoriaethau clystyrau yn cynnwys ystod o ymyriadau sy'n cael eu nodi i wella canlyniadau iechyd y cyhoedd. Bwriedir i gefnogi gwaith Ymhellach, Yn Gyflymach trwy glystyrau leihau pwysau ar wasanaethau ysbyty. Disgwylir i gefnogi darparwyr gofal sylfaenol i gydweithio yn eu clystyrau wella cynaliadwyedd a gwydnwch gofal sylfaenol.

4E: Gofal wedi'i Gynllunio

Sylwch mai crynodeb o'r Cynllun yw hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y templedi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio sy'n cyd-fynd â'r Cynllun trosfwaol hwn fel atodiadau. Mae cyflwyno ein cynlluniau gwella ym maes gofal wedi'i gynllunio yn ystod 2024-25 yn rhyng-gysylltiedig â rhannau eraill o'r cynllun hwn, ac yn benodol, ein hymateb i wasanaethau sy'n wynebu her (4J), diagnosteg (4H), gofal cymunedol a chlystyrau (4D), blaenoriaethu (2E), mynd i'r afael â newid mawr (2F) a gwerth a chynaliadwyedd (1E).

O 1 Ebrill hyd at 29 Chwefror 2024, cynigiodd y Bwrdd lechyd 277,105 o apwyntiadau cleifion allanol gofal eilaidd newydd a 482,160 o apwyntiadau cleifion allanol gofal eilaidd dilynol. Cynigiwyd cyfanswm o 32,466 o apwyntiadau dewisol i gleifion mewnol a 113,628 o weithredoedd a llawdriniaethau achos dydd hefyd. Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio lle y byddai'r Bwrdd lechyd yn awyddus i fod ac mae angen gwaith pellach i ddychwelyd at gapasiti fel yr oedd cyn y pandemig, ac yna i wella ar hynny.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y cleifion sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio ar ddiwedd Rhagfyr 2023.

Carfan	Nifer y cleifion ar 31 Mawrth 2023	Nifer y cleifion ar 31 Rhagfyr 2023
Nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol (Mesur perfformiad 30 yn fframwaith perfformiad cenedlaethol 2024)	13,480	14,166
Cleifion sy'n aros dros 156 wythnos i gael eu cyfeirio at driniaeth	3,813	1,405
Cleifion sy'n aros dros 104 wythnos i gael eu cyfeirio at driniaeth (Mesur perfformiad 32 yn fframwaith perfformiad cenedlaethol 2024)	10,379	8,317
Cleifion sy'n aros dros 52 wythnos i gael eu cyfeirio at driniaeth (Mesur perfformiad 33 yn fframwaith perfformiad cenedlaethol 2024)	36,095	36,935

Fel y gellir ei weld, mae'r Bwrdd lechyd wedi llwyddo i leihau nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos rhwng cyfeirio a chael eu trin o ryw 2,000 o gleifion, sy'n hafal i 20%, yn ystod naw mis cyntaf 2023-24, ac yn achos cleifion sy'n aros dros 156 wythnos am driniaeth, mae'r niferoedd sy'n

aros wedi lleihau o dros 60%. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen llawer iawn mwy o gynnydd ac mae'n deall pa mor bwysig ydyw i barhau i leihau nifer y cleifion sy'n aros am gyfnodau hir am ofal wedi'i gynllunio. Mae llawer o'r arosiadau hir yn ymwneud â gwasanaethau clinigol sy'n wynebu heriau'n benodol oherwydd y ffordd y caiff y rhain eu cyflunio ac mae crynodeb o welliannau ychwanegol yn y meysydd hyn wedi'i gynnwys ym mlaenoriaeth 'Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau ar Hyn o Bryd' (blaenoriaeth 4J yn ddiweddarach). Mae cyfleoedd pellach i wella'r sefyllfa o ran arosiadau hir trwy ymestyn capasiti ar draws daearyddiaeth gyfan y Bwrdd Iechyd.

Er bod angen cymorth penodol i ail-gyflunio rhai gwasanaethau er mwyn sicrhau bod modd iddynt fod mor gynhyrchiol â phosibl, mae cyfleoedd sylweddol yn dal i fod ar gael am welliannau i gynhyrchiant cyffredinol ar draws gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio nad ydynt yn ymwneud â chyflunio. Mae gwaith gyda GIRFT, y cyfeiriwyd ato yn rhannau eraill o'r cynllun yn gynharach, wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol o ran amlygu'r meysydd lle bo'r cyfleoedd mwyaf i wella cynhyrchiant. Ochr yn ochr â hyn, bydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd llawn o ddata meincnodi a gaiff ei dderbyn yn fuan fel rhan o waith cenedlaethol y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd (blaenoriaeth 1E) i ystyried cyfleoedd pellach i ddydsu a gwella cynhyrchiant gofal wedi'i gynllunio.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol, er bod data'n ategu bod cyfraddau cyfeirio wedi cynyddu'n sylweddol yng Ngogledd Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae data gan Fyrddau Iechyd eraill yn awgrymu y gallai eu cyfraddau cyfeirio fod wedi cynyddu i raddau llai. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried y rhesymau y tu ôl i hyn, gan gynnwys adolygu ansawdd data'r Bwrdd Iechyd, ac ymyriadau a wnaed gan Fyrddau Iechyd eraill a allai fod wedi cyfrannu at eu twf cyfeirio is, er enghraifft, trwy roi model Llwybrau Iechyd Cymunedol ar waith. Lle bo tystiolaeth briodol i ategu ymyriadau, bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio eu rhoi ar waith ar garlam.

Yn annhebyg i sefydliadau eraill, nid oes gan y Bwrdd Iechyd safleoedd 'llawdriniaeth oer' pwrpasol ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn safleoedd lle y gellir amddiffyn gweithgarwch llawfeddygol rhag effaith pwysau sy'n gysylltiedig â gofal brys a gofal argyfwng. Yn ddiweddarach yn 2024-25, eir i'r afael â hyn yn rhannol pan fydd theatrau ychwanegol, lleoedd ar wardiau a gwaith adnewyddu'r adran radiograffeg ar gael ar gyfer defnydd clinigol, gan greu cyfleusterau orthopedig safleoedd oer pwrpasol ac sy'n addas at eu diben. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ystyried potensial capasiti llawfeddygol a diagnostig safleoedd oer, er mwyn datgan yn gliriach sut yr eir i'r afael â hyn. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, greu achos dros ehangu gwaith prosiect Llandudno ymhellach ar gyfer cam 2.

Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd fynediad at gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ategu lleihau pwysau ôl-groniadau o ran arosiadau hir, ac i gynnal y meysydd gofal wedi'i gynllunio hynny sydd o dan straen yn benodol. Mae rhagdybiaethau yn y cynlluniau hyn yn cynnwys dyrannu'r cyllid hwn dros dro yn ôl y meysydd anghenion a'r effeithiau mwyaf. Yn gyntaf, bydd mynediad at gymorth adnoddau ychwanegol yn y sefydliad yn gofyn am gytuno ar egwyddorion cynhyrchiant GIRFT, a'u mabwysiadu'n ddilynol. Wrth wneud hyn, bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn ystyried lleihau amrywiadau o ran mynediad ar draws ardal daearyddol Gogledd Cymru.

Tra bod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r arosiadau a'r perfformiad presennol, caiff gwaith blaenoriaeth ei ddatblygu er mwyn paratoi'n well ar gyfer gofynion gofal wedi'i gynllunio yn y dyfodol y mae adroddiad Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd "Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy" yn ei amlinellu. Mae'r prif negeseuon o hyn wedi'u crynhoi mewn rhannau cynharach o'r

cynllun hwn, a chânt eu defnyddio i fod yn sail i greu ein strategaeth deng mlynedd a amlinellir ym Mlaenoriaeth 2A. Fodd bynnag, mae'r negeseuon perthnasol yn cynnwys

- Cynnydd mewn effaith gofal wedi'i gynllunio ym maes gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn deillio o nifer cynyddol o bobl yn byw gyda chyflyrau hirdymor. Mae gwaith yn y meysydd hyn yn cynnwys atal (gan fod llawer o'r cyflyrau hyn yn ataliadwy), gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd barhau i wella datblygu llwybrau gofal cyfan o 'un pen i'r llall' ar gyfer cyflyrau hirdymor sy'n gwella cyfraniad a gofynion capasiti'r elfennau gwahanol hyn. Yn ystod 2023, mae gwaith wedi cael ei gwblhau mewn nifer o'r meysydd hyn yn cynnwys asesiadau gwireddu buddion i gynnal gwaith ail-gydbwyso adnoddau a chanlyniadau gwell disgwylidig. Yn ystod 2024, caiff hyn ei ymestyn i gynnwys meysydd eraill, yn anad dim diabetes.
- Bydd mwyfwy o bobl yng Nghymru yn byw gyda chyflyrau hirdymor lluosog, gyda chyfran y bobl sy'n byw gyda phedwar neu fwy o glefydau'n dyblu rhwng 2015 a 2035, ac mae gofyn i bobl sy'n byw gyda chlefydau lluosog fynd i nifer uwch o lawer o apwyntiadau cleifion allanol ar hyn o bryd. Bydd y Bwrdd lechyd yn ystyried opsiynau'n ymwneud â chynorthwyo unigolion sydd â chyflyrau hirdymor lluosog, gan anelu at ddod o hyd i ffyrdd o leihau baich apwyntiadau lluosog sy'n gallu cael effaith sylweddol ar yr unigolyn a gofalwyr.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod yr angen yn gadarn i wella perfformiad gofal wedi'i gynllunio, ac mae angen mwy o gynhyrchiant ac effeithlonrwydd er mwyn canolbwyntio ar leihad parhaus o ran yr arosiadau hiraf. Mae cynnydd wedi cael ei wneud yn benodol ar gyfer y rhai sydd â'r arosiadau hiraf, ond mae dal gormod o gleifion yn aros am gyfnodau hir ar gyfer ymyriadau gofal wedi'i gynllunio.

Mae angen hefyd i'r Bwrdd lechyd newid yr ymagwedd mewn rhai meysydd gofal wedi'i gynllunio er mwyn paratoi'n well ar gyfer y galw presennol a galw yn y dyfodol.

Blaenoriaethau

Yn 2024-25, bydd y Bwrdd lechyd yn

- Canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaeth gweinidogion i leihau arosiadau hir am Ofal wedi'i Gynllunio trwy ganolbwyntio cymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn y meysydd hynny sydd â'r arosiadau hiraf, trwy ganfod amrywiadau ar draws y Bwrdd lechyd ac amrywio gydag arfer gorau GIRFT.
- Gwneud gwelliannau i'r ffordd y caiff apwyntiadau a gweithredoedd eu trefnu, er mwyn gwneud y broses yn fwy effeithlon ac yn fwy cyfleus a hygyrch i gleifion.
- Gwneud gwaith pellach i ddilysu rhestrau aros er mwyn cael darlun mwy manwl-gywir o'r galw presennol, gan gydnabod y gall gofynion cleifion newid tra byddant ar restrau aros.
- Cynnal, ac mewn manau cynyddu, momentwm o ran cymhwyso argymhellion Ei Wneud yn lawn y Tro Cyntaf (GIRFT). Mae meysydd gofal wedi'i gynllunio lle bo argymhellion GIRFT yn cael

eu datblygu yn cynnwys llawfeddygaeth gyffredinol, offthalmoleg, wroleg, gynaecoleg ac orthopedeg, lle bo gormod o gleifion yn aros cyfnodau hir am driniaeth. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno rhestrau theatr Cyfaint Mawr, Cymhlethdod Isel (HLVC).

- Cwblhau'r adeiladau newydd ac adnewyddu Ysbyty Llandudno i greu canolfan orthopedig dewisol, ac mae disgwyl i'r cleifion cyntaf dderbyn triniaeth yn ystod 2024-25. Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith ar y gweill i ddylunio cam 2 gwaith ehangu i ddatblygu hwb llawfeddygol dewisol yn Llandudno.
- Parhau â gwaith i fynd i'r afael â gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio sy'n 'wynebu heriau' gan gynnwys ym maes orthodonteg a dermatoleg. Rhoddir manylion pellach am gynlluniau gwella yn y meysydd hyn o dan Flaenoriaeth 4J.
- Ymgymryd â gwaith pellach i ddeall y cynnydd mewn cyfraddau cyfeirio yng Ngogledd Cymru o gymharu gwybodaeth feincnodi gan Fyrddau lechyd eraill. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd lechyd yn ceisio deall effaith rhoi plattform Llwybrau lechyd Cymunedol ar waith mewn Byrddau lechyd eraill. Fel sefydliad sy'n awyddus i gymhwyso'r dystiolaeth orau ar gyfer yr holl benderfyniadau, bydd y Bwrdd lechyd yn cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer Llwybrau lechyd Cymunedol os yw tystiolaeth yr effaith yn ategu hyn gan gynnwys ymgorffori gwersi a ddysgwyd gan Fyrddau lechyd sydd eisoes wedi'i roi ar waith.
- Parhau i ymgorffori defnydd o'r llwybrau wedi'u hailgynllunio y cyfeiriwyd atynt uchod, sydd wedi bod yn canolbwyntio ar gyflyrau hirdymor, ac sy'n mabwysiadu ymagwedd 'o un pen i'r llall' yn cynnwys atal hyd at ofal trydyddol lle bo'n berthnasol. Yn ogystal, yn ystod 2024-25, bydd y Bwrdd lechyd yn parhau i roi'r llwybrau hynny sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar waith, gan gynnwys diabetes, a bydd yn adolygu effaith yr ymagwedd hon.
- Ymgymryd â gwaith i ganfod y potensial am gyfluniadau gwasanaeth gwahanol a'r effaith y byddent yn ei chael i'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor lluosog, gan geisio rhoi gofal wedi'i gydlyn'u'n well gan arwain at lai o ymweliadau â'r ysbyty. Bydd hyn yn sail i'r gwaith yr ymdrinnir ag ef mewn mannau eraill ar ein strategaeth deng mlynedd (blaenoriaeth 2A), ac ar werth a chynaliadwyedd (blaenoriaeth 1E) yn benodol. Gan ddibynnu ar ganfyddiadau ac argymhellion y gwaith hwn, bydd y Bwrdd lechyd yn ceisio rhoi cynnig gwahanol ar waith ar gyfer y rhai sydd â chyflyrau hirdymor lluosog yn ystod blwyddyn 2025-26.
- Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd o ran modelu 'Galw' yn erbyn 'Capasiti' (modelu Galw a Chapasiti) ym maes gofal wedi'i gynllunio, ac wrth ystyried cyfleoedd cynhyrchiant sy'n deillio o arfer gorau GIRFT a meincnodi arall, ond mae'n cydnabod y byddai'n fuddiol i aeddfedu ein hymagwedd tuag at hyn ymhellach. Yn ystod 2024-25, bydd y Bwrdd lechyd yn achub ar y cyfle i gael cymorth gan gydweithwyr yn GIG Cymru er mwyn datblygu'r sgiliau hyn a chapasiti ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys defnydd lleol o ddata meincnodi a fydd yn cael ei roi i ni fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Cenedlaethol Gwerth a Chynaliadwyedd.
- Monitro effaith gofal wedi'i gynllunio ychwanegol a chymorth cyllid cynaliadwyedd er mwyn sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf posibl o ran cyflawni blaenoriaethau gweinidogion gofal wedi'i gynllunio. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cymhwyso egwyddorion fel y rhai a amlinellir gan GIRFT wedi cael eu gwella gymaint â phosibl mewn meysydd gwasanaeth cyn ymrwymo adnoddau ychwanegol.
- Ymrwymo i ddefnyddio technoleg 'Teledermosgopi' i wella effeithlonrwydd o ran amseroedd aros dermatoleg ac i leihau teithiau y gellid eu hosgoi i gleifion. Mae'r materion seilwaith

presennol yn cyfyngu ar y cyflymder y byddai'r Bwrdd Iechyd yn hoffi rhoi hyn ar waith. Oherwydd y misoedd sydd i ddod, bydd y Bwrdd Iechyd yn ailasesu'r sefyllfa hon i ganfod unrhyw gyfle i hwyluso'r broses o roi ar waith.

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran amseroedd aros mewn rhai meysydd, er enghraifft, cyfeiriadau at ganser y brostad, trwy ddefnyddio ymagweddau sy'n cynnig mynediad uniongyrchol i brofion diagnostig gofal eilaidd ar gyfer cleifion cyn cael eu gweld gan glinigwyr arbenigol. Wrth ystyried bod hyn yn elfen allweddol o ailgynllunio llwybr y Bwrdd Iechyd, yn ystod 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried cyfleoedd pellach i roi 'yn syth at brofion' ar waith mewn meysydd lle nad yw ailgynllunio llwybrau ehangach wedi'i drefnu ar hyn o bryd.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Bydd datblygu'r gweithgareddau uchod yn arwain at leihad mewn meintiau rhestrau aros a hyd arosiadau'n gyffredinol, gyda ffocws penodol ar y cleifion sydd wedi bod yn aros hiraf.

Bydd y gweithgareddau hyn yn arwain at well profiad i gleifion a llai o deithio diangen. Caiff adnoddau'r Bwrdd Iechyd eu defnyddio'n well, gan ganiatáu i fwy o ofal gael ei roi.

4F: Gofal Canser

Nodwch mai crynodeb o'r Cynllun yw hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y templedi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Canser sy'n ategu'r cynllun trosfwaol hyn fel atodiadau.

Mae rhaglen Gofal Canser y Bwrdd Iechyd wedi'i alinio â rhaglen genedlaethol Gofal wedi'i Gynllunio a Chanser Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2023-24, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio i amlinellu map trywydd gofal canser ar gyfer y pum mlynedd sydd i ddod, gan gydnabod bod yr ymagwedd strwythuredig yn hollbwysig i wella canlyniadau canser yn y rhanbarth. Mae Bwrdd Partneriaeth Canser Gogledd Cymru, a sefydlwyd yn 2022 i wella gofal canser yn y rhanbarth yn dod â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, cleifion, a gofalwyr at ei gilydd i gydlynu a gwella gwasanaethau canser ac mae wedi goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu'r map trywydd hwn.

Mae dros 4,500 o bobl yng Ngogledd Cymru yn derbyn diagnosis canser bob blwyddyn sy'n cynrychioli cynnydd o 18% dros yr ugain mlynedd diwethaf. O fewn y cynnydd cyffredinol hwn, mae nifer o ganserau wedi cynyddu'n sylweddol (gyferbyn).

Math o ganser	Newid i ddiagnosisau canser (2002-19)	Cynnydd o %
Wroleg	+269	50%
Colorhefrol	+95	15%
Bron	+91	15%
Melanoma (y croen)	+79	64%
Y Pen a'r gwddf	+59	50%

Ffigur 5: Newidiadau i ddiagnosisau canser

Gwnaeth Canser Research UK gyhoeddi ffigurau ym mis Ionawr 2023 sy'n dangos y bydd amllder canser yn codi o 30% erbyn 2040, gyda chynnydd yn benodol mewn canserau'r aren, y brostad, y croen a'r pancreas, wedi'i lywio'n benodol gan boblogaeth sy'n heneiddio a ffactorau ffordd o fyw, yn enwedig ysmegu a gordewdra.

Mae hyn wedi'i ategu gan ganfyddiadau adroddiad Prif Gynghorydd Gwyddonol ar gyfer lechyd Cymru "Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy" sy'n nodi llenyddiaeth gyhoeddedig sy'n rhagweld amllder cynyddol mewn cyfraddau canser yn gyffredinol, a chanser y coluddyn a'r fron yn ogystal â'r rhai uchod.

Mae 53% o ganserau'n cael eu diagnosis yn dilyn cyfeiriad am ganser gofal sylfaenol tybiedig, gyda bron 40,000 o gyfeiriadau o'r fath bob blwyddyn, sydd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn yn unol ag arweiniad ac arfer gorau a'r nod yw cynyddu cyfraddau diagnosis cynnar gan fod 7% o gyfeiriadau canser tybiedig gofal sylfaenol yn arwain at ddiagnosis canser ar hyn o bryd, sy'n uwch na lefel yr arweiniad cenedlaethol o 3%. Mae'r rhai sy'n weddill yn codi yn dilyn cyfeiriadau nad ydynt ar gyfer canser (32%), fel rhan o raglen sgrinio (8%) neu'n dilyn derbyniad mewn achos brys (7%).

Mae cyfraddau goroesi canser yng Ngogledd Cymru yn unol â chyfraddau goroesi cyfartalog yng Nghymru ar lefel ystadegol.

Mae amseroedd cyfeirio at ddiagnosis y Bwrdd lechyd ar gyfer y llwybr canser yn gymharol gryf ond nid yw'r Bwrdd lechyd eto'n cydymffurfio'n llawn â'r llwybr canser tybiedig o 62 diwrnod ym maes Dermatoleg.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r Bwrdd lechyd yn awyddus i barhau i adeiladu ar arosiadau cyfeirio at ddiagnosis canser hanesyddol sy'n gymharol dda, a gwella canlyniadau, trwy fynd i'r afael â'r meysydd gofal canser hynny sy'n dal i fod yn heriol ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd ac ym maes diagnosteg canser.

Mae recriwtio a chadw staff arbenigol wedi arwain at anawsterau dros y blynyddoedd diwethaf ond bu gwelliannau'n ddiweddar. Mae'n flaenoriaeth allweddol erbyn hyn i ymgorffori hyn.

Mae cyfleoedd i wella profiad cleifion sydd â rhai mathau o ganser lle bo triniaeth yn cael ei rhoi y tu allan i Ogledd Cymru ar hyn o bryd.

Blaenoriaethau

Yn y cynllun hwn, bydd y Bwrdd lechyd yn canoli gwelliannau i ofal canser ynghylch y meysydd canlynol:

- Cynnal safonau mynediad ar gyfer triniaeth o fewn 62 diwrnod erbyn diwedd 2025

- Rhoi ein 'map trywydd gwasanaethau canser' dan arweiniad clinigol ar waith ar gyfer y Bwrdd Iechyd, ac wrth wneud hynny, cyfrannu at lunio strategaeth deng mlynedd y Bwrdd Iechyd.
- Gwaredu'r ôl-groniad o gyfeiriadau canser tybiedig ym maes dermatoleg, gan gynnwys rhoi defnydd o Deledermosgopi ar waith.
- Ym maes Wroleg, adeiladu ar lwyddiant ailgynllunio llwybr biopsi mpMRI y Bwrdd Iechyd lle mae amseroedd diagnostig wedi lleihau'n sylweddol, gan ddefnyddio'r ysgogiad hwn i ddiwygio ein model cyffredinol ar gyfer gofal canser wroleg a llwybrau ychwanegol yn y dyfodol.
- Ym maes colorefrol, cynnal gwelliannau mewn amseroedd aros endosgopi a wnaed yn ystod 2023-24, ac adolygu llwybrau colorefrol y Bwrdd Iechyd gan gynnwys gwneud gwaith i alinio gofynion gweithlu'n agos i gynnal galw yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys adeiladu ar lwyddiannau modelau brysbennu gofal dan arweiniad nyrsys yn y Bwrdd Iechyd.
- Bwrw ymlaen i roi clinigau Gwaedu ar ôl y Menopos (PMB) ar waith ym maes gynaeoleg ar bob safle ysbyty aciwt.
- Ym maes oncoleg, bwrdd y Bwrdd Iechyd yn datblygu'r cynllun gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer oncoleg, gan ganolbwyntio ar strategaeth y gweithlu.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Bydd y gweithgareddau uchod yn arwain at wasanaeth mwy gwydn ar gyfer trigolion yng Ngogledd Cymru, gan alluogi'r Bwrdd Iechyd i gynnal amseroedd aros rhwng cyfeirio a diagnosis. Bydd y gweithgareddau hefyd yn arwain at gyflwyno mwy o ofal yng Ngogledd Cymru, gan arwain at deithiau llai hir i unigolion sydd â chanser.

4G: Gofal Argyfwng a Gofal Brys

Nodwch mai crynodeb o'r Cynllun yw hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y templedi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Gofal Argyfwng a Gofal Brys sy'n ategu'r cynllun trosfwaol hwn fel atodiadau.

Darperir gofal brys ar gyfer cleifion nad yw eu salwch neu eu hanaf yn achos brys sy'n bygwth bywyd. Mae dadansoddiadau'n dangos y gallai nifer sylweddol o gleifion sy'n cael mynediad at Adrannau Achosion Brys mewn Byrddau Iechyd eraill fod wedi cael eu trin mewn lleoliadau gofal iechyd eraill fel lleoliadau unedau mân anafiadau, gan wasanaethau y tu allan i oriau gofal sylfaenol (gan gynnwys 111) neu mewn llawer o achosion gan wasanaethau gofal wedi'i gynllunio mewn lleoliadau llai brys. Mae cyfeirio, ochr yn ochr â sicrhau mynediad prydlon digonol at wasanaethau gofal wedi'i gynllunio, yn parhau i fod yn bwysig o ran lleihau galw y gellid ei osgoi ar wasanaethau gofal Brys ac Argyfwng.

Yn 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi pwyslais parhaus a chyson ar wella ansawdd gofal, profiad cleifion a chysondeb canlyniadau o fewn gwasanaethau gofal brys ac argyfwng, gan gydnabod bod dal angen gwelliannau sylweddol i gyflawni'r safonau perfformiad a ddisgwyllir fel rhan o flaenoriaethau'r Gweinidogion.

Er bod amseroedd brysbennu wrth gyrraedd yr Adran Achosion Brys wedi dangos tuedd bositif sy'n lleihau'n gyson dros y 12 mis diwethaf, mae amseroedd aros i weld uwch benderfynwr clinigol yn

ddiweddarach yn parhau i fod yn annerbyniol i'r Bwrdd Iechyd gan fod arosiadau canolrifol yn parhau i fod yn uwch o lawer na'r rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd eraill.



Mewn ymateb i hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio i addasu Rhaglen Genedlaethol Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng. Mae rhaglen y chwe nod yn cydnabod bod y pwysau sy'n cael ei weld a'i deimlo yn yr Adrannau Achosion Brys, a chan ein cydweithwyr yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST), yn gofyn am ddatrysiadau nad ydynt i'w rhoi ar waith mewn Adrannau Achosion Brys ond sydd hefyd yn gofyn am wneud gwaith ar y cyd mewn lleoliadau cymunedol er mwyn lleihau derbyniadau ac i leihau oedi o ran

rhyddhau'r rhai sy'n ddigon iach i adael yr ysbyty, ond hefyd gwaith i wella llif trwy rannau ehangach o'n hysbytai. Ym mhob un o'r meysydd hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod cyfleoedd i wella perfformiad.

Yn ystod 2024-25, bydd gofyn am ymagwedd newydd i sicrhau bod rhoi'r rhaglen hon ar waith ar lefel leol yn cael effaith. Bydd hyn yn cynnwys manteisio ymhellach ar gefnogaeth cydweithwyr yn GIG Cymru, â dod â mwy o fanwl-gywirdeb a dulliau rheoli ar sail tystiolaeth i'r rhaglen newid fel y gellir dangos tyniant yn erbyn metrigau cytunedig a mynd i'r afael â hyn ar garlam lle nad felly yw hi. I wella hyn, bydd y Bwrdd Iechyd yn dod â'r rhaglen chwe nod lleol presennol o dan nawdd Portffolio Newid Mawr Swyddfa Rheoli Rhaglenni y cyfeirir atynt ym mlaenoriaeth 2F. Cyflwynwyd y flaenoriaeth hon i fynd i'r afael â'r ymagwedd hanesyddol eang tuag at sicrhau newid effeithiol yn y Bwrdd Iechyd nad yw bob amser wedi bod mor effeithiol ag y byddai wedi bod o gael mwy o ymlyniad i fethodoleg rheoli newid ar sail tystiolaeth a mwy o gysondeb ar draws sefydliad Bwrdd Iechyd unigol.

Yn unol â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i gyflwyno gwelliannau mawr ar draws hyd a lled rhaglen y Chwe Nod. Bydd hyn yn cynnwys y gwelliannau a amlinellir yn 'Natganiad ansawdd gofal mewn adrannau achosion brys,' Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024²⁰.

Bydd mwyfwy o bobl yng Nghymru yn byw gydag eiddilwch. Mae tystiolaeth yn dangos bod arnynt angen gwell mynediad at wasanaethau ysbyty brys ac argyfwng oherwydd hyn a'u bod hefyd yn profi oedi cyn cael eu rhyddhau ar ôl aros yn yr ysbyty; er bod hyn eisoes wedi'i gynnwys yn rhaglen y Chwe Nod, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydnabod yr angen i wella ei ymateb i eiddilwch yn ystod 2024-25.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

²⁰ <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-03/care-in-emergency-departments-quality-statement.pdf>

Cynllun Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng yw'r rhaglen genedlaethol ar sail tystiolaeth i wella gofal brys ac argyfwng. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i brofi oedi mawr o ran asesu a thrin ar draws lleoliadau Brys ac Argyfwng nad ydynt yn dderbyniol. Mae'r rhain yn cael effaith ar ein partneriaid, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), ac mae'n cynnwys cyfnodau gofal y gellid eu cyflawni mewn ffyrdd eraill ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae rhaglen y Chwe Nod yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd gynnal ffocws ar garfan y cleifion sy'n 'eiddil'. Mae tystiolaeth yn dangos bod ar y rhan fwyaf o'n cleifion eiddil angen am wasanaethau brys ac argyfwng yn aml iawn, ond mae gwneud defnydd o'r gwasanaethau hynny y gellid ei osgoi hefyd yn cael effaith arbennig o nodedig arnynt hwy a'u teuluoedd. Mae angen i gynlluniau'r Bwrdd Iechyd dargedu gwella gwasanaethau ymhellach ar gyfer ein poblogaethau eiddil gyda ffocws ar leihau hyd arosiadau, a llif cleifion trwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Blaenoriaethau

Yn ystod blwyddyn 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu'r meysydd a ganlyn:

- Alinio Rhaglen y Chwe Nod lleol â rhaglen newid mawr y Bwrdd Iechyd er mwyn gwella dulliau rheoli newid a chapasiti ac ymagwedd y rhaglen ac i adlewyrchu'r Bwrdd Iechyd fel sefydliad unigol. Wrth wneud hynny, caiff dadansoddiad ei gynnal er mwyn canfod meysydd lle y byddai disgwyl i newid ymagwedd neu ffocws gael effaith newydd.
- Gwelliannau o ran Gwasanaethau Gofal Brys ar yr Un Diwrnod (SDEC), gan gynnwys gwell cysondeb ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan, gweithgarwch cynyddol yn SDEC, a chynnydd mewn derbyniadau ambiwlans sy'n cael eu cyfeirio'n syth at SDEC.
- Gwelliannau i ddefnydd sy'n cynnwys ambiwlansys ac nad ydynt yn cynnwys ambiwlansys mewn Unedau Mân Anafiadau (MIU).
- Ffocws parhaus ar leihau hyd arhosiad cleifion mewnol (LOS) trwy fentrau Oedi o ran Llwybrau Gofal, gan gynnwys lleihau oedi o ran asesu.
- Ehangu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol fel dewis amgen i ddefnyddio gwasanaethau gofal meddygon teulu ac ysbytai brys.
- Cynnal adolygiad o ddichonoldeb cyfuno cleifion sy'n briodol i'w rhyddhau ar lefel feddygol mewn wardiau cymorth sydd wedi'u hoptimeiddio i ail-alluogi yn hytrach na gofal â ffocws meddygol.
- Wedi'u halinio â dod â rhaglen y Chwe Nod lleol yn amgylchedd rheoli newid mwy cadarn, o dan Bortffolio Newid Mawr y Swyddfa Rheoli Rhaglenni, bydd y Bwrdd Iechyd yn manteisio ar arbenigedd cydweithwyr yn GIG Cymru i ddatblygu cynllun gwella pum mlynedd ar ei newydd wedd ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng yn y Bwrdd Iechyd.
- Gwelliannau i amseroedd trosglwyddo rhwng ambiwlansys, gan weithredu o fewn goddefgarwch system cytunedig ac yn alinio â Phrotocolau Ysbyty Llawn yng Ngogledd Cymru.

Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Bydd gwelliannau i oedi yn y Bwrdd Iechyd o fewn lleoliadau Gofal Brys ac Argyfwng yn arwain at brofiad gwell i gleifion.

Bydd argaeledd a defnydd gwell o wasanaethau priodol eraill yn arwain at brofiad a chanlyniadau gwell i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Trwy leihau pwysau, bydd hefyd yn arwain at brofiadau a chanlyniadau gwell i eraill lle bo dal angen gwasanaethau Gofal Brys ac Argyfwng.

4H: Diagnosteg

Nodwch mai crynodeb o'r Cynllun yw hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y templedi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Diagnosteg sy'n ategu'r Cynllun trosfwaol hwn fel atodiadau.

Gwnaeth y galw am weithredoedd gwasanaeth diagnostig, yn enwedig delweddu (uwchsain, sgan MRI/CT neu radiograffeg arall) barhau i dyfu yn 2023/24. Disgwylir i'r twf hwn gynyddu ar draws yr holl ddiagnosteg mewn ymateb i gyflyrau hirdymor cynyddol, a newidiadau i dechnoleg fel ag mewn ffiseg feddygol, twf genomeg a Deallusrwydd Artiffisial (AI), sy'n gofyn am fwy o ystyriaeth o fewn y cynlluniau strategol ar gyfer y deng mlynedd nesaf a amlinellwyd yn gynharach o fewn y cynllun hwn.

Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r datblygiadau cyffrous hyn er eu bod yn gymhleth ac yn heriol, mae'r Bwrdd Iechyd yn profi heriau o ran bodloni'r gofynion presennol o ran capasiti diagnostig, ac mae oedi diagnostig yn cyfrannu at oedi cyffredinol o ran triniaeth gofal wedi'i gynllunio. Mae gwasanaethau diagnostig effeithiol a phrydlon yn cyflawni rôl hollbwysig o ran llawer o lwybrau gofal o ran gofal wedi'i gynllunio a gofal brys ac argyfwng, er enghraifft, o ran ymchwilio i ganser, clefyd y galon, a strôc a'u monitro.

Yn y cyd-destunau hyn, mae angen datblygu cynhyrchiant yn ystod y flwyddyn a newidiadau i effeithlonrwydd ochr yn ochr ag ail-gyflunio i ddiwallu anghenion yn y dyfodol mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy ac yn canolbwyntio ar gleifion.

O ran gwasanaethau radioleg a delweddu, gallai'r Bwrdd Iechyd gael effaith sylweddol ar arosiadau gofal wedi'i gynllunio 'cam 1' trwy wneud gwell defnydd o gyfleoedd 'yn syth at brofi'. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi dangos canlyniadau da o wneud hynny, fel y lleihad nodedig o ran amser rhwng diagnosis yn achos canser y brostad yn ystod 2023-24. Mae ehangu'r ymagwedd hon at feysydd clinigol eraill wedi'u hymgorffori yn y gwaith ailgynllunio llwybrau o un pen i'r llall sy'n digwydd yn y Bwrdd Iechyd ond mae cyfleoedd pellach i hwyluso'r ymagwedd hon mewn meysydd sy'n dal i aros i lwybrau gael eu hail-ddylunio'n ehangach.

O ran gwasanaethau endosgopi, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu gwaith aildylunio ar raddfa fawr er mwyn gallu para capasiti â galw mewn ffyrdd cynaliadwy. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ddibynnol ar gontractio mewn symiau mawr o ran gwasanaethau endosgopi ychwanegol, sy'n cynnig gwerth is yn gyffredinol, ac mae ein cydymffurfiaeth â safonau Sgrinio Coluddion Cymru yn gofyn am welliant. Bydd y Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu mynd i'r afael â hyn yn ystod 2024-25 i nodi'r hyn sydd ei angen o ran gwasanaethau endosgopi yng Nghymru er mwyn

bodloni'r gofynion presennol ac i allu ymaddasu at y galwadau cynyddol y mae'r rhagolygon yn eu nodi ar gyfer y degawd sydd i ddod.

O ran ffiseg feddygol, mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn datblygu cynigion cyfalaf i wella darpariaeth meddygaeth niwclear yng Ngogledd Cymru, ac i ddarparu sganio Tomograffeg Allyriadau Positron (PET) yng Ngogledd Cymru. Mae ein darpariaeth bresennol ar gyfer meddygaeth niwclear wedi'i dosbarthu ar draws tri safle Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. Fodd bynnag, mae hwn yn faes hynod gymhleth, arbenigol ac sydd wedi'i reoleiddio sy'n gofyn am ei gyflunio i gyrraedd y safonau a ddisgwylir gan yr Arolygiaeth, ac er mwyn denu'r staff radiolegol angenrheidiol sydd â'r trwyddedau gofynnol i ymgymryd â diagnosteg niwclear. Yn ogystal, ni ellir cynnal offer arbenigol lle bo angen eu newid a'u diweddarau gyda gwydnwch digonol ar safleoedd lluosog.

Byddai'r cynlluniau sydd y gweill ar hyn o bryd i gynnig sganio PET parhaol yng Ngogledd Cymru yn cymryd lle cyfleusterau symudol rhan-amser sy'n ymweld â Gogledd Cymru. Nid yw'r cyfleusterau symudol hyn yn caniatáu i ni gyrraedd y galw ar hyn o bryd, ac nid oes modd eu defnyddio gyda chleifion a allai gymryd rhan mewn treialon ymchwil fel arall.

Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu y bydd cleifion lle bo angen sgan PET yn gorfod teithio i Warrington, Lerpwl, Manceinion ac mor bell i ffwrdd â Chaerdydd i gael eu sganio.

Ym maes teledermosgopi, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol trwy ddefnyddio ffotograffiaeth feddygol i gynnal brysbennu o bell ar gyfer cyflyrau dermatoleg. Mae hyn yn cynnwys y potensial i gyflymu oedi diagnostig ac i ddileu'r angen i gleifion teithio i leoliad y clinigwr sy'n rhoi diagnosis. Ymdrinnir â theledermosgopi yn adrannau 4E a 4J.

Ym maes gwasanaethau diagnostig labordy, gan gynnwys Patholeg Gellog, Gwyddorau'r Gwaed a Microbioleg, gwelwyd cynnydd o fwy na 10% o ran y galw yn 2023-2023, gyda phwysau cynyddol ar fodloni targedau diagnostig canser a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflog yn arwain at heriau penodol. Bydd y ffocws ar gyfer 2024-2025 yn gofyn i lwybrau a chapasiti gael eu halinio, gan flaenoriaethu gofal a mabwysiadau datrysiadau digidol.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae heriau perfformiad a chynaliadwyedd mewn nifer o feysydd diagnostig sy'n cael effaith andwyol ar amseroedd aros a phrofiad cleifion. Mae'r rhain yn gofyn am ymagwedd gymysg i fynd i'r afael â'r galw presennol ochr yn ochr â datrys problemau cynaliadwyedd yn y tymor hirach.

Blaenoriaethau

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i roi cynlluniau recriwtio a chadw staff ar waith ym maes radioleg, uwchsain, diagnosteg ym maes cardioleg a niwroffisioleg.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn canfod cyfleoedd 'prawf at syth' ychwanegol ac yn eu rhoi ar waith yn 2024-25.

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i ddatblygu datrysiadau seilwaith digidol critigol ym maes Patholeg a Radioleg.
- Ar gyfer 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn caffael darpariaeth endosgopi ychwanegol trwy ffynonellau mewnol i bontio'r bwlch rhwng capasiti mewnol y Bwrdd Iechyd a'r galw am endosgopi.
- O fewn chwarter 1 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn cymeradwyo cynllun manwl i fynd i'r afael â darpariaeth fewnol endosgopi'r Bwrdd Iechyd er mwyn lleihau dibyniaeth ar ddarpariaeth endosgopi ychwanegol trwy ffynonellau mewnol. Bydd y cynllun hwnnw'n cynnwys cynllun gweithlu cadarn sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o gymysgedd sgiliau anfeddygol, trywyddion ar gyfer cynnydd mewnol mewn capasiti i fod yn sail i'r angen am weithgarwch contract ychwanegol parhaus ar gyfer ffynonellau mewnol, ac ennill achrediad JAG (Cyd-grŵp Cynghorol ar Endosgopi GI).
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal cynnydd ar gyflwyno achosion busnes ar gyfer gwelliannau Meddygaeth Niwclear a sganiau PET yng Ngogledd Cymru.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud y defnydd gorau posibl o gapasiti diagnostig labordai, gwella llwybrau diagnostig gymaint â phosibl ac ystyried cynyddu defnydd o ddatrysiadau digidol er mwyn ateb y galw ar wasanaethau yn y ffordd orau bosibl.
- Ym maes ffiseg feddygol, mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn datblygu cynigion cyfalaf i wella darpariaeth meddygaeth niwclear yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys darparu sganiau Tomograffeg Allyriadau Positron (PET) yng Ngogledd Cymru.

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Bydd mynd i'r afael â'r blaenoriaethau uchod yn ein galluogi i gydbwysu'r galw a'r capasiti ym maes diagnosteg a fydd yn ei dro yn arwain at amseroedd aros gofal wedi'i gynllunio byrrach, a diagnosis cyflymach.

Bydd gwelliannau sganio niwclear yn ein galluogi i gyflawni arolygiadau rheoleiddiol a pharhau i ddarparu meddygaeth niwclear yng Ngogledd Cymru, gan leihau anghyfleustra i gleifion sy'n deillio o orfod teithio y tu allan i Ogledd Cymru.

Bydd sicrhau cefnogaeth achos busnes cyfalaf ar gyfer cyfleuster sganiwr PET parhaol yn gwella prydlondeb diagnosis a thriniaeth i'r cleifion hynny sydd angen sgan PET, yn cynyddu'r cyfle i gleifion cymwys gael cynnig llwybrau ymchwil, ac yn golygu llai o deithio i gleifion.

4I: Iechyd Meddwl Oedolion, Anabledd Dysgu, CAMHS a Niwroddatblygiad

Sylwch mai crynodeb o'r Cynllun yw hwn. Ceir rhagor o fanylion yn y templedi cynllunio Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl sy'n cyd-fynd â'r Cynllun trosfwaol hwn fel atodiadau.

Mae rhaglen Iechyd Meddwl Oedolion, Anableddau Dysgu a CAMHS y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â rhaglen Iechyd Meddwl genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Mae uwch adran Iechyd meddwl oedolion y Bwrdd Iechyd yn darparu ac yn comisiynu gwasanaethau triniaeth, cymorth a chynghor Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu i ddinasyddion 18 oed a hŷn ar draws Gogledd Cymru ac i rai dinasyddion gogledd Powys. Mae'r uwch adran hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth camddefnyddio sylweddau yn ogystal â chynnal llinellau cymorth cenedlaethol ar gyfer Cymru: Llinell Gymorth a Gwranddo Gymunedol (CALL), Llinell Gymorth Dementia a Rhwydwaith Cyffuriau ac Alcohol (DAN).

Mae'r flaenoriaeth hon yn cynnwys yr holl wasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a gwasanaethau Niwroddatblygiadol (ND). Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd, er bod rhywfaint o gomisiynu y tu allan i Ogledd Cymru ar gyfer gofal cleifion mewnl CAMHS cymhleth a rhai gwasanaethau niwroddatblygiadol.

Yn yr un modd ag Iechyd Meddwl, mae ein blaenoriaethau Anableddau Dysgu yn drawsbynciol, gan gydnabod bod pobl ag anableddau dysgu yn wynebu problemau ar draws ystod eang o feysydd gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r grŵp gwella cenedlaethol (LD-NIG) a sefydlwyd i gefnogi a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r cynllun cenedlaethol, darparu sianel gyfathrebu rhwng y lefel leol a'r lefel genedlaethol, rhannu'r hyn a ddysgir o gamau gweithredu lleol a datblygu dangosyddion allweddol i fesur ansawdd a gaiff ei ymgorffori yn y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi bod yn destun craffu sylweddol dros nifer o flynyddoedd mewn perthynas â nifer o ymholiadau a chynlluniau gweithredu. Gwelwyd gwelliannau cynyddol ar draws y gwasanaeth ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwneud cynnydd pellach i osod y gwasanaeth ar sylfaen gynaliadwy gan gyflawni canlyniadau sy'n gyson uchel.

Mae'r adolygiadau allanol a gynhaliwyd yn 2023-24 fel rhan o'r Mesurau Arbennig, yn rhoi cyngor ar feysydd i ganolbwyntio arnynt yn 2024-25 a thu hwnt. Yn ogystal â'r rhain, mae angen i waith a flaenoriaethir barhau mewn ymateb i erlyniad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymwneud â phwyntiau clymu.

O fewn CAMHS mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i barhau i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned sy'n rhoi cefnogaeth amserol i unigolion ac sy'n lleihau'r defnydd o ofal cleifion mewnl y gellir ei osgoi o safbwynt clinigol. O ran gofal cleifion mewnl, bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu gwaith i ddeall y cyfluniad a'r lleoliad gorau posibl ar gyfer gofal CAMHS i gleifion mewnl.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno gwneud cynnydd sylweddol yn 2024-25 i leihau nifer yr asesiadau sydd ag amseroedd aros hir ar gyfer y gwasanaethau Niwroddatblygiadol gan ganolbwyntio'n benodol ar blant. Bydd hyn yn golygu newid dull gweithredu i sicrhau cynaliadwyedd ochr yn ochr â mwy o gapasiti.

Blaenoriaethau

Yn unol â'r Rhaglen Genedlaethol Iechyd Meddwl a'r adolygiadau allanol y cyfeirir atynt uchod, bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu'r meysydd canlynol yn y cynllun hwn:

Iechyd Meddwl Oedolion:

- Dull gwell o Ddatrys Argyfwng ar gyfer Timau Iechyd Meddwl Cymunedol.
- Datblygu Gwasanaeth Anhwylderau Bwyta sy'n darparu gwasanaeth Haen 2 a darpariaeth frys, yn unol â safonau'r Coleg Brenhinol Seiciatreg.
- Datblygu gwasanaethau amenedigol i gefnogi cydymffurfiaeth â safonau cymunedol amenedigol y Coleg Brenhinol Seiciatreg.
- Cyflwyno ymagwedd sy'n seiliedig ar drawma i agweddau cleifion mewnol a chymunedol Gwasanaeth Fforensig Gogledd Cymru a Gwasanaethau Adsefydlu Arbenigol.
- Datblygu'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis.
- Cwblhau gwaith gwrth-glymu.
- Gwaith datblygu Llwybrau Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol.

CAMHS:

- Datblygu cynlluniau i ehangu ein gwasanaeth argyfwng i gynnwys cyfnodau o ddarpariaeth y tu allan i oriau.
- Parhau i ail-lunio ein model cyflawni i ddarparu mwy o fewngymorth i leoliadau gofal sylfaenol a lleoliadau ysgol, gan weld plant yn agosach at eu cartrefi.
- Ehangu gwasanaeth cymorth cymunedol dwys arbenigol CAMHS i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu cartrefi fel dewis amgen i dderbyniadau i'r ysbyty.
- Datblygu llwybrau pontio ar gyfer cyflyrau hirdymor o fewn plentyndod.
- Parhau i ddatblygu, gyda phartneriaid, y 'Dull Drws Cywir'.
- Atgyfnerthu a gwreiddio gwaith a wnaed gyda gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion i wella'r pontio rhwng gwasanaethau.

Niwroddatblygiad (ND):

- Bwrw ymlaen â datblygu model niwroddatblygiadol ar gyfer Gogledd Cymru sy'n cydbwysu galw a chapasiti yn well.

- Cwtogi amseroedd aros hir o fewn y gwasanaeth trwy weithredu'r model ND y cytunwyd arno.
- Archwilio dulliau llai meddygol ar gyfer asesiadau brysbennu ac ar gyfer mynd i'r afael â chyflwyniadau aciwtedd is er mwyn helpu i gydbwyso galw a chapasiti, gan arwain at gwtogi amseroedd aros.

Anabledd Dysgu:

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â chyflawni'r cynllun gweithredu cenedlaethol gan gynnwys
 - ymyrraeth gynnar ac ymateb i argyfwng gan ddarparu mynediad at ofal iechyd anableddau dysgu arbenigol darbodus yn agos at y cartref
 - cynyddu mynediad at ofal arbenigol sy'n adlewyrchu arfer gorau cyfredol
 - gwella pontio amserol o ofal ysbyty arbenigol i leoliadau cymunedol
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir i leihau marwolaethau cynamserol y gellir eu hosgoi a lleihau anghydraddoldebau iechyd ymhlith y rhai sy'n dysgu ag anableddau dysgu.

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Bydd gweithredu'r camau hyn yn arwain at ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl mwy cyson yng Ngogledd Cymru, a fydd yn cyd-fynd ag arfer gorau a chanllawiau cenedlaethol. Bydd hyn yn gwella mynediad at wasanaethau ynghyd â phrofiad y defnyddiwr.

4J: Gwasanaethau sy'n cael eu Herio ar Hyn o Bryd

*Sylwch fod blaenoriaeth 2J: Mae dynodi Gwasanaethau sy'n Cael eu Herio yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth hon. Mae blaenoriaeth 2J yn canolbwyntio ar sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn nodi gwasanaethau sy'n cael eu herio yn gynharach er mwyn **atal** dirywiad drwy fynd i'r afael ag ailgyflunio yn gynharach. Mae'r flaenoriaeth yma yn canolbwyntio ar sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â'r gwasanaethau hynny y nodwyd eu bod yn cael eu herio ar hyn o bryd.*

Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o wasanaethau clinigol lle mae'n anodd cynnal gwasanaeth dibynadwy a chyson. Mae nifer o'r gwasanaethau hyn yn ei chael hi'n anodd datrys eu hôl-groniad o weithgarwch gofal wedi'i gynllunio mor gyflym ag sy'n ofynnol. Mae amryw o resymau pam fod rhai gwasanaethau'n cael eu herio ond un canfyddiad cyffredin yw bod y gwasanaeth yn anghynladwy oherwydd y ffordd y mae wedi'i ffurfweddu, a bod ad-drefnu yn gam hanfodol i ddod yn sefydlog a gallu darparu'r gwasanaeth effeithlon ac o ansawdd uchel sydd ei angen. Er bod llawer o wasanaethau sy'n cael eu herio hefyd yn wynebu anawsterau o ran y gweithlu, mae'r rhain yn aml yn deillio o faterion strwythurol sy'n golygu y byddai gofynion y gweithlu yn parhau i fod yn amhosibl mynd i'r afael â nhw heb ad-drefnu.

Mewn dermatoleg, effeithiwyd ar ddarpariaeth gwasanaeth oherwydd swyddi gwag meddygol allweddol sydd wedi effeithio'n arbennig ar ddarpariaeth gwasanaeth yng Ngorllewin Gogledd Cymru. Yn ei dro mae hyn wedi effeithio ar amseroedd aros ac, mewn rhai achosion, mae cleifion wedi gorfod teithio ymhellach na'r disgwyl i gael asesiad a thriniaeth. Bydd gwaith yn parhau yn ystod 2024-25 i sefydlogi'r gwasanaeth a nodi'r cyfluniad gorau posibl ar gyfer y gwasanaeth.

Mae sefydlogrwydd gwasanaethau Oncoleg wedi gwella'n sylweddol yn ystod 2023-24 o ganlyniad i recriwtio llwyddiannus i'r gweithlu meddygol. Mae hyn wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i symud ymlaen gyda cham nesaf y gwelliannau sydd eu hangen i gynnal y gwelliant hwn.

Mae cleifion yng Ngogledd Cymru yn aros am gyfnodau hwy na'r disgwyl am driniaeth Offthalmoleg. Ymhlith yr heriau mae seilwaith ystad gwael a bylchau mewn staffio meddygol. Mae cyfleoedd i wella cynaliadwyedd a lleihau amseroedd aros trwy weithio'n agosach ag optometryddion a chydweithwyr gofal sylfaenol eraill.

Mae'r gallu i weld cleifion sy'n aros am driniaeth orthodontig wedi'i effeithio gan swyddi gwag mewn llawdriniaeth orthodontig arbenigol. Ceir anawsterau recriwtio hefyd y tu allan i'r Bwrdd Iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i gyfeirio cleifion y tu allan i Ogledd Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn GIG Cymru i ddynodi opsiynau amgen.

Mae gwasanaethau llawfeddygaeth blastig yng Ngogledd Cymru yn cael eu darparu mewn partneriaeth â darparwyr arbenigol yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Mae cynllun gwella'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i gyfleoedd i wella'r rhyngwyneb rhwng y Bwrdd Iechyd a phartneriaid darparu er mwyn ei gwneud hi'n bosibl trin mwy o gleifion yng Ngogledd Cymru (lle bo'n bosibl), yn gyflymach, ac o fewn cyfleusterau mwy addas, gyda gwell cymorth gweinyddol.

Mae gwasanaethau wroleg yn y Bwrdd Iechyd yn cael eu herio mewn nifer o ffyrdd. Mae'n anodd darparu gwasanaeth wroleg llawn o bob un o'r tri phrif ysbyty aciwt, yn rhannol oherwydd is-

arbenigedd mewn wroleg. O ganlyniad, er mwyn cael y canlyniadau gorau, mae'n debygol y bydd angen darparu llawdriniaeth ganser gymhleth ar lai o safleoedd. Ar hyn o bryd mae cleifion sydd angen llawdriniaeth wrolegol â chymorth robotig angen eu cyfeirio y tu allan i Ogledd Cymru i gael triniaeth. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu rhaglen llawdriniaeth y brostad gyda chymorth robotig ar gyfer Gogledd Cymru yn y blynyddoedd i ddod.

Gwnaethpwyd cynnydd yn ystod 2023-24 i wella ein gwasanaeth llawdriniaeth fasgwlaidd, gan arwain at ddad-ddwysáu o fod yn 'wasanaeth y mae angen ei wella'n sylweddol' gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ym mis Mehefin 2023. Mae gwaith yn mynd rhagddo bellach i ymgorffori'r cynnydd a wnaed.

Mewn gofal Strôc, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cyflawni amseroedd targed SSNAP ar gyfer triniaeth yn gyson. Mae gwaith i wella amseroedd 'drws i nodwydd' mewn achosion o thrombolysis strôc yn mynd rhagddo ochr yn ochr â derbyniadau uniongyrchol i gyfleusterau uned derbyn cleifion strôc. Gwnaethpwyd cynnydd yn ystod 2023-2024 o ran recriwtio Nyrsys Arbenigol Strôc ac ehangu timau 'Rhyddhau'n Gynnar â Chymorth'. Mae'r gwaith i wreiddio'r ethos 'cartref yn gyntaf' yn parhau.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

O fewn naw mis cyntaf y mesurau arbennig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â chyfluniad a pherfformiad nifer o'r meysydd sy'n cael eu herio. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae'r gwaith hwn yn aml yn gymhleth ac mewn llawer o feysydd bydd yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau ac yna ei wreiddio. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno parhau i ganolbwyntio ar hyn drwy gwblhau'r cynlluniau gweithredu yn y gwasanaethau priodol.

Blaenoriaethau

Dermatoleg

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal cefnogaeth i'r Arweinydd Clinigol mewn Dermatoleg fel rhan o un gwasanaeth Dermatoleg ar gyfer Gogledd Cymru.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddefnyddio technoleg 'Teledermosgopi' i wella effeithlonrwydd o ran amseroedd aros dermatoleg ac i leihau teithiau cleifion y gellir eu hosgoi. Mae materion seilwaith presennol yn cyfyngu ar y gyfradd yr hoffai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio hyn. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y Bwrdd Iechyd yn ailasesu'r sefyllfa hon i nodi unrhyw gyfle i gyflymu'r defnydd.
- Sefydlu hyfywedd model GPWSI (meddygon teulu â diddordeb arbennig) estynedig ar gyfer cyfeiriadau at ofal eilaidd y gellid eu rheoli'n wahanol, ar gyfer brysbennu cyfeiriadau, ac ar gyfer cynnal mân llawdriniaethau.

Oncoleg

- Parhau i ehangu hyfforddiant SACT (Therapi Gwrth-Ganser Systemig) o fewn staff nyrsio'r adran oncoleg, ac ymestyn oriau gweithredu'r uned ddydd, gan ddarparu mwy o gapasiti. Bydd hyn yn cynnwys syniadau grwpiau staff i wella effeithlonrwydd a safoni ymhellach.
- Gweithredu cyfleoedd cylchdroi staff nyrsio i wella trefniadau cyflenwi a chymysgedd siliau.
- Sicrhau mwy o gynigion ar gyfer hyfforddiant rhagnodwyr anfeddygol.
- Yn ystod hanner cyntaf 2024-25, cwblhau'r adolygiad o'r holl gyfundrefnau canser presennol i sicrhau bod pob un o'r rhai sy'n addas i'w cynnal yn y cartref yn cael eu cynnig yn y ffordd honno.
- Cynllun cynnydd i ddarparu mwy o therapiau gwrth-ganser o Ysbyty Gwynedd ar gyfer trigolion sy'n byw yng Ngorllewin Gogledd Cymru.
- Cwblhau'r cynllunio i ddychwelyd y gwaith o ddarparu Radiotherapi Abladol Stereotactig (SABR) i'r Bwrdd Iechyd, gan leihau gofynion teithio gan fod cleifion yn derbyn y driniaeth hon yn Lloegr ar hyn o bryd.
- Parhau i ehangu'r defnydd o feddalwedd 'Attend Anywhere', sy'n fwy cyfleus i gleifion priodol ac yn gwella capasiti clinigau.
- Adeiladu ar y recriwtio llwyddiannus i'r swydd Radiotherapydd Ymgynghorol gyntaf i sicrhau bod deilydd y swydd yn cael ei gefnogi i gyflawni nodau hyfforddi o fewn 18 mis i'w benodi.

Offthalmoleg

- Cytuno ar y cyd ar fodel gwasanaeth ar gyfer offthalmoleg yng Ngogledd Cymru sy'n cynnig gwasanaeth ag ôl-troed cynaliadwy.
- Parhau i fonitro perfformiad gwasanaeth yn erbyn safonau GIRFT o fewn y maes Offthalmoleg, gan herio meysydd o amrywiant cyn symud ymlaen i ddynodi a gweithredu gwelliannau mewn ymateb.
- Datblygu i roi'r rhaglen hyfforddiant ardystio uwch, Hyfforddi a Thrin Optometryddion, ar waith yn llawn, er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd llwybr gofal nad ydynt yn rhai eilaidd.
- Ehangu'r defnydd o holiaduron adborth cleifion i gefnogi'r llwybrau clinigol wedi'u hailgynllunio mewn gofal Cataract, gofal Glawcoma, a gofal Dirywiad Macwlaidd. Mae hyn yn ymwneud â Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs) a Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (PREMS).

Orthodonteg

- Parhau i recriwtio i rolau clinigol allweddol, gan roi modelau gweithlu diwygiedig ar waith sy'n cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer recriwtio staff a'u cadw.
- Ystyried llwybrau a pheccynnau triniaeth amgen i wneud y gorau o'r cyfuniad o ddarpariaeth leol a rhanbarthol.

Llawfeddygaeth Plastig

- Cwblhau protocolau mynediad ar gyfer clinigwyr sy'n ymweld i sicrhau mynediad at systemau priodol y Bwrdd Iechyd, gan gadarnhau gyda'r clinigwyr hynny bod mynediad swyddogaethol ar gael.
- Cytuno ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) wedi'i ddiweddarau rhwng y Bwrdd Iechyd a sefydliadau partner a'i lofnodi, gan sicrhau monitro parhaus yn unol â'r SLA.
- Cadarnhau effeithiolrwydd diwygiadau o ran rheoli rhestrau aros ar gyfer clinigwyr sy'n ymweld, gan gynnwys brysbennu cychwynnol gan glinigwyr y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys nodi'r rhai sy'n aros yn hirach nag sy'n briodol yn glinigol a gwneud trefniadau brys angenrheidiol.
- Cynnal clinigau gorchuddion ychwanegol i fynd i'r afael â'r amrywiadau presennol yn y ddarpariaeth ar draws Gogledd Cymru.
- Ar ôl cael sicrwydd bod y blaenoriaethau uchod wedi'u gweithredu'n llawn a'u bod yn wydn, dechrau gwaith i gytuno ar fodel tymor hwy y dyfodol ar gyfer darpariaeth llawfeddygaeth plastig i drigolion Gogledd Cymru.

Wroleg

- Symud ymlaen ar weithredu argymhellion GIRFT gan fonitro'r effaith.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o wroleg diagnostig ac achosion dydd ar bob un o'r tri safle, yn unol ag egwyddorion darparu gofal yn nes at y cartref.
- Monitro prosesau gweinyddu diwygiedig i sicrhau eu bod yn unol â'r canlyniadau bwriadedig o gefnogi gwell rheolaeth ar ganlyniadau cyfeirio, patholeg a radioleg.
- Cyflwyno gwasanaeth llawdriniaeth cerrig, wroleg benywaidd ac androleg cymhleth yn Wrecsam.
- Sefydlogi darpariaeth y gwasanaeth oncoleg pelfig ym Mangor.
- Adolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau prostadectomi na ellir eu darparu ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru yn barhaus, a defnyddio'r hyn a ddysgwyd i lywio cynllun hyfyw ac amserlenni ar gyfer darpariaeth triniaethau wroleg â chymorth robotig yng Ngogledd Cymru.

Gwasanaethau Fasgwlaidd

Bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Parhau i gryfhau'r gwaith o gofnodi canlyniadau a phwyntiau dysgu mewn cyfarfodydd Morbidrwydd a Marwolaethau.
- Adolygu prif safleoedd fasgwlaidd a'r rhai ategol er mwyn nodi meysydd o arfer da yn ogystal â meysydd i'w gwella.
- Datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) i gefnogi mwy o weithio rhanbarthol.
- Creu a lansio dangosfwrdd fasgwlaidd sy'n adrodd ar weithgarwch a chanlyniadau perfformiad, a defnyddio hwn i lywio cynllunio gwasanaethau'n well.

- Cynyddu'r casgliad o ddata profiad a adroddir gan gleifion mewn gwasanaethau fasgwlaidd, a chyhoeddi hwn.
- Datblygu cynllun fasgwlaidd wedi'i adnewyddu ar gyfer y tair blynedd nesaf i alluogi cynllunio gwasanaethau clinigol strwythuredig.
- Adeiladu dangosfwrdd perfformiad, gweithgaredd a chanlyniadau integredig ar gyfer y gwasanaethau fasgwlaidd, i lywio'r gwaith gynllunio gwasanaethau yn well.

Strôc

- Gweithredu cynlluniau gwella sy'n galluogi pob un o'n cymunedau iechyd i gyrraedd lefel B ar gyfer safonau Rhaglen Archwilio Genedlaethol Strôc Sentinel.
- Yn unol â'r rhaglen strôc genedlaethol, rhoi datrysiadau digidol ar waith i gynorthwyo'r gwaith o werthuso delweddu a phenderfyniadau ar gyfer therapïau atgyfnerthu gan gynnwys thrombolysis a thrombectomi ar gyfer cleifion â symptomau strôc.
- Parhau i recriwtio a chadw swyddi clinigol allweddol ar gyfer meddygol a nyrsio.

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Bydd mynd i'r afael â'r heriau y mae'r gwasanaethau hyn yn eu hwynebu yn arwain at wasanaethau mwy cyson a dibynadwy, a fydd yn gallu diwallu anghenion poblogaeth Gogledd Cymru yn well.

4K: Gwasanaethau Merched

Mae gwasanaethau merched yn cael eu darparu ar draws ein Hysbytai Cyffredinol Dosbarth, lleoliadau cymunedol a gofal sylfaenol. Mae'r gwasanaethau'n cael eu goruchwyllo'n rhanbarthol gan y Bwrdd Iechyd gyda gwaith partneriaeth agos gydag Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i adeiladu ar gyflawniadau a darparu Gwasanaethau Mamolaeth a Gynaecoleg ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru a hefyd i garfan o ferched o Ogledd Ddwyrain Powys a'r gororau yn Swydd Amwythig.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i leihau anghydraddoldebau iechyd i ferched, a byddwn yn parhau i wella mynediad, ansawdd a diogelwch. Rydym wedi ymrwmo i wrando a gweithredu ar brofiad defnyddwyr, ac yn unol â'r Datganiad Ansawdd Merched a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r Strategaeth Gwasanaethau Mamolaeth; Trawsnewid ein Gwasanaethau Arbenigol a Gynaecoleg a Chefnogi Dechrau Gorau mewn Partneriaeth.

Blaenoriaethau

Mae ein blaenoriaethau'n cynnwys

- Cefnogi Darpariaeth Leol Cynllun Iechyd Merched Cymru.
- Gweithredu argymhellion y Rhaglen Gymorth Diogelwch Mamau a'r Newydd-anedig.
- Sicrhau cynnydd a gweithredu argymhellion cenedlaethol gan gynnwys Mamau a Babanod: Lleihau Risg trwy Archwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol (MBRRACE).
- Paratoi ar gyfer cyflwyno Datrysiaid Digidol Mamolaeth Cymru.
- Gweithredu Cynllun Gofal Wedi'i Gynllunio Merched Gogledd Cymru a Chynllun Adferiad wedi Canser yn unol ag argymhellion GIRFT.
- Cefnogi gweithredu'r Strategaeth Cyn Cenhedlu a ffrydiau gwaith iechyd y boblogaeth.
- Cefnogi Cychwyn Iach trwy godi ymwybyddiaeth a lleihau anghydraddoldeb.
- Codi ymwybyddiaeth a chefnogi effeithiau'r menopos ar les corfforol, emosiynol, meddyliol a chymdeithasol merched.
- Adolygu'r cyfluniad gorau ar gyfer gwasanaethau endometriosis yng Ngogledd Cymru

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn aros am 'Gynllun Iechyd Merched Cymru' Cenedlaethol ac yn parhau i fod wedi ymrwymo i drawsnewid a gwella gwasanaethau o ansawdd i ferched. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â barn pobl ym meysydd Gynaecoleg, Mamolaeth a Newyddenedigol a Chydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Lleol i ddeall anghenion ein poblogaeth, i lywio cynlluniau datblygu gwasanaeth a'u cydgynhyrchu.

4L: Plant

Ymdrinnir â CAMHS a Niwroddatblygiad ym Mlaenoriaeth 4I – Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu, CAMHS a Niwroddatblygiad.

Mae plant o bob oed yn cael mynediad at ofal a thriniaeth gan lawer o'r gwasanaethau a ddarperir ar draws y Bwrdd Iechyd; mynediad at ofal brys a gofal brys, gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau arbenigol. Drwy ei Wasanaethau Plant penodedig, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu Gofal Peditrig a Newyddenedigol Aciwt; gwasanaethau iechyd cyhoeddus cyffredinol Ymwelwyr Iechyd a Nyrsio Ysgol; Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a Gwasanaethau Niwroddatblygiad ac Anabledd Dysgu. Darperir y gwasanaethau hyn mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill y Bwrdd Iechyd sy'n cynnwys gofal sylfaenol, mamolaeth, therapïau, iechyd

cyhoeddus ac arbenigeddau llawfeddygol oedolion, yn ogystal â phartneriaid yn yr Awdurdodau Lleol a sefydliadau'r Trydydd Sector.

Darperir gofal iechyd arbenigol wedi'i gomisiynu gan bartneriaid gofal trydyddol, fel arfer ond nid yn gyfan gwbl, gan Ysbyty Plant Alder Hey.

Mae gwasanaethau craidd penodol i blant yn cael eu rheoli a'u darparu'n weithredol drwy'r tair Cymuned Iechyd Integredig (IHC) o fewn y Bwrdd Iechyd. Er bod angen goruchwyliaeth ranbarthol i sicrhau asesiad teg ar draws y Bwrdd Iechyd, mae'r gwasanaethau a ddarperir ym mhob IHC yn canolbwyntio ar yr anghenion lleol a nodwyd mewn cydweithrediad â phartneriaid.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) yn rhoi blaenoriaeth i Blant, gan ganolbwyntio'n benodol ar Integreiddio Gwasanaethau a Phlant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â phobl ag Anableddau Dysgu a chyflyrau Niwroddatblygiadol, gofawyr di-dâl a'r rhai ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae plant yn cyfrif am ran sylweddol o boblogaeth Gogledd Cymru gyda'r rhai 0 i 17 oed yn cyfrif am 17.2% o'r boblogaeth a'r rhai rhwng 0 a 24 oed yn cyfrif am 26.3% o'r boblogaeth. Mae gan bawb hawl i'r dechrau gorau mewn bywyd a'r hawl i dderbyn gwasanaethau cyffredinol a phenodol i gefnogi eu hanghenion iechyd a llesiant, gan eu galluogi i gyflawni eu huchelgeisiau a chyrraedd eu potensial llawn - mae pawb yn haeddu hyn.

Bydd y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn canolbwyntio ar sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu. Bydd siarter plant a bwrdd arweinyddiaeth ieuencid yn cael eu datblygu er mwyn galluogi ein plant i fod yn rhan o ymgynghoriadau a chael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chynllunio ein gwasanaethau, er mwyn deall a bodloni eu hanghenion yn well a chynorthwyo ar y cyfnodau pontio allweddol ym mywydau plant gan gynnwys symud i ofal sy'n canolbwyntio ar oedolion.

Rhianta Corfforaethol - bydd y Bwrdd Iechyd yn ymrwmo i Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru ac yn ystyried ffyrdd y gall gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd â holl blant a phobl ifanc Cymru.

Blaenoriaethau

Bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer plant a phobl ifanc

- Cynnal ffyrdd o ddarparu gofal diogel sy'n canolbwyntio ar anghenion mor agos i'r cartref â phosibl.
- Parhau i ddatblygu'r gwaith cryf yn y gwasanaethau diogelu plant y mae'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid eisoes wedi'i flaenoriaethu gan gadw'n gadarn at egwyddorion Gweithdrefnau Amlasiantaethol Diogelu Cymru Gyfan.

- Sefydlu Siarter Bwrdd Iechyd ar gyfer Plant a bwrdd arweinyddiaeth ieuencid gyda chylch gorchwyl i wrando ar, ymgynghori ac ymgysylltu â phlant ar draws Gogledd Cymru i ddeall eu hanghenion yn well.
- Ffocysu gwaith pellach ar integreiddio gwasanaethau i Blant ag Anghenion Cymhleth, gan wella mynediad ac phrydlondeb darpariaeth.
- Parhau i ymgysylltu â'r rhaglenni cenedlaethol i wella a datblygu gwasanaethau i blant â phryderon iechyd a llesiant ac anghenion plant a theluoedd sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth gynyddol o niwroamrywiaeth.
- Datblygu Menter Ystyriol o Fabanod UNICEF (BFI); y fenter Pwysau Iach, Cymru Iach; Y Dull Drws Cywir, a'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, yn ogystal â Blaenoriaethau Gweinidogol Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Llofnodi Siarter Rhianta Corfforaethol ac ystyried ffyrdd o weithredu ymrwymadau'r siarter.

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Sicrhau bod argaeledd mwy cyson o ran gwasanaethau plant yn agos i'r cartref, mwy o ddiogelwch plant yn deillio o wneud penderfyniadau o ansawdd uchel mewn achosion diogelu plant, canlyniadau tymor hwy gwell trwy ganolbwyntio'n gyson ar 1000 o ddiwrnodau cyntaf bywyd.

4M: Gwasanaethau fferyllol

Bydd Swyddfa'r Prif Fferyllydd yn arwain ar dair rhaglen drawsnewid strategol sy'n cyd-fynd â gwella canlyniadau sy'n cael eu harwain gan ansawdd a diogelwch i gleifion, gwerth a chynaliadwyedd a meithrin gwytnwch gwasanaethau lle mae timau fferylliaeth ac arfer arloesol yn dod yn rhan o'r ateb i gefnogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei nodau strategol.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Comisiynodd Llywodraeth Cymru y corff arwain fferyllol proffesiynol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS), i gynnal adolygiad annibynnol o *ddarpariaeth gwasanaethau fferylliaeth glinigol mewn ysbytai* yng Nghymru a chyhoeddodd ei ymateb ddiwedd 2023. Diben yr adolygiad oedd ystyried y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferylliaeth glinigol mewn ysbytai a sut yr oeddent yn cyd-fynd â blaenoriaethau system lawn ac anghenion newidiol GIG Cymru i gefnogi cyflawni *Cymru Iachach*. Bwriedir gweithredu'r camau strategol *brys a byr* a argymhellir yn 2024/25.


Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi cyfleoedd i ddarparu mwy o oruchwyliaeth strategol i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o feddyginiaethau, a thrawsnewid dulliau mynediad at feddyginiaethau arloesol. Bydd datblygu'r rhain yn flaenoriaethau ar gyfer 2024-25.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Ystyried adolygiad RPS o ddarpariaeth gwasanaethau fferylliaeth glinigol ysbytai yng nghyd-destun y Bwrdd Iechyd i nodi'r cyfleoedd hynny a fyddai'n gwneud y gwahaniaethau mwyaf i brofiad a chanlyniadau cleifion.
- Sefydlu '*Grŵp Gwerth Meddyginiaethau*' strategol i ddarparu trosolwg a chyfeiriad i weithredu a rhaeadru systemau ar gyfer rhaglenni gwerth meddyginiaethau system lawn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y sylfaen dystiolaeth y gellir ei ystyried yng nghyd-destun cyfleoedd ariannol presennol ac arfaethedig ac asesiadau effaith canlyniadau cleifion.
- Trawsnewid sut mae rhai o'r meddyginiaethau mwyaf arloesol sy'n achub bywydau yn cael eu paratoi, gan gynnwys therapiau canser, gwrthfotigau mewnwythiennol, cynhyrchion radiofferyllol a maeth parenterol, trwy gychwyn rhaglen bum mlynedd '*Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TRAMS)*'. Bydd hyn nid yn unig yn canolbwyntio ar y gwasanaethau fferylliaeth technegol ei hun, ond bydd hefyd yn fuddsoddiad mewn pobl, gan roi'r cyfle ar gyfer arweinyddiaeth broffesiynol ac arloesi mewn triniaethau fferyllol.

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Gwella canlyniadau cleifion trwy ddarparu meddygaeth arloesol ac arbenigol yn gyflymach, gan gadw at dystiolaeth glinigol wrth wneud hynny, a sicrhau bod pob meddyginiaeth a ddefnyddir yn talu ffordd ar gyfer y claf sy'n ei derbyn.



Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer Dysgu

1

2

3

4

5: Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer Dysgu

Maes Amcan 5 yn rhoi cyfle i ddysgu pan nad yw pethau'n digwydd fel y disgwylir, i addysgu, ac i ddefnyddio'r ffynonellau gwybodaeth niferus sydd ar gael i ni er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau a dysgu mwy o wybodaeth.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei fonitro'n gynyddol a bydd cyflawni'r amcan hwn yn cael effaith ar draws y sefydliad cyfan drwy ganiatáu i ddysgu systematig ddigwydd fel bod mynd i'r afael ag anhawster mewn un rhan o'r Bwrdd Iechyd yn caniatáu dysgu ar draws pob rhan arall.

Mae gan lawer o flaenoriaethau eraill yn y Cynllun hefyd gysylltiadau â'r amcan hwn ond fe'u dangosir mewn manau eraill yn y Cynllun, yn fwyaf nodedig blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd i weithredu System Rheoli Ansawdd effeithiol (blaenoriaeth 1H).

Er bod cadw ffocws ar y cyfle sydd gan amgylchedd dysgu effeithiol i fynd i'r afael â heriau'r Bwrdd Iechyd yn hanfodol bwysig, nid dyma unig ffocws yr amcan hwn. Mae galluogi amgylchedd dysgu cyfoethog a ffrwythlon yn y Bwrdd Iechyd yn hanfodol i'n symud tuag at ein huchelgeisiau o allu datblygu meysydd lle'r ydym (neu y gallwn fod) yn esiamplau o arfer rhagorol a'u dathlu, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at ein gallu i recriwtio'r bobl orau a'u cefnogi i barhau i fod yn chwilfrydig ac yn academiaidd fodlon er mwyn eu cadw fel staff.

Crynodeb

Amcan 5: Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer Dysgu		Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol	Fframwaith Mesurau Arbennig
5A	Partneriaeth Prifysgol		✓
5B	Ymchwil, Datblygiad ac Arloesedd	✓	✓
5C	Gyrfaoedd Academaidd		✓
5D	Dan Arweiniad Gwybodaeth	✓	✓
5E	Sefydliad sy'n Dysgu	✓	✓

5A: Partneriaeth Prifysgol

Yn flynyddol, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (PBC) ddarparu tystiolaeth o weithgarwch partneriaeth prifysgol pwrpasol, gydag enghreifftiau o sut mae hyn yn gwella gwasanaethau ac o fudd i'n poblogaeth ac i nodi ein cynlluniau ar gyfer y 12 mis nesaf gan alinio â chylch cynllunio'r BIP o ran Ymchwil a Datblygu, Hyfforddiant ac Addysg, ac Arloesedd.

Fodd bynnag, mae Partneriaeth Prifysgol yn golygu llawer mwy i'r Bwrdd Iechyd na chael ei dynodi'n Brifysgol ac mae ein partneriaethau gyda'r ddwy Brifysgol yng Ngogledd Cymru (Bangor a Wrecsam) a gyda Phrifysgolion a sefydliadau academaidd fel darparwyr Addysg Bellach yn allweddol i ddarparu cyfleoedd dysgu bywiog, cyffrous ac ysgogol sy'n ein galluogi i ddatblygu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o'r radd flaenaf.

Yn ogystal â chynnal a datblygu'r partneriaethau hirsefydlog hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn falch o gyfrannu at ddatblygiad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru. Bydd Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, sy'n rhan o Brifysgol Bangor, yn derbyn ei myfyrwyr cyntaf yn 2024. Bydd hyn yn cynyddu nifer y meddygon a fydd yn hyfforddi yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol, gyda llawer ohonynt yn aros yn yr ardal, yn ogystal ag ysgogi diddordeb academaidd pellach gan gynnig mwy o gyfle i symud drwy ein sefyllfa uwchgyfeirio presennol a chael ein cydnabod am arfer rhagorol ac arloesol. Gan y bydd rhan fawr o gwricwlwm Ysgol Feddygaeth Gogledd Cymru yn cael ei gyflwyno o fewn lleoliadau cymunedol a gofal sylfaenol, bydd gan y Bwrdd Iechyd gyfle arbennig yn y blynyddoedd i ddod i ailffocysu gofal yn hyderus, gan ddarparu mwy o ofal yn nes adref yn unol â'r cynllun Cymru Iachach.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae ymgyfoethogi academaidd yn rhan annatod o ddull y Bwrdd Iechyd o ddarparu gofal meddygol, nyrsio a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd o ansawdd uchel i drigolion Gogledd Cymru. Mae cynnal lefelau uchel o ymchwil, datblygu ac arloesi yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i recriwtio gweithwyr proffesiynol o safon uchel a darparu gwasanaethau clinigol blaengar.

Blaenoriaethau

Bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Bangor i sicrhau bod myfyrwyr cyntaf Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn symud ymlaen yn ddiraffferth.
- Cyd-ddatblygu swyddi academaidd sy'n sail i'r agendâu addysgu ac ymchwil (gweler Blaenoriaeth 4C).
- Parhau i weithio gyda Phrifysgol Bangor i gefnogi hyfforddiant Cymdeithion Meddygol, a lleoliad gwaith dilynol o fewn y Bwrdd Iechyd.
- Gweithio gyda Phrifysgolion Bangor a Wrecsam i nodi cyfleoedd dysgu uwch i weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill, a staff anghlinigol, i ddatblygu gwybodaeth academaidd.

- Ymgymryd â gwaith pellach i sicrhau bod Academiau Sylfaenol a Deintyddol Gogledd Cymru yn cael eu cefnogi i ffynnu a datblygu fel Canolfannau Rhagoriaeth.
- Gweithio gyda Phrifysgol Bangor i gyd-ddatblygu uchelgeisiau ar sefydlu Ysgol Fferylliaeth Gogledd Cymru.

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Bydd y gweithgaredd hwn yn helpu i recriwtio staff a'u cadw, ac i ddarparu gofal iechyd cyfoes o ansawdd uchel.

5B: Ymchwil, Datblygiad ac Arloesedd

Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen Ymchwil a Datblygu sefydledig sy'n parhau i dyfu. Mae hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad academiaidd y staff presennol, cadw staff newydd sy'n canolbwyntio ar ymchwil, ac yn cynnig cyfleoedd i drigolion Gogledd Cymru gael mynediad at opsiynau ymchwil a thriniaethau arloesol yn eu gofal.

Mae gweithgareddau sylweddol ar y gweill, gan weithio gyda phartneriaid academiaidd, masnachol a thrydydd sector i arwain a chyflwyno ymchwil o ansawdd uchel gan gynnwys Cyfleuster Ymchwil Glinigol Gogledd Cymru (CRF), gan ddarparu gofod lle gellir cynnal treialon clinigol cyfnod cynnar mewn ffordd ddiogel a rheoledig sydd â dros 700 o broffiliau mewn cyfnodolion effaith uchel hyd yma.



Ffigur 6: Ystod o Bartneriaid Ymchwil a Datblygu'r Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn recriwtio, neu yn y cyfnod dilynol, ar gyfer 316 astudiaeth ymchwil. O'r rhain, mae 208 yn astudiaethau portffolio, a 108 yn astudiaethau nad ydynt yn bortffolio. Mae gan bob astudiaeth Ymchwilydd Pennaf (PI) o'r Bwrdd Iechyd; gyda Phrif Ymchwilydd (CI) y Bwrdd Iechyd yn arwain 41 o'r rhain.

Canolfan Ragoriaeth SBRI

Mae Canolfan Ragoriaeth SBRI (Menter Ymchwil Busnesau Bach) yn cael ei chynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r SBRI yn rhedeg Gwasanaeth Cymru gyfan, gan weithio gyda Chyrff Sector Cyhoeddus i nodi a datrys anghenion/heriau nad ydynt yn cael eu bodoli yn y maes iechyd. Ariennir y Ganolfan gan Lywodraeth Cymru a'i chynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae SBRI yn arwain y gwaith o drawsnewid y ffordd y darperir gofal brys gan weithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST). Bydd y 50 uned "ambiwylans mewn bocs" cyntaf yn dechrau gyda deg uned yng Nghartrefi Gofal BIPBC, gan ddangos y potensial ar gyfer ymyriadau iechyd digidol mewn sefyllfaoedd brys.

Mae'r Prosiect Nwyon, sy'n canolbwyntio ar waredu nwyon meddygol yn ddiogel ac yn foesebol, yn ei gyfnod profi critigol. Mae'r prosiect ar fin cymryd cam sylweddol ymlaen gyda phrofion Ward byw i fod i ddechrau yn ystod mis Mai 2024 yn Ysbyty Gwynedd, gan ddangos cynnydd diriaethol tuag at arferion gofal iechyd mwy diogel.

Mae'r prosiect Cyfathrebu â Chleifion yn gwella sianeli cyfathrebu rhwng ysbytai a pherthnasau cleifion. Mae dau ddatrysiad gwahanol yn cael eu treialu yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd, gan ddarparu gwybodaeth hanfodol a diweddariadau rheolaidd i berthnasau cleifion, gan gynnwys amseroedd ymweld â wardiau a diweddariadau ynglŷn â rhyddhau cleifion.

Mae platfform deallusrwydd artiffisial IBEX Galen yn cefnogi Patholegwyr i wneud diagnosis o fiopsïau prostatig, yn ogystal â gwella'r broses barhaus o gyflwyno Patholeg ddigidol ledled Cymru, ac yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â chwe Bwrdd Iechyd trwy gydol y cyfnod caffael parhaus o 12 mis.

Mae datblygiadau eraill yn cynnwys defnyddio'r datblygiadau Deallusrwydd Artiffisial (AI) diweddaraf i gefnogi meddygon gyda dehongli sganiau ymennydd mewn amser real. Gan weithio gyda Brainomix, mae'r datblygiad hwn yn darparu gofal cyflymach a mwy diogel i gleifion strôc.

"Mae canfod yn gynnar yn achub bywydau; roedd yn anhygoel dangos sut mae AI yn cyflymu ac yn gwella ansawdd diagnosisu patholeg prostatig yng Nghymru."

**Muhammad Aslam,
Patholegydd Ymgynghorol a Chyfarwyddwr Clinigol, BIPBC.**

Ymchwil Gofal Sylfaenol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gyda thîm o Goleg Imperial a lwyddodd i sicrhau dyfarniad Her i4i NIHR i ariannu TRICORDER – prosiect gofal sylfaenol 3 blynedd. Mae dyfais Eko DUO yn stethosgop 'clyfar' sy'n recordio electrocardiogram yn ogystal â synau calon ac yn cael ei ddefnyddio fel stethosgop safonol. Gall ddarparu diagnosis ar unwaith o fethiant y galon gan ddefnyddio algorithm AI. Mae saith practis gofal sylfaenol yn gwerthuso'r ddyfais ar hyn o bryd.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn elwa o fod yn sefydliad gweithgar ym maes ymchwil sy'n gallu manteisio ar y datblygiadau arloesol diweddaraf ac mae'n dymuno parhau i weld y buddion hyn a'u hehangu.

Blaenoriaethau

Bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Parhau i gynyddu gweithgarwch ymchwil ac arloesi masnachol.
- Cynnal gweithgaredd cyfleusterau ymchwil glinigol mewn treialon cyfnod cynnar, a'u cynyddu.
- Datblygu Llwybr Arloesi sy'n cyd-fynd â'n strategaeth a'i ddefnyddio a chryfhau'r blaenoriaethau cynllunio a amlinellwyd eisoes yn y Cynllun.
- Cynyddu penodiadau ymchwil er anrhydedd a swyddi academiaidd clinigol (gweler blaenoriaeth 5C).
- Creu cyfleoedd masnachol ymchwil, datblygu ac arloesi ychwanegol ym maes datblygu dyfeisiau a thechnoleg, gan ddysgu o fodelau llwyddiannus mewn mannau eraill.
- Adeiladu ar nifer y practisau gofal sylfaenol sydd eisoes yn annog ymchwil i ehangu'r cyfle y gall gofal sylfaenol a reolir yn uniongyrchol ei ddarparu mewn ymchwil ac arloesi.

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Mae'r cynnydd mewn gweithgarwch Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn dangos ymroddiad y Bwrdd Iechyd i ddatblygu gwybodaeth; ac yn amlygu ei gyfraniad sylweddol i ymchwil iechyd yng Nghymru drwy fynd ati i recriwtio 4,984 o gyfranogwyr i bortffolio amrywiol o astudiaethau anfasnachol a masnachol. Mae hyn yn rhoi mynediad cynyddol i bobl Gogledd Cymru at waith ymchwil a thriniaethau arloesol, a mwy o gyfleoedd i hyfforddi, recriwtio a chadw gweithwyr proffesiynol o safon uchel.

5C: Gyrfaedd Academiaidd

Mae'r sylfaen academiaidd ac ymchwil bresennol yng Ngogledd Cymru, a ddisgrifir uchod, yn rhoi cyfle pwysig i adeiladu ymhellach arno.

Un o'r cyfleoedd pellach y mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno ei archwilio nawr yw'r potensial o greu Llwybr Gyrfa Academiaidd ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yng Ngogledd Cymru. Yn benodol, ni fydd hyn yn gyfyngedig i yrfaedd academiaidd meddygol ond bydd yn adlewyrchu'r cymysgedd eang o sgiliau sydd ei angen, ac sy'n gwella gwerth ac amrywiaeth darpariaeth gofal iechyd mewn cymdeithas fodern, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol anghlinigol.

Ni fydd y dull hwn yn cael ei gyfyngu i weithwyr proffesiynol a gyflogir yn uniongyrchol gan gydnabod bod gweithwyr proffesiynol gwasanaethau contractwyr mewn lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol a phartneriaeth yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau gofal iechyd a'u cydnerthedd. Yn flaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael profiad da o recriwtio meddygon teulu cyflogedig i raglenni

portffolio sy'n diogelu amser ac yn darparu adnoddau ar gyfer datblygu sgiliau uwch mewn ymchwil glinigol neu mewn arbenigeddau clinigol eraill.

Bydd datblygu'r rhaglenni hyn yn cael ei arwain gan y Bwrdd Iechyd a'n partneriaid Prifysgol ond o fewn cydweithrediad sy'n tynnu ar arbenigedd, sgiliau a seilwaith yr holl bartneriaid.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae sefydliadau gofal iechyd eraill wedi profi y gall llwybrau gyrfa academiaidd helpu i ddenu a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn enwedig mewn meysydd clinigol anodd eu recriwtio.

Wrth i ofal iechyd newid, gydag ehangu cyflym ac arallgyfeirio cymysgedd sgiliau, mae llwybrau gyrfa academiaidd hefyd yn rhoi cyfle i uwchsgilio a dilysu ailgynllunio cymysgedd sgiliau arloesol.

Blaenoriaethau

Yn 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn

- Parhau â sgysiau gyda phartneriaid academiaidd i greu cynnig ar sut y gallai llwybrau gyrfa academiaidd ddod â chyfleoedd i bob partner ddatblygu arfer academiaidd ac arloesedd yng Ngogledd Cymru. Wrth wneud hynny bydd y Bwrdd Iechyd yn edrych ar gynnig cyfleoedd sy'n ymestyn ar draws yr holl grefftau proffesiynol (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol anghlinigol), gan roi sylw arbennig i feysydd proffesiynol sy'n anodd eu recriwtio, eu cadw, neu lle y rhagwelir newid sylweddol yn y gwasanaeth.
- Bydd y Bwrdd Iechyd wedyn yn archwilio sut i ddarparu adnoddau ar gyfer y cynnig a grëwyd er mwyn symud ymlaen i'w roi ar waith.

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Mae gan gynnig llwybrau gyrfa sy'n rhychwantu arfer academiaidd a gweithredol y potensial i helpu'r Bwrdd Iechyd i recriwtio a chadw staff mewn meysydd anodd eu staffio, a hefyd i helpu i gynnal dull arloesol o ailgynllunio gwasanaethau.

5D: Dan Arweiniad Gwybodaeth

Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfoeth o ddata ond nid yw bob amser yn gallu trosi hynny'n gyfoeth o wybodaeth. Byddai gwneud hyn yn well yn darparu cronfa fawr o wybodaeth ddefnyddiol i lywio penderfyniadau tactegol a strategol ar draws y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys gwella defnydd, cysylltu a thriongli data GIG Cymru, data iechyd cyhoeddus, profiad cleifion a data canlyniadau, data

sy'n deillio o bartneriaid, ac argymhellion allanol arbenigol i greu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar Ogledd Cymru i gefnogi gwneud penderfyniadau.

Yn rhy aml, mae ein data yn bodoli ac yn cael ei weld mewn seilos, gan arwain at ddyblygu, dryswch, a diffyg ymddiriedaeth yn y wybodaeth a'i ansawdd. Bydd y gwaith hwn yn ceisio trawsnewid y ffordd yr ydym yn defnyddio data, sy'n cynnwys mwy o driongli ar draws disgyblaethau a ffiniau gwasanaethau i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud penderfyniadau gwell ar sail tystiolaeth.

Bydd llywodraethu data, y ffyrdd yr ydym yn casglu, rheoli a defnyddio ein data, yn cael ei gryfhau. Bydd cwrpas ein gwaith yn cynnwys y daith iechyd gyfan, gan symud y ffocws o ofal yn yr ysbyty a thrwybwn i anghenion a chanlyniadau'r boblogaeth. Mae safoni a chysondeb yn allweddol i'r gwaith hwn, gan ddileu amrywiadau direswm.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae nifer o adolygiadau allanol wedi nodi'r angen i'r Bwrdd Iechyd wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn seiliedig ar ddata da.

Bydd dod yn sefydliad a arweinir gan wybodaeth yn arwain at wneud penderfyniadau rhagweithiol, lliniaru risg, gwneud y gorau o adnoddau a gwella ansawdd a pherfformiad sy'n golygu canlyniadau iechyd a lles gwell ar draws Gogledd Cymru.

Blaenoriaethau

Bydd y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn 2023/24 i

- Sefydlu fforwm ansawdd a llywodraethu data'r Bwrdd Iechyd.
- Cyflwyno system nod barcod data.
- Datblygu warws data PBC ymhellach, gan ehangu ystod y setiau data sydd ar gael.
- Cynnal dadansoddiad o anghenion sgiliau/hyfforddiant i lywio cynllun gwaith llythrennedd data.
- Datblygu gallu sefydliadol o amgylch dadansoddi a chynllunio galw a chapasiti.
- Nodi meysydd blaenoriaeth a gwella ymgysylltiad clinigol â data gan ddefnyddio CHKS fel yr adnodd meincnodi clinigol a ddewiswyd.
- Gweithredu safonau dangosfwrdd, cymhwyso egwyddorion dylunio a sefydlu stiwardiaeth data.

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Bydd y gwaith hwn yn galluogi'r sefydliad i wella ei benderfyniadau a bod yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth ddarparu gofal. Bydd yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ategu'r gwaith o gynllunio a rheoli adnoddau'r Bwrdd lechyd, gan alluogi blaenoriaethu a dyrannu ar sail tystiolaeth.

Bydd defnyddio data clinigol ac ansawdd a diogelwch yn well yn galluogi gweithredu rhybuddion cynnar neu sbardunau, gan leihau niwed i gleifion.

5E: Sefydliad sy'n Dysgu

Mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau breision ymlaen yn y dull dysgu fel sefydliad, a bydd yn parhau â'r cynnydd hwn; mae llawer o'r blaenoriaethau a amlinellwyd eisoes yn y Cynllun yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r pwysigrwydd y mae'r Bwrdd lechyd bellach yn ei roi ar ddysgu. Mae'r tabl gyferbyn yn dangos y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol.

Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod y cyfleoedd sy'n bodoli o adeiladu ymhellach ar y gwaith hwn.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, nid yw'r Bwrdd lechyd bob amser wedi manteisio'n llawn ar gyfleoedd pwysig i ddysgu cymaint â phosibl o ddigwyddiadau a chwynion arwyddocaol. Mae mynd i'r afael â hyn yn ffocws penodol i'r sefydliad yn ystod 2024-25.

Blaenoriaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â bod yn Sefydliad sy'n Dysgu

1A	Effeithiolrwydd y Bwrdd
1E	Gwerth a Chynaliadwyedd
1F	Gwelliannau Deddfwriaethol
1G	Cynllunio Gweithlu
1H	System Rheoli Ansawdd
2A	Strategaeth 10 mlynedd
2E	Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT)
2F	Portffolio Newid Mawr PMO
2G	Cryfhau Cynllunio
2J	Canfod yn gynnar a chefnogi Gwasanaethau sy'n cael eu Herio
3A	Arweinyddiaeth Dosturiol a Datblygiad Sefydliadol
3B	Ymgysylltu â Dinasyddion
3C	Bod yn Bartner Da
4A	Profiad cleifion
4J	'Gwasanaethau sy'n cael eu Herio' ar hyn o bryd
5A	Partneriaid Prifysgol
5B	Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd
5C	Gyrfaedd Academaidd

Gan fod cael dulliau dysgu cyson effeithiol fel sefydliad yn rhan o sylfeini System Rheoli Ansawdd effeithiol, mae'r sefydliad yn ymateb i'r cyfleoedd hyn i brofi a herio'r broses ailgynllunio QMS sy'n dod i'r amlwg.

Pam mae hyn wedi cael ei flaenoriaethu yng nghynllun 2024-27?

Mae'r Bwrdd lechyd yn dymuno gwella cysondeb y dull o ddysgu o ddigwyddiadau arwyddocaol ac o gwynion.

Blaenoriaethau

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn cwblhau ei adolygiad o sut mae'r sefydliad yn ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol ac yna'n dysgu oddi wrthynt.
- Bydd y Bwrdd Iechyd wedyn yn rhoi newid ar waith i fynd i'r afael â'r gwelliannau posibl a nodwyd drwy'r adolygiad. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd Iechyd yn cymhwyso egwyddorion ailgynllunio'r System Rheoli Ansawdd sy'n dod i'r amlwg, gan gynyddu ymhellach y cyfle i roi dysgu ar waith.

Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ganlyniadau?

Bydd ymchwilio'n gadarn i ddigwyddiadau arwyddocaol, ac yna sicrhau dysgu eang yn lleihau nifer y digwyddiadau arwyddocaol sy'n codi yn y dyfodol.

Adnoddau Ariannol

Trosolwg o'r Cynllun Ariannol

Diben craidd y Cynllun Ariannol yw cyfleu effaith ariannol y penderfyniadau a'r datblygiadau gwasanaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Blynyddol a chefnogi nodau sylfaenol ac amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd statudol i adennill costau yn erbyn y terfyn adnoddau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod o dair blynedd.

Mae blwyddyn ariannol 2023/24 wedi gweld lefel ddigynsail o her ariannol o fewn GIG Cymru, gyda'r cynlluniau cychwynnol wedi'u gosod ar ddiffyg o £648m a BIPBC â chynllun diffyg o £134m. Fe wnaeth y sefyllfa hon wella yn dilyn dyraniad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (a dderbyniwyd gan bob Bwrdd Iechyd) o £101m i gefnogi darpariaeth gofal iechyd ar gyfer y boblogaeth leol ac ehangach.

Y canlyniad yw bod gan y Bwrdd Iechyd gynllun cychwynnol gwell o ddiffyg o £33m ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfanswm rheoli o ddiffyg o £20m ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 (yn ei hanfod yn ceisio gwelliant o £13m ar y cynllun gwreiddiol).

Mae cynllun ariannol 2024/25 yn adlewyrchu'r heriau ariannol o 2023/24 sy'n parhau i'r flwyddyn ariannol newydd, gyda'r gallu i gyflawni balans ariannol a'r ddyletswydd ariannol allweddol yn heriol yn yr hinsawdd bresennol (er gwaethaf derbyn cynnydd mewn cyllid) yn dystiolaeth o'r angen am gynlluniau trawsnewidiol ar gyfer gofal iechyd wrth edrych i'r dyfodol.

Diffyg Gwaelodol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £33.0m ar gyfer 2023/24, yn dilyn cyhoeddi adnoddau ariannol anghylchol ychwanegol o £101.1m gan Lywodraeth Cymru, (a wellodd y diffyg arfaethedig gwreiddiol o £134.1m). Yn ogystal â'r dyraniad yn ystod y flwyddyn, roedd y Bwrdd Iechyd hefyd wedi cael £82m a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf, gan gefnogi gwelliannau a thrawsnewid gwasanaethau. Daw hyn â chyfanswm y cyllid strategol anghylchol a dderbyniwyd yn 2023/24 i £183.0m.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i brofi pwysau o ddefnyddio capasiti ychwanegol i wasanaethu'r galw am ofal heb ei gynllunio, Gofal Iechyd Parhaus, Rhagnodi a Chyffuriau Gofal Eilaidd. Mae asesiad o'r pwysau costau a'r tanwariant sy'n cyfrannu at sefyllfa 2023/24 wedi'i gynnal a nododd orwariant cylchol net o £36.6m a fydd yn parhau i mewn i 2024/25.

Mae'r diffyg agoriadol hwn o £33m ynghyd â lefelau uchel o incwm anghylchol a phwysau costau a brofwyd yn 2023/24 y disgwylir iddynt barhau i 2024/25 yn rhoi diffyg gwaelodol agoriadol o £252.7m a dyma'r man cychwyn ar gyfer Cynllun Ariannol 2024/25.

Diffyg Gwaelodol	£m
Rhagamcan o ffigurau alldro ar gyfer 2023/24	(33.0)
Cefnogaeth Strategol Anghylchol Llywodraeth Cymru ar gyfer diffyg 2021/22	(40.0)
Cronfa Anghylchol Perfformiad a Thrawsnewid Llywodraeth Cymru	(42.0)
Cymorth Ychwanegol Anghylchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24	(101.1)
Gorwariant cylchol a gwrthdroi'r lliniaru ar y fantolen o 2023/24	(36.6)
Diffyg gwaelodol agoriadol 2024/25	(252.7)

Ein Hadnoddau

Mae dyraniad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 yn adlewyrchu canlyniad yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn ariannol heriol iawn yn 2023/24. Mae hefyd yn adlewyrchu proses gyllidebol heriol i Lywodraeth Cymru. Disgwylir i sefydliadau weithredu o fewn y cyllid a nodir yn y dyraniad a disgwylir iddynt ddatblygu cynlluniau cadarn i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau ar gyfer 2024/25, fel y nodir yn Fframwaith Cynllunio'r GIG o fewn y dyraniad hwn.

Mae cyllid Cymorth Strategol Llywodraeth Cymru a oedd i ddod i ben yn 2023/24 (cyfanswm o £82m y flwyddyn) wedi'i ddyrannu am flwyddyn ychwanegol yn 2024/25 ar sail anghylchol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau bod £74.6m o'r cymorth ychwanegol anghylchol a roddwyd yn 2023/24 yn gylchol mewn egwyddor, ond yn amodol ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r cyfanswm rheoli targed o ddiffyg o £20m ar gyfer 2023/24. Dim ond ar ôl cyflawni'r cynnydd gofynnol y bydd y dyraniad hwn yn dod yn gylchol ac felly mae'n risg sylweddol yn y Cynllun Ariannol.

Mae twf dyraniad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 yn cynrychioli cynnydd o 3.67% mewn cyllid, sy'n cyfateb i £60.6m ar gyfer PBC (nid oes angen i'r codiad cyflog ddod o'r cynnydd hwn ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y cynlluniau ar hyn o bryd). Felly mae'r cynnydd hwn yn y cyllid craidd yn cefnogi sefydliadau'r GIG gyda'r pwysau anochel o ran chwyddiant a galw a ragwelir ar gyfer 2024/25. Mae cyllid ar gyfer codiadau cyflog y GIG yn 2024/25 yn cael ei gadw'n ganolog a bydd yn cael ei ddyrannu i gyflogwyr unwaith y bydd codiadau wedi'u gwneud.

Dangosir yr adnoddau ychwanegol sydd ar gael y flwyddyn nesaf yn y tabl isod:

	Cylchol £m	Anghylcho l £m	Cyfanswm £m
Dyraniad Incwm			
Cefnogaeth Anghylchol Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer diffyg 2021/22		40.0	40.0
Cronfa Anghylchol Perfformiad a Thrawsnewid Llywodraeth Cymru		42.0	42.0
Cyllid cylchol Llywodraeth Cymru amodol wedi'i gyhoeddi yn 2023/24	74.6		74.6
Cynnydd dyraniad (gan gynnwys lechyd Meddwl)	60.6		60.6
Cyllid chwyddiant ynni	10.3		10.3
Cyllid Cynaliadwyedd (Gofal Wedi'i Gynllunio).	34.5		34.5
Cyllid Rhaglen Covid-19	12.2		12.2
Cyllid wedi'i neilltuo: Gofal lechyd Seiliedig ar Werth ac Ymhellach yn Gyflymach	5.7		5.7
Gostyngiad cyllid brigdorri Llywodraeth Cymru	(0.3)		(0.3)
Cyfanswm y Dyraniad Ychwanegol	197.6	82.0	279.6
Incwm Arall			
Cynnydd Incwm Darparwr	1.2		1.2
Cyfanswm Incwm Arall	1.2		1.2
Cyfanswm yr Incwm Ychwanegol	198.8	82.0	280.8

Mae'n werth nodi bod elfen fawr o'r incwm ychwanegol yn ymwneud ag adnoddau cylchol amodol a ddyrannwyd yn 2023/24, cynnydd yn unol â chwyddiant a chadw ar y lefel honno am flwyddyn arall o'r gronfa Perfformiad a Thrawsnewid. Mae'r Bwrdd lechyd yn adolygu'r defnydd o'r cronfeydd Perfformiad a Thrawsnewid i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Bwrdd lechyd.

Twf yn y Galw, Chwyddiant a Phwysau Costau

Mae'r Cynllun Ariannol wedi ystyried ac amcangyfrif y costau sylfaenol, ymrwymadau hanesyddol, effeithiau chwyddiant a phwysau costau sy'n debygol o effeithio ar y Bwrdd lechyd dros y flwyddyn nesaf. Mae cynlluniau gwasanaeth a gweithlu wedi'u cynnwys yn yr asesiad, ochr yn ochr â nodi cynlluniau trawsnewidiol posibl, arbedion effeithlonrwydd ariannol a chynlluniau arbed sydd eu hangen i gyflawni cydbwysedd ariannol. Bydd y Bwrdd lechyd yn canolbwyntio mwy ar gynllunio'r gweithlu, gan gydnabod bod cyfleoedd pellach i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant nad oes angen twf parhaus yn niferoedd y gweithlu arnynt.

Mae amcangyfrifon twf yn y galw a chwyddiant wedi'u hasesu gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth. Cyfanswm y chwyddiant a amcangyfrifir yw £29.8m a chyfanswm y twf a amcangyfrifir yw £5.4m.

Yn ogystal, mae pwysau costau anorfod a newydd hysbys ar gyfer 2024/25 na all PBC eu hosgoi. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud â chynlluniau Cymru gyfan ac achosion busnes y mae ymrwymadau eisoes wedi'u gwneud ar eu cyfer. Cyfanswm y rhain yw £2.8m. Ymhellach mae asesiad wedi ei wneud o werth costau ynni yn 2024/25 dros gyllidebau cylchol. Y rhagolwg mewn perthynas â PBC yw cost

o £15.3m, wedi'i wrthbwysu gan gyllid newydd gan Lywodraeth Cymru o £10.3m, gan roi pwysau ariannol o £5.0m.

Mae'r costau sy'n ymwneud â'r cyllid ychwanegol ar gyfer Cynaliadwyedd, Rhaglenni Covid-19, Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth ac Ymhellach yn Gyflymach wedi'u cynnwys. Mae adnoddau ychwanegol ar gyfer gofal ychwanegol yn cael eu modelu ar lefelau gwariant cynlluniedig cyfredol.

Gwelliant Ariannol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oes unrhyw fuddsoddiad dewisol wedi'i adlewyrchu yn y cynnydd cyllid craidd, a bod angen i sefydliadau wneud arbedion sylweddol er mwyn cyflawni a gweithredu cynlluniau ariannol cynaliadwy ar gyfer 2024/25.

Hefyd cydnabyddir mai uchafswm y cyllid sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau NWSSP a WHSSC (a darparwyr eraill GIG Cymru) yw 3.67% ac mae hyn (ac eithrio gofyniad effeithlonrwydd o 2% gan Lywodraeth Cymru) yn cynrychioli'r cyllid sydd ar gael i wrthbwysu chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog, twf a datblygiadau yn y maes hwn o weithgareddau'r Bwrdd Iechyd (chwyddiant codiadau cyflog wedi'i ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru).

Mae angen i sefydliadau sicrhau bod camau gweithredu i gyflawni gwelliant ariannol yn 2023/24 yn cael eu cynnal, ac mae'n ofynnol iddynt arbed o leiaf 2% o gyfanswm y gwariant sylfaenol yn 2024/25. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn disgwyl arbedion mewn meysydd nad ydynt yn rhai craidd a gorbenion i flaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen, gyda gostyngiadau mewn gwaith cost premiwm a symud tuag at ddefnyddio capasiti mewnol.

Er mwyn cyflawni dyletswydd ariannol allweddol y Bwrdd Iechyd a chyflawni alldro adennill costau (cynlluniau gwariant sy'n cyfateb i incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol) byddai'r arbedion y gofynnir amdanynt yn gyfanswm o 3.5%. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa o ran lefel yr arbedion sy'n cynrychioli targed heriol ond cyraeddadwy ar gyfer PBC wedi'i osod ar 2.8%, sy'n cyfateb i £48.0m (mae hyn yn uwch na'r isafswm a osodwyd ar gyfer Byrddau Iechyd o 2% gan Lywodraeth Cymru).

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio gwella'r dull arbedion traddodiadol trwy weithredu cyfrwng trawsnewid Gwerth a Chynaliadwyedd, bydd hwn yn ceisio sicrhau buddion i gleifion o fewn pum maes craidd, sef (a) Gweithlu (b) Amrywiad Clinigol (c) Heb fod yn Gyflog (d) Gofal Iechyd Parhaus a (e) Rheoli Meddyginiaethau.

Crynodeb o'r Cynllun Ariannol

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r sefyllfa ariannol gyffredinol ar gyfer 2024/25. Y sefyllfa gyffredinol yw diffyg o £19.7m.

Cynllun ariannol refeniw	2024/25 £m	2024/25 £m
Diffyg gwaelodol agoriadol 2024/25		(252.7)
Incwm dyraniad ychwanegol	279.6	
Incwm arall ychwanegol	1.2	
Cyfanswm incwm ychwanegol		280.8
Chwyddiant	(29.8)	
Twf	(5.4)	
Pwysau cost anochel	(2.8)	
Costau Ynni	(15.3)	
Adolygu ac ail-flaenoriaethu buddsoddiadau	10.0	
Gwariant ar gynaliadwyedd (Gofal wedi'i Gynllunio).	(34.5)	
Gwariant ar Raglen Covid-19	(12.2)	
Cyllid wedi'i neilltuo: Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth ac Ymhellach yn Gyflymach	(5.8)	
Cyfanswm costau ychwanegol		(95.8)
Targed arbedion		48.0
Diffyg net arfaethedig ar gyfer 2024/25		(19.7)

Rhaglen Gyfalaf

Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn dyraniadau cyfalaf dewisol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, gyda'r adnoddau'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwelliannau ar gyfer Seilwaith Ystadau'r Bwrdd Iechyd, amnewid Offer Meddygol ac adnewyddu Gwybodaeth, Rheolaeth a Thechnoleg.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r cynlluniau i'w cymeradwyo fel rhan o'r Cynllun Blynyddol gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, gyda chynlluniau pellach wedi'u rhestru ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 y gellir eu dwyn ymlaen, gyda chymeradwyaeth fel rhan o'r cynllun, i 2024/25 os bydd arian ar gael yn ystod y flwyddyn.

Cynllun / Rhaglen	2024/25 £m's	2025/26 £m's
Uned Gofal Critigol - Ward Enlli YG	1.00	1.00
Adran Cleifion Allanol YG	0.05	0.50
Uned CAMHS Abergele	0.47	0.00
Plas Gororau – Cam 2, Wrecsam	0.10	1.00
Uwchraddio To'r Adrannau Merched a Phlant, YGC	0.47	0.00
Labordy Imiwnoleg, Patholeg	0.73	0.73
Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru - Amnewid Cloch	0.11	0.00
Moderneiddio'r Uned Ddeintyddol, Llanfair	0.09	0.50
Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	1.16	0.75
Dyfeisiau Meddygol	1.90	2.30
Gwybodeg	2.30	2.40
Gwaith ar seilwaith yr adeilad	1.35	1.55
Cyfleusterau - llety preswyl	0.44	0.40
Gwaith gwella wardiau	0.10	1.00
Cyfraniad EFAB (gwaith seilwaith)	1.15	0.00
Broceriaeth gwariant cyfalaf o 2023/24	1.00	1.40
Gwaith pellach ar wrth-glymu	0.50	0.00
System Rheoli Therapiau	0.70	0.00
System Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaeth Electronig (ePMA).	0.40	0.40
Arian Wrth Gefn	0.55	1.00
CYFANSWM	14.57	14.93

Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn dyraniadau cyfalaf pellach yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, ac yn 2024/25 disgwylir y bydd dyraniadau ar gael ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (Roslin Llandudno), Hwb Orthopedig yng Nghanolfan Iechyd a Lles Llandudno a Gorllewin

Conwy. Gyda'r dyraniadau hyn disgwylir i gyfanswm y rhaglen gyfalaf ddod i £41.875m ar gyfer 2024/25.

Risgiau Ariannol

Mae risgiau sylweddol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol, y bydd angen eu monitro a'u rheoli drwy gydol y flwyddyn. Yn benodol, bydd lefel yr arbedion sydd eu hangen o fewn y cynlluniau yn dibynnu ar y Bwrdd Iechyd yn gweithredu nifer o gyfleoedd trawsnewid a gwella.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni arbedion drwy dulliau traddodiadol, ond gan dderbyn na fydd hyn yn rhoi manteision gofal iechyd yn y dyfodol ac yn annigonol i gyflawni sefyllfa ariannol gynaliadwy (fel yr amlygwyd yn flaenorol o dan Gwelliant) mae wedi dechrau gweithredu fframwaith i adlewyrchu Rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn amlygu'r risgiau sylweddol sy'n deillio o'r ffaith mai newydd ddechrau gweithredu'r dull hwn rydym;

Risgiau	£m	Tebygolrwyd
Risgiau meintioledig		
Methiant i gyflawni arbedion heb ei nodi eto	15.0	Uchel
Methiant i gyflawni arbedion heb ei nodi eto	8.0	Cymedrol
Trefniadau capasiti ychwanegol	18.0	Uchel
Rheoli Meddyginiaethau (cyffuriau wedi'u rhagnodi a rhai gofal eilaidd, gan gynnwys NICE)	9.0	Uchel
Gofal Iechyd Parhaus	8.0	Uchel
Lleoliadau Iechyd Meddwl y Tu Allan i'r Ardal	6.0	Uchel
Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o wariant os bydd practisau Optometreg yn ymgymryd ag elfennau newydd y contract yn gyflym	1.0	Cymedrol
Methu â chyflawni'r cynnydd gofynnol tuag at gyfanswm y rheolaeth yn 2022/23, gan arwain at dynnu'n cyllid cylchol Amodol Llywodraeth Cymru yn ôl a gyhoeddwyd yn 2023/24	74.6	Isel
Cyfanswm y risgiau meintioledig	139.6	
Cyfanswm y risgiau meintioledig (ac eithrio incwm cylchol amodol LIC)	65.0	
Risgiau eraill heb eu meintoli		
Newidiadau i ddeddfwriaeth gwastraff clinigol		
Perfformiad contract a throsolwg		
Cyfleoedd / mesurau lliniaru ar gyfer y risgiau a nodwyd		
Datblygu arbedion trawsnewid trwy raglen ar gyfer cyflawni Gwerth a Chynaliadwyedd – tra bod y rhaglen hon yn datblygu, parhau â mesurau rheoli a ddefnyddiwyd yn 2023/24		
Lliniaru costau ynni cynyddol (£5.0m yn gynwysedig yn y cynllun)		
Wardiau ar gyfer y rhai sy'n feddygol ffit ar gyfer rhyddhau (wardiau gwyrdd neu ailalluogi)		

Mae'r cynlluniau ariannol yn cyd-fynd ag uchelgais strategol y Bwrdd Iechyd, ac er nad ydynt yn cyflawni'r ddyletswydd ariannol allweddol i fantoli'r gyllideb yn 2024/25, rhagwelir y caiff y sylfeini eu gosod a fydd yn galluogi cyflawni gweithlu cynhyrchiol, effeithlon a chyflogedig sy'n cynnig gofal cleifion o ansawdd uchel ac yn ariannol gynaliadwy.

2025/26 a Symud Ymlaen

Rhagwelir y bydd yr hinsawdd ariannol a'r galwadau ar y Bwrdd Iechyd yn parhau, gyda'r Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau sy'n gysylltiedig â;

- Y galwadau cynyddol a roddir ar wasanaethau brys a modelau gofal dewisol
- Y risgiau sy'n gysylltiedig â dyraniadau materol a dderbyniwyd ym flwyddyn ariannol 2024/25 nad ydynt ar gael yn 2025/26 a thu hwnt
- Mae'r hinsawdd ariannol yn parhau i fod yn heriol, fel y dangosir gan ofyniad am gyflawni arbedion o 2% yn ystod 2024/25

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gyflawni'r ddyletswydd ariannol allweddol ar gyfer mantoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn, ac ymhellach i ddatblygu Cynllun Tymor Canolig cydymffurfiol (IMTP) sy'n defnyddio dull Gwerth a Chynaliadwyedd i sicrhau bod gwasanaethau'n gynhyrchiol ac yn effeithlon, yn cael eu darparu drwy weithlu parhaol yn bennaf ac o fewn model gofal ariannol gynaliadwy. Bydd hyn yn elfen allweddol o'r gwaith a wneir drwy gydol blwyddyn ariannol 2024/25 i sicrhau y gellir cyflwyno cynllun cytbwys sy'n cydymffurfio yn ystod y flwyddyn a IMPT cymeradwy fel rhan o gylchoedd cynllunio'r dyfodol.

Adnoddau'r Gweithlu

Mae gan y Bwrdd Iechyd uchelgais ar gyfer gofal iechyd sy'n seiliedig ar gael gweithlu gofal iechyd sydd â'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i fodloni anghenion trigolion Gogledd Cymru. Mae'r dull hwn yn galluogi gwaith gyda'r rhai sy'n gweithio yn y Bwrdd Iechyd a gyda phartneriaid i ddechrau mynd i'r afael â nifer o heriau presennol a hirsefydlog, paratoi'r Bwrdd Iechyd ar gyfer heriau'r dyfodol a chreu cyfleoedd i lwyddo a'u gwerthfawrogi.

Sgiliau ac Ymgysylltiad

Bydd y Bwrdd Iechyd angen gweithlu ystwyth, hyblyg ac amlddisgyblaethol ar gyfer gweithle cynyddol ddigidol sy'n gallu datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer mabwysiadu a manteisio ar dechnoleg newydd. Bydd y Bwrdd Iechyd yn newid y ffordd y mae'n gweld ac yn ymgysylltu â'i weithlu, gan barhau i weithio i ddatblygu diwylliant lle mae gan bob aelod o staff lais ac yn gallu cyfrannu at lwyddiant y sefydliad, a thrawsnewid rolau a ffyrdd traddodiadol o weithio i gefnogi modelau gofal newydd trwy raglenni gwella a thrawsnewid lleol a chenedlaethol.

Recriwtio a Chadw Staff

Bydd recriwtio staff yn parhau i fod yn heriol ar draws y GIG yn ystod 2024-2025. Bydd timau'r gweithlu'n cefnogi meysydd allweddol ar draws y Bwrdd Iechyd i sefydlogi gwasanaethau yn gyntaf ac yna sicrhau bod staff yn defnyddio eu sgiliau allweddol yn y gwaith i sicrhau gofal cleifion effeithiol sy'n seiliedig ar ansawdd. Mae meysydd gwasanaeth allweddol yn cynnwys y gwasanaethau Oncoleg, Orthodonteg, Dermatoleg, Fasgwlaidd, Deintyddol Cymunedol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Niwroddatblygiad, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y cynllun.

Bydd hyn ar ffurf ymyriadau galluogi allweddol ar draws grwpiau gweithlu meddygol, nyrsio a chlinigol eraill. Bydd recriwtio a chadw staff, sy'n bwysig iawn, yn parhau i fod yn ffocws sylweddol ar draws y Bwrdd Iechyd, a ddarperir trwy gydweithio rhwng timau gweithredol a chlinigol, timau corfforaethol clinigol a thimau gweithlu. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod gennym y cymorth ar waith i'w gwneud yn haws i reolwyr gynllunio, recriwtio a chynnwys staff mewn ffordd effeithlon, gan leihau rhwystrau a manteisio ar y buddion.

Mae gwaith recriwtio penodol eisoes ar y gweill gyda nifer o fentrau ar waith ac wedi'u cynllunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol meddygol a nyrsio. Bydd hyn yn ategu'r gwaith presennol sy'n mynd rhagddo o ran recriwtio yn y DU drwy dargedu cymorth staff a defnyddio prosesau mwy syml.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma o ran cyflogi'r bobl iawn gyda'r sgiliau cywir i ddarparu gwasanaethau yn y lle iawn, a datblygu cyfleoedd i aelodau ein cymunedau i gael gwaith a'i gadw er mwyn iddynt gyflawni eu huchelgeisiau. Yn ogystal â gweithwyr cofrestredig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio'n frwd i gefnogi pobl leol Gogledd Cymru i gael mynediad at rolau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae hyn wedi arwain at nifer o ddiwrnodau agored recriwtio llwyddiannus gan gynnwys ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a staff Gweinyddol. Gan adeiladu ar hyn, mae mwy o'r rhain wedi'u cynllunio ar gyfer 2024-25.

Mae cefnogi lles staff yn ffordd bwysig o leihau absenoldeb salwch a throsiant staff a bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ehangu'r cynnig hwn, a amlinellir gyda'r flaenoriaeth Arweinyddiaeth Tosturiol a Datblygu Sefydliadol yn y cynllun.

Sefyllfa Staffio'r Gweithlu

Amlinellir yr adnoddau presennol a'r adnoddau arfaethedig sydd ar gael ar draws y sefydliad yn y tablau isod.

Y ffocws yn 2024-2025 fydd sicrhau bod y gweithlu'n parhau i dyfu dim ond lle bo angen, gan ymdrechu i'r eithaf i weithredu ffyrdd mwy effeithlon o weithio yn gyntaf. Mae ffyrdd mwy effeithlon o weithio yn cynnwys ffyrdd o restru dyletswyddau, y defnydd o dechnoleg, a defnyddio amnewid rolau ac ailgynllunio cymysgedd sgiliau. Mae'r blaenoriaethau strategol a amlinellir yn y cynllun hwn yn cynnwys yr egwyddorion hyn, a bydd ailgynllunio neu ad-drefnu gwasanaethau bob amser yn gofyn am gynlluniau staffio diogel a chyflawnadwy cyn cytuno arnynt.

Mae'r tablau isod yn amlinellu'r sefydliadau gweithlu presennol ar gyfer y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'r staff sydd mewn swydd ar hyn o bryd. Mae rhagamcanion ar gyfer 2024-25 a thu hwnt wedi'u cynnwys.

Sefydliad y Gweithlu WTE	31/3/23 Gwirion- eddol	31/3/24 Rhagam- can	2024-25 Rhagamcan				2025-26 Diwedd Rhagam- can	2025-26 Diwedd Rhagam- can
			Diwedd Ch1	Diwedd Ch2	Diwedd Ch3	Diwedd Ch4		
Staff Gweinyddol, Clercyddol ac Aelodau'r Bwrdd	3,595	3,991	3,993	3,995	3,997	3,999	3,999	3,999
Meddygol a Deintyddol	1,693	1,753	1,754	1,755	1,756	1,756	1,756	1,756
Bydwagedd a Nyrsys Cofrestredig	6,055	6,335	6,338	6,341	6,344	6,347	6,347	6,347
Gweithwyr Proffesiynol Gwyddoniaeth a Thechnoleg	784	866	867	867	868	868	868	868
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	3,931	4,307	4,309	4,311	4,313	4,315	4,315	4,315
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	1,249	1,279	1,280	1,281	1,281	1,282	1,282	1,282
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	311	312	312	313	313	313	313	313
Ystadau a Gwasanaethau Atodol	1,436	1,523	1,524	1,524	1,525	1,526	1,526	1,526
Myfyrwyr	23	23	23	23	23	23	23	23
CYFANSWM	19,078	20,389	20,399	20,409	20,419	20,428	20,428	20,428

Parhaol Wedi'i Lleoli WTE	31/3/23 Gwirion- eddol	31/3/24 Rhagam- can	2024-25 Rhagamcan				2025-26 Diwedd Rhagam- can	2025-26 Diwedd Rhagam- can
			Diwedd Ch1	Diwedd Ch2	Diwedd Ch3	Diwedd Ch4		
Staff Gweinyddol, Clercyddol ac Aelodau'r Bwrdd	3,631	3,655	3,679	3,702	3,725	3,749	3,834	3,920
Meddygol a Deintyddol	1,145	1,166	1,173	1,181	1,189	1,196	1,224	1,251
Bydwagedd a Nyrsys Cofrestredig	5,318	5,639	5,702	5,766	5,829	5,892	6,049	6,242
Gweithwyr Proffesiynol Gwyddoniaeth a Thechnoleg	731	761	764	767	771	774	786	798
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	3,893	4,028	4,058	4,087	4,117	4,147	4,234	4,303
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	1,188	1,212	1,213	1,215	1,217	1,218	1,222	1,226
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	277	297	297	297	297	297	296	296
Ystadau a Gwasanaethau Atodol	1,371	1,338	1,342	1,345	1,349	1,353	1,364	1,376
Myfyrwyr	20	24	23	23	23	23	23	23
Meddygol a Deintyddol (Gwasanaeth Canolog a Rennir)	425	458	458	458	458	458	458	458
CYFANSWM	17,999	18,577	18,710	18,842	18,975	19,108	19,491	19,893

Cynllun cyflawni ar gyfer 2024-25

Mae'r Cynllun Tair Blynedd 2024-27 yn rhoi trosolwg o'r meysydd gwaith allweddol y mae'r Bwrdd lechyd yn dymuno eu blaenoriaethu i wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at wella lechyd a Lles poblogaeth Gogledd Cymru.

Bydd llawer o'r blaenoriaethau'n cael eu cyflawni'n sylweddol neu'n llawn yn ystod blwyddyn un, tra bydd blaenoriaethau eraill yn cymryd mwy o amser i'w gweithredu dros y cyfnod tair blynedd gan adeiladu ar y blaenoriaethau a roddwyd ar waith yn gynharach. Mae'r dilyniant hwn yn bwysig i gyflawni'r newid angenrheidiol yn llwyddiannus mewn ffordd gydgyssylltiedig sy'n cydnabod cyd-ddibyniaethau blaenoriaethau.

Cynllun cyflawni CAMPUS ar gyfer blwyddyn un

I gefnogi hyn, mae'r Bwrdd lechyd wedi cynhyrchu cynllun cyflawni manylach ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun. Mae'r 'Cynllun Cyflawni' hwn yn cynnwys amcanion CAMPUS gydag amserlenni a fydd yn galluogi'r Bwrdd lechyd i olrhain cynnydd yn erbyn cyflawni, a chymryd camau unioni pan fydd amcanion mewn perygl o beidio â chael eu cyflawni.

C	Cyraeddadwy
A	Amserol
M	Mesuradwy
P	Penodol
U	Uchelgeisiol
S	Synhwyrol

Ffigur 7: Yr Acronym CAMPUS

Fframwaith Perfformiad Integredig



Ffigur8: Amcanion yn cyd-fynd

Ym mis Medi 2023 cytunodd y Bwrdd ar y Fframwaith Perfformiad Integredig hefyd. Bydd y dull a nodir yma yn cael ei ddefnyddio yng nghynllun cyflawni blynyddol 2024-25, ac yn arbennig yr aliniad o'r Cynllun Tair Blynedd i gynlluniau lleol ac amcanion personol.

Mae monitro amcanion CAMPUS yn rheolaidd yn caniatáu i gamau unioni cynnar gael eu rhoi ar waith. Os nad yw hyn yn ddigonol dilynir y Trefniadau Uwchgyfeirio a nodir yn y Fframwaith Perfformiad Integredig.

Bydd cynnydd cyflawni yn cael ei fonitro a'i adrodd yn chwarterol i'r Bwrdd.

Fframwaith Rheoli Risg

Ym mis Medi 2023 cytunodd y Bwrdd ar Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd (RMF). Mae hwn yn nodi dull y sefydliad o reoli risgiau mewn ffordd ragweithiol, integredig. Mae cyflawni cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â'r RMF.

Yn unol â hyn, bydd Fframwaith Sicrwydd y Byrddau Iechyd (BAF) yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r risgiau strategol a allai atal y Byrddau Iechyd rhag cyflawni amcanion y Cynllun Tair Blynedd.

Atodiad: Y Templedi Cynllunio

Mae'r Cynllun Tair Blynedd 2024-27 hwn yn rhoi trosolwg o'r meysydd gwaith allweddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno eu blaenoriaethu i wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at wella lechyd a Lles poblogaeth Gogledd Cymru.

I gefnogi'r trosolwg hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau templedi cenedlaethol sy'n amlinellu manylion y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd mewn meysydd arbenigol a'r effaith ar berfformiad.

Mae'r templedi cynllunio cenedlaethol hynny ar gael fel atodiadau i'r ddogfen hon ar gais ac maent yn cynnwys:

Gofal Ychwanegol yn y Gymuned (Oedi yn y Llwybrau Gofal)

Gofal Sylfaenol: GMS

Gofal Sylfaenol: Fferyllfiaeth Gymunedol

Gofal Sylfaenol: Deintyddol

Gofal Sylfaenol: Optometreg

Iechyd Meddwl: Iechyd Meddwl Oedolion

Iechyd Meddwl: CAMHS

Gofal wedi'i Gynllunio a Gofal Canser

Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Atodiad: Cynllun Blaenoriaethu Cyfalaf

Darperir fel dogfen ar wahân.

Byrfoddau a Geirfa

Addysg a Gwella Iechyd Cymru	AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yw'r corff gweithlu strategol ar gyfer GIG Cymru ac mae'n darparu cymorth a chynghor strategol ac arbenigol ynghylch y gweithlu ledled Cymru.
Aelod Annibynnol	IM	Yn achos trefniadau Byrddau Iechyd yng Nghymru, mae Aelodau Annibynnol yn cydweithio â Chyfarwyddwyr Gweithredol fel aelodau cyfartal o'r Bwrdd unedol.
Aelod Gweithredol		Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyfrifol am redeg y sefydliad yn weithredol. Yn achos trefniadau Byrddau Iechyd yng Nghymru, mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cydweithio ag Aelodau Annibynnol fel aelodau cyfartal o'r Bwrdd unedol.
Anhwyllder ar y Sbectwm Awtistaidd	ASD	Mae Anhwyllderau'r Sbectwm Awtistig yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio ystod o gyflyrau datblygiadol sy'n perthyn yn agos, y cyfeiriwyd atynt yn gyffredin fel 'awtistiaeth' yn flaenorol.
Anhwyllder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd (ADHD)	ADHD	Mae ADHD yn gyflwr, a gaiff ei ddiagnosio fel arfer yn ystod plentyndod a nodweddir gan orfywiogrwydd a byrbwylltra.
Archwilio Cymru		Archwilio Cymru yw'r sefydliad annibynnol sy'n darparu craffu ac yn archwilio darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
Archwilio Mewnol		Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sy'n annibynnol ar y Bwrdd Iechyd sy'n archwilio gwasanaethau a systemau llywodraethu yn y Bwrdd Iechyd. Mae gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael eu cynnal gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.
Argyfyngau Sifil Posibl		Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill baratoi at argyfyngau.
Arweinyddiaeth dosturiol		Mae arweinyddiaeth dosturiol yn ddull o arwain sy'n cynnwys gwrandao ar gydweithwyr, deall eu hanghenion a'u cynorthwyo. Mae'n faes sydd wedi'i ymchwilio'n drylwyr a'i ddiben yw sicrhau staff sy'n ymgysylltu mwy ac sy'n gryfach eu cymhelliant, lefelau uwch o les a gallu darparu gofal o ansawdd well.
Asesiad o Anghenion Fferyllol	PNA	Mae'r Asesiad o Anghenion Fferyllol (PNA) yn asesiad o ofynion presennol gwasanaeth fferyllol presennol a'i anghenion yn y dyfodol mewn ardaloedd unigol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r PNA i lywio cynlluniau i wella gwasanaethau fferyllol.
Asesiad o Anghenion y Boblogaeth	PNA	Mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn asesiad o'r anghenion gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru, gan nodi'r gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny ac unrhyw fylchau a champau gweithredu sydd eu hangen. Fe'i sefydlwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cwblhawyd y PNA diweddaraf yn 2022, ond adolygir hynny yn rheolaidd.

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	HSE	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw corff rheoleiddio cenedlaethol y DU ynghylch iechyd a diogelwch yn y gweithle.
Blaenoriaethu		Y broses a ddefnyddir i wneud gwelliannau i wasanaethau gofal iechyd sy'n cynnig y gwerth gorau i unigolion a chymunedau wrth ddyrannu'r defnydd o adnoddau cyfyngedig.
Bwrdd		Y Bwrdd sy'n llywodraethu'r sefydliad. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, Aelodau Annibynnol (a benodir gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ac Aelodau Gweithredol. Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio Bwrdd unedol.
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	BGC	Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i wella cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Ceir tri BGC yng Ngogledd Cymru - BGC Ynys Môn a Gwynedd, BGC Conwy a Sir Ddinbych a BGC Sir y Fflint a Wrecsam.
Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd		Dull gofal iechyd cydweithredol cenedlaethol yng Nghymru i nodi a meincnodi cyfleoedd i gynyddu gwerth yn y GIG, ac i sicrhau bod gwasanaethau'n fwy cynaliadwy. Disgwylir i Fyrddau Iechyd unigol gymhwyso'r canfyddiadau i'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	RPB	Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn un o ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i wella llesiant y boblogaeth a gwella'r dull o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal. Ceir un RPB yng Ngogledd Cymru.
Byw'n Iachach, Aros yn Dda		Strategaeth y Bwrdd Iechyd y cynhaliwyd ymgynghoriad yn ei chylch yn 2017.
Canolfan Ragoriaeth Menter Ymchwil Busnesau Bach	SBRI	Mae Canolfan Ragoriaeth Menter Ymchwil Busnesau Bach yng Nghymru yn cael ei chynnal gan y Bwrdd Iechyd ac mae'n cydweithio â chyrrff y sector cyhoeddus yng Nghymru. Drwy gynnal cystadlaethau a gwahodd y diwydiant i gyfranogi, nod Canolfan Ragoriaeth SBRI yw datblygu atebion arloesol sy'n gwella iechyd a lles pobl sy'n byw yng Nghymru. Ariennir y Ganolfan gan Lywodraeth Cymru.
Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint	COPD	Mae COPD yn gyflwr hirdymor, gan gynnwys emffysema a bronchitis cronig, sy'n effeithio ar yr anadlu. Mae'r rhan fwyaf o achosion o COPD yn gysylltiedig â hanes o ysmegu, sy'n golygu bod COPD yn gyflwr y gellir ei atal yn achos llawer o bobl.
Clwstwr		Cydweithrediad, sy'n cwmpasu poblogaethau o tua 25,000 i 50,000, sy'n dod â chydweithwyr gwasanaeth y Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol, gwasanaethau gofal iechyd contractwyr annibynnol, y trydydd sector, ac eraill ynghyd, i nodi ffyrdd gwell o ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol trigolion lleol.
Cofnod Iechyd Electronig	EHR	Cofnod meddygol cyfrifiadurol sy'n disodli'r defnydd o gofnodion ar bapur yn llwyr.

Cofrestr risg		Mae cofrestr risg yn gofnod strwythuredig o unrhyw risgiau sylweddol a reolir gan y Bwrdd Iechyd a allai effeithio ar waith y Bwrdd Iechyd. Caiff cofrestrau risg eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn cynnwys cynlluniau ymateb ynghylch dulliau o leihau neu reoli risgiau.
Colonosgopi		Archwilio'r coluddyn gan ddefnyddio tiwb tenau, hyblyg â chamera ynghlwm.
Community Health Pathways		Mae Community Health Pathways, neu HealthPathways, yn borth ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a'i ddiben yw ceisio lleihau nifer y cyfeiriadau diangen am wasanaethau gofal eilaidd ysbytai.
Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	GMS	Sut mae Meddygon Teulu/ymarferwyr Gofal Sylfaenol annibynnol yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i redeg eu practisau.
Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwysio	IRCF	Cynllun ariannu ar lefel Cymru gyfan sydd â'r nod o wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
Cyfanswm rheoli		Mae cyfanswm rheoli ariannol yn cyfleu targedau ariannol y mae'n rhaid eu cyflawni ac mae'n diffinio uchafswm y gwariant a ganiateir.
Cyflwr Hirdymor	LTC	Mae cyflyrau hirdymor yn fathau o salwch na ellir eu gwella er y gellir eu rheoli â meddyginiaethau neu driniaethau eraill, er enghraifft, asthma a diabetes.
Cyllid gofal iechyd parhaus	GIP	Mae cyllid gofal iechyd parhaus, a elwir hefyd yn gyllid GIP, yn fframwaith GIG sy'n asesu unigolion sydd ag anghenion gofal iechyd parhaus sylweddol y tu allan i'r ysbyty. Os bodlonir y trothwy GIP, yna caiff anghenion gofal parhaus eu hariannu'n llawn gan y GIG.
Cymru Iachach		Mae Cymru Iachach yn Gynllun a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 yn nodi gweledigaeth hirdymor o sut y bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn sicrhau bod pobl yng Nghymru yn aros yn iach ac yn annibynnol cyhyd â phosibl.
Cymuned Iechyd Integredig	IHC	IHC yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at dair ardal ddaearyddol y Bwrdd Iechyd - y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin. Mae pob IHC yn gyfrifol am drefnu a darparu gwasanaethau gofal iechyd cyffredinol yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth yn yr ardal berthnasol ynghyd â gwasanaethau cymunedol yr ardal.
Cynllun cyflawni 2024-25		Mae cynllun cyflawni blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 yn darparu map manwl i amlygu sut a phryd y caiff y blaenoriaethau ar gyfer 2024-25 yn y cynllun eu cyflawni a phwy yw'r uwch swyddog atebol sy'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni pob elfen.
Cynllun Gwasanaethau Clinigol	CSP	Cynllun ar gyfer sut i ffurfweddu darpariaeth gwasanaethau clinigol er mwyn cyflawni bwriad strategol y Bwrdd Iechyd.
Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio	DAP	Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Cynllun Tymor Canolig Integredig	CTCI	Cynllun yw CTCI, wedi'i osod o fewn cyd-destun tair blynedd sy'n nodi sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflawni'r weledigaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Rhaid i CTCI adlewyrchu tirwedd strategol a deddfwriaethol Cymru, gan gynnwys blaenoriaethau'r Gweinidogion.
Cytundeb Lefel Gwasanaeth	CLG	Cytundeb ysgrifenedig rhwng darparwr gwasanaeth a chomisiynydd y gwasanaeth hwnnw sy'n nodi'n glir beth yw lefel y gwasanaeth a ddisgwylir a'r trefniadau monitro a ddefnyddir.
CHKS	CHKS	Mae CHKS yn ddarparwr gwasanaethau gwybodaeth a gwella ansawdd ym maes gofal iechyd, gan gynnwys data meincnodi ysbytai. Defnyddir hwn i gymharu perfformiad ysbytai â pherfformiad ysbytai tebyg eraill i nodi cyfleoedd i wella.
Datblygiad Sefydliadol	OD	Datblygiad sefydliadol yw'r dull a ddefnyddir i gynorthwyo'r bobl sy'n gweithio mewn sefydliad i wneud eu gorau glas a bod yn fwyaf bodlon. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo diwylliant sefydliadol cadarnhaol, datblygu sgiliau'r gweithlu a sgiliau arwain a gwella cyfathrebu.
Deddf Gofal Gwrthgyfartal	ICL	Mae'r ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yn disgrifio'r ffenomen lle mae'r bobl sydd â'r angen mwyaf o ofal iechyd yn lleiaf tebygol o dderbyn hynny, gan achosi gwahaniaethau o ran mynediad at ofal. Bydd hyn yn aml yn digwydd pan fydd pobl sy'n llai cefnog yn profi rhwystrau.
Delweddu Atseiniol Magnetig	MRI	Mae delweddu atseiniol magnetig yn fath o sgan sy'n defnyddio meysydd magnetig a thonnau radio oddi mewn i diwb mawr y bydd y claf yn gorwedd ynddo.
Delweddu Atseiniol Magnetig Amlbaramedr	mpMRI	Dull o sganio'r brostad sy'n creu delweddau sy'n fanylach na'r rhai a gaiff eu creu gan sgan MRI safonol.
Dull partneriaeth busnes		Mae dull partneriaeth busnes yn ddull sy'n cyfateb arbenigedd swyddogaethol mewn meysydd megis cyllid, y gweithlu, a gwyddor gwella â thimau gweithredol ledled y sefydliad.
Dyletswydd Ansawdd		Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cynnwys y Ddyletswydd Ansawdd sydd â'r nod o wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn barhaus. Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn berthnasol i bob agwedd ar waith GIG Cymru, boed yn glinigol neu'n anghlinigol.
Endosgopi		Mae endosgopi yn brawf diagnostig sy'n defnyddio tiwb hir, tenau â camera bychan y tu mewn iddo, a elwir yn endosgop.
Firws Papiloma Dynol	HPV	Firws papiloma dynol yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at grŵp o firsau y gall nifer fach ohonynt achosi dafadennau gwenerol neu ganser.
Fferyllfeydd cymunedol		Weithiau, gelwir hwy yn 'fferyllfeydd stryd fawr'. Mae darparwyr fferyllfeydd cymunedol yn dosbarthu presgripsiynau ac yn gwerthu cynhyrchion dros y cownter, ond maent yn cyflawni llawer iawn mwy na hynny hefyd, gan gynnwys darparu ymgynghoriadau ynghylch ystod o broblemau gofal iechyd a rhagnodi rhai meddyginiaethau.

Ffibriliad Atriaidd (AF)	AF	Mae ffibriliad atriaidd yn gyflwr ar y galon lle mae curiad y galon yn afreolaidd. Mae'n bwysig oherwydd gall yr afreoleidd-dra effeithio ar lif y gwaed gan arwain at glotiau a strôc oni bai ei fod yn cael ei drin yn effeithiol.
Fframwaith Cynllunio Integredig		Y Fframwaith yn y Bwrdd Iechyd sy'n cydgrynhoi'r gwahanol agweddau ar draws y sefydliad y mae angen sgiliau cynllunio i ymdrin â hwy.
Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	BAF	Mae'r BAF yn dwyn ynghyd y wybodaeth sy'n ymwneud â risgiau o beidio â chyflawni amcanion strategol y bwrdd, gan gynnwys sut mae'r risgiau hynny'n cael eu rheoli a'u lliniaru.
Galw a Chapasiti	D&C	Dyma'r term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r methodolegau ar gyfer nodi faint o gapasiti gofal wedi'i gynllunio sydd ar gael o'i gymharu â'r galw disgwyliedig yn sgil cyfeiriadau.
Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod	SDEC	Mae gofal argyfwng yr un diwrnod (SDEC) yn wasanaeth sy'n darparu gofal brys i gleifion heb iddynt orfod cael eu derbyn i'r ysbyty dros nos.
Gofal heb ei drefnu		Erbyn hyn, defnyddir y term 'gofal brys a gofal mewn argyfwng' i gyfeirio at hyn fel arfer; mae'n yn ymwneud â gofynion gofal heb ei gynllunio cleifion sydd naill ai'n faterion brys neu'n argyfyngus. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir mewn Adrannau Achosion Brys ond mae hefyd yn cynnwys llawer o wasanaethau eraill, er enghraifft, y defnydd o wasanaeth 111, unedau mân anafiadau, gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau a gwasanaethau mân salwch fferyllfeydd cymunedol.
Gofal nyrsio a ariennir	FNC	Ceir cysylltiad agos rhwng FNC a chyllid gofal iechyd parhaus. Efallai bydd unigolion nad ydynt yn gymwys i gae cyllid GIP yn gymwys i gael FNC os ydynt yn byw mewn cartref gofal ac os oes arnynt angen gofal gan nyrs gofrestrdedig. Os byddant yn gymwys, bydd FNC yn talu am elfen gofal nyrsio'r costau.
Gofal seiliedig ar werth		Mae gofal sy'n seiliedig ar werth yn ddull sefydledig o ymdrin â gofal iechyd yng Nghymru a'i nod yw gwella canlyniadau cleifion drwy wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n ymwneud â sicrhau canlyniadau ystyrlon sydd bwysicaf i gleifion.
Grŵp Cydweithredol Canolbarth Cymru		Sefydlwyd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth, sef Cydbwyllgor Iechyd a Gofal y Canolbarth erbyn hyn, i ymateb i Astudiaeth Gofal Iechyd y Canolbarth â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn y Canolbarth yn effeithiol ar gyfer ei boblogaeth.
Grŵp Cyngori ar y Cyd (JAG) ar Achredu Endosgopi Gastroberfeddol		Mae achredu gan y JAG yn system achredu a gydnabyddir yn genedlaethol a ddefnyddir i sicrhau ansawdd gwasanaethau endosgopi gastroberfeddol.
Gwasanaeth niwroddatblygiadol	ND	Cangen y gwasanaethau gofal iechyd sy'n rheoli cyflyrau niwroddatblygiadol. Y cyflyrau mwyaf cyffredin yw Anhwylderau Sbectwm Awtistig ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd.
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc	CAMHS	Y term cyffredinol a ddefnyddir i gyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl i'r sawl sy'n iau na 18 oed. Mae hyn yn cynnwys ystod o wasanaethau mewngymorth, gwasanaethau cymunedol,

		gwasanaethau cleifion mewnol a gwasanaethau dwysedd uchel, a gwasanaethau arbenigol.
Gweithdrefn Weithredu Safonol	SOP	Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol yn set o gyfarwyddiadau cam wrth gam i gynnig arweiniad i'r sawl sy'n cyflawni tasgau penodol, â'u bwriad yw gwella effeithlonrwydd, ansawdd a chysondeb.
Gweithgareddau bywyd bob dydd	ADL	Gweithgareddau bywyd bob dydd yw'r tasgau hanfodol y mae unigolion yn eu cyflawni fel rhan o'u harferion dyddiol, er enghraifft bwyta, yfed, ymolchi a gwisgo. Mae'r gweithgareddau hyn yn hanfodol ar gyfer cynnal ansawdd bywyd da ac yn sail i'r asesiadau y mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn eu cynnal i bennu galluedd ac anghenion gweithredol unigolyn.
Gwella Cymru		Gwella Cymru yw'r gwasanaeth gwella ar gyfer GIG Cymru, a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gwneud Pethau'n Iawn Y Tro Cyntaf	GIRFT	Mae GIRFT yn rhaglen genedlaethol gan y GIG a gynlluniwyd i wella'r triniaethau a'r gofal a gaiff cleifion trwy leihau amrywiadau diangen gan ddefnyddio data meincnodi a chymhwyso'r arferion gorau gan ddarparwyr sy'n perfformio'n dda i eraill.
Hyd Arhosiad	LoS	Nifer y dyddiau y bydd claf mewnol yn eu treulio ysbyty.
Imiwneidd torfol		Mae'r term 'imiwneidd torfol' yn disgrifio'r angen i frechu canran benodol o'r boblogaeth er mwyn atal parhad lledaeniad salwch heintus ymhlith pobl nad ydynt wedi'u brechu'n llawn. Ar ôl cyflawni imiwneidd torfol, bydd clefyd yn diflannu o blith y boblogaeth yn raddol.
Klebsiella		Mae Klebsiella yn facteria a all achosi heintiau difrifol, yn enwedig mewn ysbytai, ac weithiau, gall wrthsefyll gwrthfotigau cyffredin.
Llais		Llais yw'r corff cenedlaethol, annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau llais cryfach i bobl Cymru mewn perthynas â'u gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol		Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus megis y Bwrdd Iechyd Gydweithio'n well ag eraill a mabwysiadu ymagwedd gydgysylltiedig, hirdymor, gan ystyried effaith hirdymor penderfyniadau a chydweithio'n well â phobl a chymunedau ac â'i gilydd. Hanfod y ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
Meddyg Teulu a diddordeb arbennig	GPwSI	Gelwir y math hwn o feddyg yn Feddyg Teulu â Rolau Estynedig (GPwER) hefyd. Mae GPwSI yn feddyg teulu sy'n ymgymryd â rôl sy'n ymestyn y tu hwnt i gwmpas arferol practis cyffredinol mewn maes arbenigol penodol. Bydd GPwSI yn aml yn cael cyfeiriadau perthnasol gan feddygon teulu eraill yn lle cyfeirio cleifion at arbenigwyr mewn ysbytai.
Meddygaeth Enomig		Genomeg yw'r maes sy'n astudio genynnau cleifion unigol i sicrhau diagnosis cywirach neu gynharach. Rhagwelir y bydd hyn yn ein galluogi i baru gwybodaeth enetig â'r meddyginiaethau a'r ymyriadau mwyaf effeithiol.

Meddygaeth Niwclear		Mae meddygaeth niwclear yn defnyddio deunydd ymbelydrol i ddiagnosisio clefydau. Oherwydd y defnydd o ymbelydredd, ceir rheoleiddio ac arolygu deddfwriaethol caeth ym maes meddygaeth niwclear.
Mesur Canlyniad a Adroddir gan Glaf	PROM	Mae PREMs yn offerynnau sy'n galluogi unigolion i adrodd am y canlyniadau gofal iechyd o'u safbwynt hwy. Cânt eu defnyddio'n aml yn dilyn triniaethau neu ymyriadau i asesu eu heffaith.
Mesur Profiad a Adroddir gan Glaf	PREM	Mae PREMs yn offerynnau sy'n galluogi unigolion i adrodd am y profiad o gael gofal iechyd o'u safbwynt hwy. Cânt eu defnyddio'n aml yn dilyn triniaethau neu ymyriadau i asesu teimladau unigolion ar ôl cael ymyriadau er mwyn gwella gwasanaethau.
Mesurau Arbennig		Mesurau arbennig, a elwir bellach yn uwchgyfeirio lefel 5, yw lefel uchaf yr uwchgyfeirio yn nhrefniadau fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru.
Model Gofal Sylfaenol i Gymru		Y model cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn y dyfodol yng Nghymru. Mae'n gwneud gwell defnydd o sgiliau pawb sy'n gweithio yn yr ardal leol, ac sy'n grymuso unigolion i ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u dewisiadau eu hunain.
Model gweithredu		Mae cyfanswm rheoli ariannol yn cyfleu targedau ariannol y mae'n rhaid eu cyflawni ac mae'n diffinio uchafswm y gwariant a ganiateir.
Mwy Na Geiriau		Mwy Na Geiriau yw fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	Malc	Dyma fesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bychan yng Nghymru, sy'n cynnwys 1,909 o ardaloedd wedi'u graddio o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,909 (y lleiaf difreintiedig).
Nod Pedwarplyg		Mae'r Nod Pedwarplyg yn ddull a gydnabyddir yn rhyngwladol i ysgogi gwelliannau ym maes Gofal Iechyd. Dyma bedair thema'r Nod Pedwarplyg (fel y dehonglwyd hwy ar gyfer Cymru): gwell iechyd a lles y boblogaeth; gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell a mwy hygyrch; gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol uwch eu gwerth; a gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwdfrydig a chynaliadwy.
Nodau Llesiant		Y saith nod llesiant a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb	EPRR	EPRR yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at y cynllunio a'r paratoi diddiwedd a wneir gan sefydliadau'r GIG er mwyn gallu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i amrywiaeth o ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar iechyd neu ofal cleifion, er enghraifft, brigadau o achosion o glefydau heintus, tywydd eithafol, a damweiniau mawr.
Parhad Busnes		Trefniadau Parhad Busnes yw'r cynlluniau a roddir ar waith gan sefydliadau i sicrhau eu bod yn gallu ymateb a pharhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol pan fo digwyddiadau sy'n bygwth hyn, er enghraifft colli pŵer, methiannau TG a digwyddiadau mawr sy'n effeithio ar argaeledd staff.

Penderfynyddion Ehangach Iechyd		Mae penderfynyddion ehangach iechyd yn cyfeirio at ystod eang o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n dylanwadu'n sylweddol ar les meddyliol a chorfforol pobl. Er enghraifft tlodi, tai gwael, diffyg cyflogaeth, a mynediad at fannau gwyrdd.
Prawf yn Syth		Y dull o ofyn am brofion diagnostig (e.e. sganiau) cyn i glaf gael ei weld mewn adran cleifion allanol, fel y gellir gwneud penderfyniad ynghylch triniaeth ar adeg gweld y claf.
Pseudomonas Aeruginosa		Mae Pseudomonas yn facteria sy'n gallu achosi heintiau difrifol, yn enwedig mewn ysbytai, ac sydd weithiau'n gallu gwrthsefyll gwrthfotigau cyffredin.
Pwyllgor y Bwrdd		Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o Bwyllgorau Bwrdd y mae gan bob un ohonynt feysydd cyfrifoldeb penodol, er enghraifft Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth. Mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn darparu craffu ac yn adrodd ar sicrwydd i'r Bwrdd.
Radiotherapi Abladol Stereotactig	SAbR	Mae Radiotherapi Abladol Stereotactig yn fath arbenigol iawn o driniaeth ymbelydredd â ffocws manwl gywir.
REGO	REGO	Y cynllun Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy
Rhaglen Archwilio Genedlaethol Sentinel Stroke	SSNAP	Mae Rhaglen Archwilio Genedaethol Sentinel Stroke (SSNAP) yn flaengaredd gwella ansawdd. Mae SSNAP yn mesur ansawdd a threfniadaeth gofal i gleifion sydd wedi cael strôc.
Rhagnodi Annibynnol	IP	Rhagnodi meddyginiaeth sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol nad ydynt yn feddygon, ar ôl cael hyfforddiant ychwanegol.
Rhyddhau i Adfer yna Asesu	D2RA	Mae'r dull hwn yn helpu pobl i aros gartref neu gael eu rhyddhau cyn gynted â phosibl i wella gartref cyn cael eu hasesu i ganfod a oes unrhyw anghenion parhaus.
Sefydliad Angor		Mae sefydliadau angor yn sefydliadau sector cyhoeddus y mae eu cynaliadwyedd hirdymor ynghlwm â lles y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu. Mae gan sefydliadau angor gyfle sylweddol i gael effaith fawr ar eu cymunedau lleol yn dibynnu ar sut y maent yn mynd ati i gaffael, y defnydd o'u hadeiladau a'u hystad, eu polisiau gweithlu, sut maent yn gweithio gyda'i gilydd, ac effaith amgylcheddol.
Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd	NIHR	Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd yn cefnogi ac yn galluogi ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU.
Sefydliad Gwella Gofal Iechyd	IHI	Mae'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd yn sefydliad dielw annibynnol a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n darparu cyngor a chymorth ym maes gwyddor gwella gofal iechyd.
Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol	IOSH	Mae'r IOSH yn sefydliad rhyngwladol sy'n gosod safonau ar gyfer ym meysydd iechyd a diogelwch yn y gweithle ac yn cynnig arweiniad i'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y meysydd hynny.

Staffylococws Awrëws sy'n gwrthsefyll Methisilin	MRSA	Mae MRSA yn fath o haint bacteriol a all achosi haint difrifol os aiff i mewn i'r corff. Gall fod yn gysylltiedig â gorddefnyddio gwrthfotigau.
Staffylococws Awrëws sy'n Sensitif i Fethisilin	MSSA	Mae MSSA yn fath o haint bacteriol sy'n debyg i MRSA ond mae'n fwy tebygol y gellir ei drin â gwrthfotigau.
Swyddfa Rheoli Portffolios a Rhaglenni	PMO	Strwythur cymorth yn y Bwrdd Iechyd sy'n sicrhau bod gwyddor gwella a rheoli newid yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau wrth reoli newid busnes. Weithiau, cyfeirir at hyn fel sicrhau ein bod yn "gwneud y gwaith iawn ac yn ei wneud yn y ffordd gywir" wrth gyflawni newid mawr.
System		Gelwir hynny weithiau yn 'system gyfan', a defnyddir y term fel arfer i ddisgrifio'r dull cydweithredol sy'n cynnwys partneriaid niferus sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal yn y ffordd orau. Ni all y Bwrdd Iechyd ddarparu'r gwasanaethau gorau os bydd yn gweithio'n unigol heb fanteisio ar gymorth gan eraill.
Templed cynllunio		Y templedi gorfodol a roddir i Fyrddau Iechyd gan GIG Cymru a ddefnyddir i ddarparu manylion ychwanegol strwythuredig ynghylch blaenoriaethau'r cynllun.
Tîm Gweithredol		Aelodau Gweithredol y Bwrdd unedol, dan arweiniad y Prif Weithredwyr. Hwyl yw swyddogion uchaf y sefydliad, ac maent yn gyfrifol am arwain y Bwrdd Iechyd yn weithredol.
Tomograffeg Allyriadau Positron	PET	Mae sgan tomograffeg allyriadau positron (PET) yn fath modern o brawf delweddu meddygaeth niwclear sy'n darparu delweddau 3 dimensiwn manwl o du mewn y corff.
Tomograffeg Gyfrifiadurol	CT	Math o sgan yw tomograffeg gyfrifiadurol sy'n defnyddio pelydrau-x y tu mewn i diwb mawr y bydd claf yn gorwedd ynddo.
Therapi gwrthganser systemig	SACT	Mae'r term 'therapi gwrth-ganser systemig' yn disgrifio ystod o driniaethau a ddefnyddir i dargedu canser, er enghraifft, cemotherapi.
Uned Mân Anafiadau	MIU	Mae MIUs yn wasanaeth galw heibio sy'n gallu ymdrin â mân anafiadau heb orfod ymweld ag Adran Achosion Brys. Ceir 9 MIU yn ardal y Bwrdd Iechyd.
Y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng	6 Nod	Mae'r Rhaglen 6 Nod yn rhaglen genedlaethol o flaengareddau i helpu i drawsnewid mynediad at ofal brys a gofal mewn argyfwng.
Y trydydd sector		Mae'r 'trydydd sector' yn derm ambarél sy'n cwmpasu ystod o sefydliadau â strwythurau a dibenion gwahanol, nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus na'r sector preifat. Mae hyn yn cynnwys elusennau, cymdeithasau tai, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol.
Ymhellach, Yn Gyflymach		Mae 'Ymhellach, Yn Gyflymach' yn un o ffrydiau gwaith cynllun hirdymor Cymru lachach i gynyddu'r momentwm ym maes gofal yn y gymuned er mwyn lleihau'r pwysau ar ysbytai.
Ymyriadau Niferus a Llai Cymhleth	HVLC	Mae ymyriadau Niferus a Llai Cymhleth yn ymyriadau llawfeddygol cyffredin, e.e. tynnu cataract, a thriniaethau digymhlethdod i osod cymalau artiffisial, y gellir eu darparu'n fwy effeithlon trwy gytuno ar lwybrau safonol,

		cronni capasiti ac adnoddau, a gwella'r defnydd o theatrau a chyfraddau achosion dydd.
Yn Ffit yn Feddygol i'w Ryddhau	MFD	O'r adeg pan gyflawnir hyn, bydd unigolyn yn aros yn yr ysbyty am resymau heblaw am yr angen am oruchwyliaeth feddygol fel claf mewnol.
Ysbyty Cyffredinol Dosbarth	YCD	Mae ysbyty cyffredinol dosbarth yn derm traddodiadol i gyfeirio at ysbyty sy'n darparu gwasanaethau gofal eilaidd mewn ardal benodol neu ddosbarth penodol. Yng Ngogledd Cymru, mae gennym dri ysbyty y gellir eu hystyried yn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth, sef Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam.